

ECO'R WYDDFA

Rhif 159

MEHEFIN 1990

Pris 25c

BWRLWM IEUENCTID YN LLIFO'N Y GLYN



Llongyfarchiadau i Lowri Glyn o'r Waunfawr a ddaeth yn gyntaf yn y gystadleuaeth gwneud pypedau dan 8 oed.



Ac hefyd i Elli Haf Iwan, eto o'r Waunfawr, ond erbyn hyn yn aelod unigol o'r Urdd o Lydaw. Daeth Elli yn gyntaf dan 25 am ysgrifennu portread o arwr.



Plant Ysgol Gynradd Bethel yn cymeryd seibiant ar ôl bod yn ymarfer eu golygfa hwy o Basiant y Plant — 'Pumed Gainc y Mabinogi'. Rhagor o luniau o'r Pasiant tu mewn.



Go dda hefyd Alaw Mari Hughes, Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen, a ddaeth i'r brig yn y gystadleuaeth gwau a chrosio dan 10 oed.



Dyma fel y gwelir Elin Gwilym o'r Waunfawr ym Mhasiant y Plant. Hi yw Arianrhod y frenhines gas sydd a'i bryd ar ddifetha hwyl plant Cymru!



Llongyfarchiadau hefyd i Elen, Siân, Michael a Iolo o Ysgol Gynradd Llanrug. Daethant yn gyntaf am gywaith modelu a thri dimensiwn dan 8 oed. Daeth eu ffrindiau ysgol yn drydydd yn yr un gystadleuaeth. Rhagor o luniau o bobl ifanc prysur y fro tu mewn.

ECO'R WYDDFA

RHIF 159
MEHEFIN 1990

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru.

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, Pros Kairon,
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-
Nant, Pontrhyallt, Llanrug (C'fon
3515)

GOLYGYDD NEWYDDION PENTREFI:

Nant Roberts, Arwel, Pontrhyallt
(870760)

GOLYGYDD CHWARAEON:

Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun
(Llanberis 872407)

ECO'R IFANC:

Mrs Nan Humphreys, Pant Bryngwyn,
Tanycoed (C'fon 5668)

DYDDIADUR Y MIS:

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFWYR:

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669)

Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug
(C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION:

John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT:

Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL:

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:

Mrs E Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug (C'fon 4778)

GOHEBWYR PENTREFI:

Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich
ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran,
(Portdinorwig 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen (C'fon 3536)

CEUNANT: Gwenno Parri, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W O Williams, 6 Rhyd-
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D J Thomas, 8 Maes
Eilian (870773)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri, 870491.

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn
Rhuddallt (Caernarfon 76733)

NANT PERIS: Mrs Ann Fleming,
Dolwen, 8 Nant Flynnon (871457)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Bethan Parry, Ael
y Bryn. (872 276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (Waunfawr 570).

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, MEHEFIN 28

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

**NOS FAWRTH,
MEHEFIN 19**

os gwelwch yn dda.

LLYTHYRAU

CYFEILLION Y THEATR

Annwyl Olygydd,

Yr ydym yn ffodus iawn fod gennym theatr o ansawdd Theatr Ardudwy mewn ardal gymharol denau ei phoblogaeth fel hon. Y mae'r clod am y ffaith fod gennym theatr mor fywiog sydd yn llwyfannu cynhyrchiadau ac yn darparu adloniant drwy gydol y flwyddyn yn mynd i'r ychydig gyrff a rydd gefnogaeth ariannol iddi, a hefyd i'r rhai hynny sydd yn gyfrifol am ei rheoli ar gyllid cyfyngedig.

Mynegodd nifer o bobl leol, sydd yn mynychu'r theatr yn rheolaidd, y farn fod y theatr yn haeddu llawer mwy o gefnogaeth nag a gaiff ar hyn o bryd, ac awgrymasant y gallai ffurfio 'Cymdeithas Cyfeillion Theatr Ardudwy' fod yn gymorth tuag at ddarparu'r gefnogaeth ychwanegol honno sydd gymaint o'i hangen.

Byddai aelodaeth o gymdeithas o'r fath yn rhoi cyfle i unigolion gyda diddordeb yn y theatr gyfarfod cyfeillion gyda'r un diddordeb ar sail gymdeithasol, tra'n darparu cefnogaeth a chymorth i'r staff ar yr un pryd. Fel y datblygai'r gymdeithas, gellid trefnu digwyddiadau cymdeithasol, ymweliadau theatr a'r cyffelyb yn ôl dymuniad yr aelodau.

Os oes gennych ddiddordeb yn y syniad o fod yn gyfaill i'r theatr, estynnir gwahoddiad cynnes i chi i Theatr Ardudwy, ddydd Mawrth, Mehefin 5 am 7.30 p.m., pan y bwriedir trafod y cynigion a, gobeithio, ffurfio gweithgor / pwyllgor bach i fynd ymlaen â'r mater.

Yn gywir,
BOB BINNS,
Dwyfan,
Borth y Gest,
Porthmadog.

PLESER ODDI CARTREF

Annwyl Olygydd,

Diolch yn fawr am 'Eco'r Wyddfa' am y flwyddyn a aeth heibio.

Rwy'n dal i fwynhau'r erthyglau yn yr 'Eco' — sydd yn anhygoel o dda! Llongyfarchiadau i'r holl gyfrannwyr.

Ni, y Cymry Cymraeg ar wasgar sy'n gwerthfawrogi y gwaith i gynhyrchu'r papur. Daliwch ati! Gyda diolch

Yr eiddoch yn wlatgar,
JOHN HUNTER,
12, Lyndhurst Road,
Sheffield.

DEFNYDDIO'R GYMRAEG WRTH ENWI STRYDOEDD

Mewn llythyr at gadeiryddion holl awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru, mae Cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gofyn iddynt roddi ystyriaeth fanwl i ddefnyddio enwau cynhenid Gymraeg wrth enwi strydoedd.

'mae hyn yn ffordd weladwy a chreadigol o ddefnyddio'r iaith ac yn fodd i gydnabod cymeriad unigryw pob ardal' meddai Mr Jones. Yn aml iawn mae enwau Cymraeg addas hanesyddol ar gael, sydd yn berthnasol i ardal a gyda ychydig o ddychymyg gellir eu priodoli i ddatblygiad newydd.

'Yn ddiethriad byddant yn gweddu, ac wrth eu mabwysiadu byddai Cynghorau, mewn cydymgyngoriad a datblygwyr yn cynorthwyo i gadw cymeriad Cymraeg Cymru' meddai.



Annwyl Gyfeillion,

A ninnau yn awr yn tynnu at derfyn yr Eisteddfod mae'n bleser gennym eich hysbysu fod Cronfa'r Ardaloedd wedi cyrraedd ei nôd o £65,000.

Pan oedd rhai ohonom ni, swyddogion y Pwyllgorau Gwaith a Chyllid, yn mynd o bentref i bentref i sefydlu'r pwyllgorau apêl lleol tros ddwy flynedd yn ôl roeddem yn ymwybodol iawn ein bod yn gosod beichiau trymion ar yr ardaloedd o fewn cylch yr Eisteddfod. Erbyn hyn, fodd bynnag, mae mwyafrif llethol y pwyllgorau wedi cyrraedd eu nod a rhai ohonynt wedi llwyddo i ddyblu a threblu eu targed.

Sylweddolwn fod hyn wedi golygu llafur mawr i nifer o bobl ym mhob ardal ac ar ran y Pwyllgorau Gwaith a Chyllid hoffem fynegi ein diolchgarwch a'n gwerthfawrogiad o ymdrech pob pwyllgor i gasglu arian tuag at yr Eisteddfod. Hoffem ddiolch hefyd am bob cymorth a gafwyd gan yr ardaloedd gyda'r ymdrechion codi arian canolog — Nosweithiau Dwyynwen ac ati.

Efallai na fydd eich pwyllgor yn cyfarfod yn ffurfiol eto, felly carem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a gynorthwyodd gyda'r ymdrechion lleol.

Gan obeithio i chwi gael Eisteddfod lwyddiannus a chael hwyl ar y gweithgareddau.

Yn gywir

IFAN JONES DAVIES,
(Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith),
GERAINT R. JONES,
(Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid),
Eisteddfod Genedlaethol
Urdd Gobaith Cymru
Dyffryn Nantlle ac Arfon 1990

DIOLCH

Gyda diolch i bawb am gymryd sylw o'r apêl arbennig ynglŷn â'r rhifyn hwn. daliwch ati i'r rhifynnau nesaf!!

ROYAL VICTORIA HOTEL

LLANBERIS 870149

★ Bwyd da ★ Cwrw da
★ Cwmni da



DAROGAN YR 'ECO' YN CAEL EI WIREDDU

CAIS GAN LEADING LEISURE AM GWRS GOLFF YN SEIONT MANOR

Datgelodd yr 'Eco' yn rhifyn Medi y llynedd fod bwriad gan gwmni Leading Leisure i ddatblygu tiroedd ffermio ar gyrion Llanrug a chreu cwrs golff. Mae hynny bellach yn ffaith. Mae cais cynllunio wedi ei gyflwyno i Gyngor Arfon i'r perwyl hwnnw. Ynghlwm gyda'r cais, maent yn gofyn am hawl i adeiladu nifer o unedau ychwanegol i'r gwesty.

Daeth y wybodaeth am fwriadau'r cwmni i sylw'r 'Eco' yn rhifyn Awst 1989 o'r cylchgrawn 'Caterer and Hotelkeeper'. Y pryd hynny, dywedodd Cadeirydd Leading Leisure, Barry Melizia '... the future strategy of the hotels division would be to concentrate on properties with golf and tennis facilities, as exemplified by the purchase of the 28-bedroom Seiont Manor Hotel...' Roedd sibrydion ar led fod y cwmni yn ceisio prynu tiroedd rhai o'r ffermydd cyfagos.

Erbyn hyn, mae'r cais cynllunio llawn wedi ei gyflwyno, sy'n cynnwys tir Llwyn y Brain ei hun, a hefyd rhannau o diroedd Erw Hywel, Greuor a Glan Seiont — digon yn ôl pob tebyg i gwrs golff llawn.

Rhaid cadw mewn cof hefyd nad oes penderfyniad wedi ei wneud hyd y gwyddom ar gais Famoustown i ddatblygu tiroedd ffermydd eraill sy'n ffinio â'r datblygiad arfaethedig hwn. Bellach, mae'n debygol mai'r Ysgrifennydd Gwladol newydd fydd yn gwneud y penderfyniad hwnnw. Pe caniateid y ddau ddatblygiad, yna byddai'r cyfan o'r tir rhwng Llanrug a Phontrug ac Afon Seiont yn un chwaraele anferth.

Llafar

URDD Y CANU A'R ADRODD?

Ar dudalennau'r rhifyn hwn o'r 'Eco' rhoir sylw i holl blant ac ieuenctid y fro hon a fu'n llwyddiannus yng nghystadleuthau gwaith cartref Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Dyffryn Nantlle ac Arfon a gynhelir yr wythnos hon. Yn rhifyn nesaf yr 'Eco', diau y rhoddir yr un sylw i holl ieuenctid llwyddiannus y fro a fu'n cystadlu ar lwyfan y Genedlaethol. Ac y mae pob un ohonynt yn llawn haeddu y sylw, y clod a'r llongyfarch am eu gwahanol llwyddiannau. Heb anghofio'r diolch a'r gwerthfawrogiad o lafur cariad gan nifer helaeth o hyfforddwyr — yn rhieni ac athrawon — led-led yr ardal. Yn ddiôs, yr Eisteddfod yw penllanw misoedd o weithgaredd, o ddysgu ac o baratol i'r holl ganghennau mewn gwahanol adrannau ac aelwydydd mewn pentrefi ac ysgolion.

Ond mae i'r Urdd swyddogaeth ehangach nac eisteddfota. Bellach, mae gweithgareddau awyr-agored yn rhan amlwg o'i delwedd, gyda gwerysloedd Llangrannog a Glanllyn yn cynnig amrywiaeth eang o wahanol brofiadau a chwaraeon. Eto'i gyd, nid yw'r gweithgareddau hynny yn cael chwarter cymaint o sylw ac a gaiff ambell 'steddfod cylch — heb sôn am y Genedlaethol. Y mae'n ymddangos hefyd fod ennill mewn eisteddfod yn cael ei gyfrif yn fwy o lwyddiant nac ennill mewn gêm beldroed, gornest nofio neu ras redeg. Ond os yw'r dalent yn wahanol, mae angen yr un ymroddiad a dyfalbarhad i'r ddeubeth — boed hwnnw'n gystadlu eisteddfodol neu'n gystadlu corfforol.

Teg gofyn ar bwy mae'r bai am y gwahaniaeth hwn? Efallai fod rhieni ac arweinyddion gwahanol adrannau ac aelwydydd yn rhoi mwy o bwyslais ar weithgaredd eisteddfodol. Y mae'n ymddangos fod hynny'n wir yn y fro hon, ac y mae'r 'Eco' yn adlewyrchu'r pwyslais hwnnw, oherwydd rhoir cryn sylw ar ei dudalennau i gystadleuwyr eisteddfodol. Tybed ai dyna'r patrwm mewn broydd eraill led-led y Gymru Gymraeg?

Nid beirniadu y sylw a gaiff cystadleuwyr eisteddfodol yr Urdd yw bwriad y sylwadau hyn, ond yn hytrach roi amlygrwydd i'r diffyg sylw a gaiff llwyddiannau eraill aelodau'r Urdd. Ar yr un pryd, mae yma apêl gyffredinol i bawb sy'n ymwneud â gweithgareddau'r Urdd yn y fro i ddod a gwybodaeth berthnasol i olygyddion yr 'Eco' am holl weithgaredd eu hadran neu eu haelwyd, fel bo'r 'Eco' hefyd yn medru adlewyrchu yr amrywiaeth o llwyddiannau o fewn prif fudiad ieuenctid Cymru.

COLLI LOWRI

Trist yw cofnodi marwolaeth Lowri Pritchard yn ei chartref yn Llanrug. Brwydrodd yn ddewr a siriol yn wyneb ymosodiad afiechyd creulon, a bu ei dewrder yn fodd o ddwyn cymdogaeth gyfan yn nes at ei gilydd.

Estynnwn ein cydymdeimlad llwyr af â'r teulu yn eu colled.

Er Cof am Lowri

Mewn gwlad well y cân bellach — wiw foliant

Mae'n filwaith anwylach,

Heb ofid bro afiach,

Marw i fyw wnaeth Lowri fach.

M. Lloyd Williams, Llanrug

Gofid trwm a dagrau hallt

Sydd heddiw yn 'Trigfa', Ponrhythallt;

Ei ber oes ddirwgnach

Ddaeth i ben i Lowri bach.

Hughie Jones, Deiniolen

Dymuna Derek a Delyth, Trigfa, Ffordd yr Orsaf, Llanrug, ddiolch o galon i bawb am y cydymdeimlad a'r caredigrwydd a estynnwyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli merch fach annwyl, Lowri. Diolch am y llu llythyrau a chardiau a dderbyniwyd, ac sy'n rhy niferus i'w cydnabod yn unigol. Diolch yn arbennig i'r Parch Peter Pritchard, y Canon Glyndwr

Williams, a'r Parch Tegid Roberts, am y gwasanaeth a'r geiriau caredig; i'r Organydd, Mr John Morris, ac i Mr M. Pritchard, Llanberis, am drefniadau'r angladd. Diolch hefyd i'r doctoriaid lleol ac i Nyrs Iona.

Derbyniwyd cyfraniadau hael tuag at yr 'Alder Hey Oncology Fund'. Mae £1,425 i law hyd yn hyn.

P*E*N*A*W*D*E



Christine Pitts, Llanrug



Trebor Thomas, Deiniolen

Tri o bobl ifanc y fro a fydd yn ymddangos ar y rhaglen deledu 'Penawde' yn ystod y misoedd nesaf.

DRAENOG



Yn ôl y sôn, cafodd meddyg go lydan ei wasg o Ynys Môn sioc pan ruthrodd dieithryn ato ym Mae Colwyn — oedd angen meddyg ar frys tybed?

Ond na, un o uwch swyddogion Leading Leisure oedd wedi camgymryd y meddyg rhadlon am Brif Swyddog Cynllunio Arfon.

'Piti ein bod ni wedi methu mynd ymlaen efo Glyn Rhonwy', meddai'r dyn dieithr, 'ond peidiwch â phoeni, mae yna gwmni arall am ddechrau cynllun llai yno rŵan.'



Angharad Price, Bethel

Beddargraff Driliwr Olew Driliodd i grombil Dallas Meddianodd ran o'r deyrnas, Ond er gwneud ffortiwn gydag oel, Anhygoel, — dyma'i balas.

RHODDION

£10: Rheilffordd yr Wyddfa, Llanberis.

£5: Teulu Trigfa, Llanrug; Gwilym Roberts, Hedd y Mynydd, 2 Mountain View, Llanrug; Ieuan Jones Parry, Penygroes; Mr a Mrs Hugh Pritchard, Cwm-y-Glo; Mr William Roberts, Hyfrydle, Ffordd Capel Coch, Llanberis; Lowri Davies, Maes Derlwyn, Llanberis.

£3: Teulu'r diweddar Mr William Rowlands, Deiniolen.

£2: G. Davies, 10 Bro Elidir, Dinorwig; Mrs R. Lloyd Jones, Peris View, Llanberis.

£1: Elinor Jones, Heather Bank, Penisarwaun; Rhodd ddi-enw o Ddeiniolen.

BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG

Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri, Drysau, Grisiau neu unrhyw fath o gynnyrch coed. Y coed meddal wedi derbyn triniaeth arbennig i wneud iddynt bara.



STRAEON LLEOL BOB WYTHNOS YN

GOLWG

HOLWCH YN EICH SIOP
BAPUR NEWYDD

Y FRO YN DEFFRO I ANGHENION LLEOL

Gobeithio datblygu Glyn Rhonwy er lles y gymuned SEFYDLU 'ANTUR PADARN'

Erbyn hyn mae ANTUR PADARN wedi ei sefydlu yn ardal Llanberis a'r cylch. mae'r Antur yn cymryd lle CYMDEITHAS PADARN a fu mor frwd yn arwain y frwydr yn erbyn cynlluniau Cwmni Leading Leisure o Southampton i ddatblygu safle Glyn Rhonwy, Llanberis, fel pentref gwyliau anferth. Eisoes mae Pwyllgor Llywio wedi ei sefydlu a hynny o dan gadeiryddiaeth Mr Glyn Tomos.

Swyddogaeth pennaf ANTUR PADARN fydd ceisio ennyn diddordeb y gymuned leol ar gyfer ymateb i'r her y mae Cyngor Dosbarth Arfon wedi ei osod i lawr yn sgil penderfyniad Cwmni Leading Leisure i beidio symud ymlaen gyda'u cynlluniau ar gyfer safle Glyn Rhonwy. Fel y gwyddoch mae Cyngor Dosbarth Arfon wedi cyhoeddi eu bod yn gwahodd unigolion a grwpiau i gynnig syniadau ar gyfer eu hystyried ganddynt ar gyfer datblygu'r safle. Maent yn disgwyl derbyn y syniadau hyn o fewn y 6 mis nesaf.

Eisoes mae ANTUR PADARN wedi cychwyn ymateb i'r her yma gan y Cyngor Dosbarth lleol, a hynny trwy anfon llythyr at Mr Alun Daniel, Cyfarwyddwr gweithredol gyda Awdurdod Datblygu Cymru yn eu swyddfa yng Nghaerdydd. Gofyn mae ANTUR PADARN ar i'r Awdurdod Datblygu ddynodi pentrefi Padarn ar eu rhestr o gymunedau sydd yn dod o dan eu Cynllun Menter Wledig. Nid oedd pentrefi Padarn ar restr wreiddiol yr Awdurdod a gyhoeddwyd dri mis yn ôl, ond er hynny mae ANTUR PADARN yn gobeithio perswadio yr Awdurdod i ail feddwl ynglyn a'r mater yma. Byddai dynodi Pentrefi Padarn ar y rhestr eleni yn caniatáu i Swyddog Macs gael ei benodi, ac yn ôl Antur Padarn byddai sicrhau gwasanaeth swyddog o'r fath yn gaffaeliad mawr yn arbennig er mwyn cynorthwyo'r gymuned i ymateb yn obeithiol i'r her y mae Cyngor Dosbarth Arfon wedi ei osod i lawr mewn perthynas a safle Glyn Rhonwy.

Hefyd yn yr un llythyr mae ANTUR PADARN wedi gofyn i Awdurdod Datblygu Cymru ddwyn perswad ar Gyngor Dosbarth Arfon i estyn y cyfnod y maent yn barod i dderbyn

cynigion ynglyn a datblygu safle PADARN nid yw 6 mis o amser yn rhoi digon o gyfle i'r gymuned leol ymateb i her y Cyngor Dosbarth. Hefyd mae ANTUR PADARN wedi ysgrifennu at Mr Dafydd Hughes, Prif Swyddog Cynllunio, Cyngor Dosbarth



Arfon i estyn y cyfnod o 6 mis i flwyddyn. Ar ben hyn mae ANTUR PADARN wedi gofyn am gefnogaeth Mr Dafydd Wigley, yr Aelod Seneddol lleol ynglyn â'r mater yma.

Os dymunwch wybodaeth pellach ynglyn a'r uchod, gellir

cysylltu â Glyn Tomos drwy ffonio Pwllheli 701199 (oriau gwaith) neu Llanberis 870576 ar ôl 6.00.

CYNGOR LLEOL YN GALW AM SEFYDLU MENTER WLEDIG YN Y FRO CYFARFOD CYHOEDDUS YN LLANRUG

Mae Cyngor Cymuned Llanrug wedi trefnu cyfarfod cyhoeddus yn Llanrug ar nos Iau, 7 Mehefin, i roi cyfle i bobl bro'r 'Eco' wyntyllu a thrafod syniadau ynglyn â'r posibilrwydd o sefydlu Menter Wledig yn yr ardal. Yn annerch ar y noson bydd Alun Daniel o'r Awdurdod datblygu Cymru.

Eisoes mae gwahoddiadau swyddogol wedi eu hanfon i holl gynghorwyr bro cymunedau Llanberis, Llanddeiniolen, Llanrug a'r Waunfawr, ond pwysleisir mai cyfarfod cyhoeddus fydd hwn, gyda hawl i unrhyw un â diddordeb ymarferol yn nyfodol y fro i fod yn bresennol i ddatgan barn. Ond yn fwy pwysig, y gobaith yw y bydd unigolion, grwpiau neu gymdeithasau yn mynychu'r cyfarfod i gynnig syniadau.

Mae Mentrau Gwledig eisoes ar y gweill mewn dyffrynnoedd cyfagos, gyda sefydlu Antur Nantlle ac Antur Ogwen. Y

maent yn barod yn derbyn cymorth a chynghor gwerthfawr gan Awdurdod Datblygu Cymru.

Gobaith aelodau Cyngor Cymuned Llanrug yw y gellir ennyn digon o frwdfrydedd yn ardal yr 'Eco' i sefydlu Menter Wledig yn Nyffryn Peris. Annogir pawb sydd â diddordeb yn nyfodol y fro i fod yn bresennol yn Neuadd Ysgol Gynradd Llanrug am 7.00 nos Iau, 7 Mehefin. Os am fwy o wybodaeth, cysyllter â Chlerc y cyngor, G. Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (Ffôn, C'fon 4669).

DRAENOG



Annwyd trwm? Beth yw'r feddygiaeth? Dipyn o ffigis? Wel, ie, dipyn go lew! OND, cofiwch ddewis y ffigis hwnnw'n ofalus. Nid fel un o drigolion Llanrug a ddewisodd naw dôs o Syrup o' Figs!

Druan o'r annwyd, toiled Nant y Glyn a Chanolfan yr Heddlu, Maesincla!

KEN FIGEN

'Bu farw Ken, ar ôl cystudd blin'
'Ken? aros funud, Ken pwy?'
'Rwyd ti'n nabod o'n iawn, Ken Figen siŵr
Roedd o'n diodde ers tro hefo'r clwy.'

'Rhen elyn debyg a'i cipiodd o?' — 'Na
Bu farw o wenwyn 'nol thai,
Diwedd go drist, trychinebus yn wir
Hunanladdiad mwy neu lai.'

Selwyn Griffith

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff

Joelas

CARTREF YR HENOED

Cartref Gofrestredig ag iddo awyrgylch Gymreig
Cysylltwch â

Mrs Meirwen Thomas neu Mrs Eli Thomas

Ffordd yr Orsaf, Lanrug,

Caernarfon (0286)4652

Yr hen ffyddloniaid yn parhau, ond . . . YR 'ECO' I GAEL GWISG NEWYDD

Er mai dim ond wyth un unig a ddangosodd ddigon o ddiddordeb yng ngweithgareddau'r 'Eco' i fynychu'r Cyfarfod Blynyddol, penderfynwyd fod y swyddogion i gyd i barhau â'r gwaith. Yn ogystal, bydd Cyfarfod Arbennig yn cael ei gynnal ym mis Gorffennaf i fabwysiadu cyfansoddiad i'r papur. Ac o fis Medi ymlaen, y gobaith yw y bydd newid gwedd i'r papur ac ail-wampio cryn dipyn ar y fformat presennol. Gobeithir y bydd hyn yn gwneud y papur yn fwy atyniadol i'r llygad, yn denu darllenwyr newydd ond yn parhau i blesio'r ffyddloniaid.

Dyna yn fras oedd brydwn y trafodaethau a gynhaliwyd yn y Sefydliad Coffa, Llanrug, ar nos Iau, Mai 3. Yn bresennol roedd: Nant Roberts, Dyfi Jones, Ann Evans, Selwyn Griffith, Goronwy Hughes, Gwyndaf Hughes, Twrog Jones a Dafydd Whiteside Thomas.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Nan Humphreys, Enid Thomas, Dafydd Evans ac Emyr Gruffudd.

Penderfynwyd cysylltu â phapurau bro eraill sydd â chyfansoddiad iddynt, ac i Twrog Jones a Dafydd Whiteside Thomas ddratffio cyfansoddiad addas i'r 'Eco' erbyn y Cyfarfod Arbennig ym mis Gorffennaf. Bydd mwy o wybodaeth am hwn yn y rhifyn nesaf.

Pwnc a gafodd gryn sylw oedd diffyg Trefnydd Plygu — swydd allweddol ar hyn o bryd, gan fod nosweithiau plygu'r papur yn faich trwm ar nifer fechan o swyddogion a chyfeillion. Yn Llanrug ddeufis yn ôl, dim ond rhai o swyddogion y papur a'u teuluoedd oedd yn bresennol i'r plygu. Yn Llanberis y mis diwethaf — er gwneud apêl ar y radio — dim ond chwech yn unig oedd yn bresennol i blygu 2,500 o gopiau — ac UN yn unig o'r rheini oedd o bentref Llanberis. Rhagwelir y daw noson ble na fydd neb yn bresennol i blygu — a beth a ddigwydd i'r papur wedyn? Penderfynwyd gwneud ymholiadau â nifer o unigolion i geisio llenwi'r swydd bwysig hon.

I'r rhai sy'n benthyca'r camera, bydd trefn fymryn yn wahanol o hyn ymlaen. Gan fod cynifer o luniau yn cyrraedd y golygyddion heb wybodaeth o

unrhyw fath yn perthyn iddynt, penderfynwyd fod y rhai sy'n benthyca'r camera yn llenwi taflen wybodaeth — e.e. **ble** mae'r llun, **beth** yw'r achlysur, **pwyl** sydd yn y llun.

Derbyniwyd y daflen ariannol am y flwyddyn 1989-90, ac fe'i cyhoeddir isod. Gwnaeth Goronwy Hughes apêl daer ar i bawb sy'n casglu arian am yr 'Eco' anfon taliadau i law ar amser.

Adroddwyd fod tri o swyddogion yr 'Eco' wedi

mynychu Cynhadledd y Papurau Bro yn Aberystwyth, a bod yr 'Eco' yn gefnogol i'r syniad o sefydlu Cymdeithas Papurau Bro Cymraeg. Bydd cyfarfod pellach yn cael ei gynnal fis Medi, a chyhoeddir mwy o wybodaeth yn rhifyn Hydref.

Rhodddwyd sylw i drefniadaeth fewnol y papur, ac y mae Goronwy Hughes a Gwyndaf Hughes yn gwneud ymholiadau ynglŷn â gwahanol ddulliau cyfrifiadurol o baratoi deunydd ar gyfer y wasg.

Trafodwyd hefyd y syniad o newid 'steil' y papur, gan ddefnyddio pump colofn yn hytrach na phedair. Gobeithir arbrofi gyda'r dull hwn ar y dudalen flaen a chefn yn unig ar y cychwyn. Syniad arall oedd gosod yr erthyglau, y storïau a'r digwyddiadau ar dudalennau

cyntaf y papur, a symud y newyddion y pentrefi i hanner cefn yr 'Eco'. Trafodwyd mân newidiadau eraill hefyd.

Mae'n bosibl mai newid graddol fydd hwn ar y cychwyn, ond y gobaith yw cael fformat hollol newydd erbyn rhifynnau'r gaeaf.

GŴYL IEITHOEDD BYCHAIN EWROP

Dewch i gwrdd â'r teulu!

Mae yna deulu o ieithoedd bychain yn Ewrop — 31 ohonynt tu mewn i'r Gymuned Ewropeidd yn unig. Mae'r niferoedd sy'n eu siarad yn amrywio o'r ychydig filoedd i filiynau, a rhyngddynt mae dros 40 miliwn yn eu siarad.

Beth yw Ewrosgol?

Gŵyl yr ieithoedd bychain yw Ewrosgol; ac mae'n arwyddocaol mai gŵyl i blant a phobl ifanc ydyw. Gyda dyfodol cynifer o'r ieithoedd yma dan fygythiad mae Ewrosgol yn gyfle i ddathlu, i fwynhau, i rannu profiadau ac i hyrwyddo'r ieithoedd bychain.

Pwy sy'n dod i Gymru?

Rhwng 3-7 Ebrill 1991 bydd grwpiau o blant ac oedolion yn cynrychioli pymtheg o'r ieithoedd yn dod yma. Ymunwch yn y cystadlu, y teithio, y sgwrsio a'r adloniant.

Beth fydd yn digwydd?

Cynhelir gweithgareddau ar y cyd rhwng plant o'r cymunedau tramor a phlant o gymru. Canolir y gweithgareddau yn Nwyfor, Gwynedd, ond mae cyfle i nifer cyfyngedig o blant o bob sir yng Nghymru fynychu'r Wyl sy'n cynnwys chwaraeon, teithiau, cyngordd a dawnys gyda lluniaeth a llety yn rhad ac am ddim.

Bydd yna raglen o ddarlithoedd a seminarau hefyd ar gyfer oedolion ar bynciau hanfodol bwysig i ddatblygiad Cymreictod gan siaradwyr blaenllaw yn y maes.

Manylion pellach ar gael ar Stondin Nant Gwrtheyrn yn Eisteddfod yr Urdd, Dyffryn Nantlle ac Arfon ac Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni, neu oddi wrth: Gareth James, Gweinyddwr Ewrosgol, Nant Gwrtheyrn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6PA. (Tel: 075885 334).

CYFRIFON 'ECO'R WYDDFA' 1989-1990

1988/89 £	DERBYNIADAU	1989/90 £
4372.12	Gwerthiant	4159.68
5122.00	Hysbysebion	6492.75
461.14	Rhodddion	457.49
861.95	Grantiau—Cymdeithas Gelfyddydau	887.45
	Grantiau—Cynghorau Cymuned:	
5.00	Betws Garmon	—
25.00	Llanberis	25.00
100.00	Llanddeiniolen	100.00
250.00	Llanrug	250.00
50.00	Waunfawr	60.00
		435.00
136.78	Llog	200.96
—	Incwm arall	175.00
£11383.99		£12808.33
	TALIADAU	
11019.46	Argraffu	12521.74
207.55	Ffotograffiaeth	151.99
191.68	Stampiau	215.36
19.50	Cystadleuaeth Pêl-droed	—
—	Costau eraill	15.52
£11438.19		12904.61
54.20	Gwariant yn fwy nag incwm (Colled)	96.28
4699.12	Cronfa'r Eco — 1af Ebrill	4644.92
54.20	Colled am y flwyddyn	96.28
£4644.92		£4548.64

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491



PEIDIWCH A GORI AR STORI!
RHOWCH HI I'CH
GOHEBYDD LLEOL



STRAEON LLEOL BOB WYTHNOS YN

GOLWG

HOLWCH YN EICH SIOP
BAPUR NEWYDD

SUMPTOMAU'R FRECH DDU 'PWY SY'N 'NABOD PWY?'

Er na fu dim gwellhad o'r pla a elwir yn Frech Ddu yn ystod y mis diwethaf, o leiaf mae rhai o sumptomau'r afiechyd heintus hwn bellach yn wybyddus.

Mympwy personol ambell i gynghorydd yw un o'r symptomau rheini, ond prif nodwedd yr haint hon yw adnabyddiaeth yr ymgeisydd o'i gynghorydd lleol. Mae'r ffaith fod cynghorydd yn adnabod ymgeisydd sydd am dorri rheolau cynllunio, yn golygu y gallai'r Frech Ddu ledaenu'n weddol gyflym. Roedd hyn yn amlwg ym Mhwylgor Cynllunio diwethaf Cyngor Arfon ar ddechrau mis Mai.

Yng nghyfarfod mis Ebrill o'r Pwyllgor Cynllunio, roedd pedwar cais o fro'r 'Eco' am godi tŷ annedd yn groes i'r polisiau, yn cael eu hystyried — pob un ohonynt yng nghymuned Llanddeiniolen. Gwrthodwyd un cais, caniatwyd un arall, a throsglwyddwyd y ddau oedd yn weddill i'w cysidro gan Is-Bwyllgor Rheoli Datblygu y Cyngor. Bu'r Is-Bwyllgor yn ymweld â'r ddau safle — tir ym Mhen y Golwg, Deiniolen, a thir ger Pant Hywel, Penisarwaun.

Aelodau'r Is-Bwyllgor oedd y Cynghorwyr O. R. Jones (Cadeirydd), Francis Jones (Llanberis), Mrs Pat Larsen (Penisarwaun), Mrs June Marshall, Glyn Owen, Henry Owen a Meurig Williams. Mae'r Cynghorydd Sam Jones (Bethel) yn aelod o'r Is-Bwyllgor hefyd, ond nid oedd yn bresennol ar y ddau ymweliad.

Adroddwyd wrth yr aelodau fod y ddau gais yn groes i bolisiau Cynllun Lleol Arfon Wledig (rhestrwyd y rhesymau dros wrthod rhoi caniatad cynllunio i'r ddau gais yn rhifyn diwethaf yr 'Eco'). Penderfyniad yr Is-Bwyllgor oedd argymhell gwrthod y ddau gais, a throsglwyddwyd y wybodaeth honno i'r Pwyllgor Cynllunio ar ddechrau Mai.

Cyn dod i benderfyniad ar y ddau gais arbennig hwn, cafwyd trafodaeth ar amryw faterion eraill, ac yn ystod y dadleuon, gwnaeth y Cynghorydd Henry Owen (Bontnewydd) ddatganiad pwysig iawn. Dywedodd nad yw amgylchiadau personol unrhyw ymgeisydd yn sail i ganiatau cais cynllunio.

Croesawyd y datganiad gan Dafydd Hughes, y Prif Swyddog Cynllunio, a gofynnodd y Prif Weithredwr (yn hanner cellweirus, hanner difrifol) ar i'r datganiad gael ei gofnodi. Yr oedd cefnogaeth gyffredinol i'r hyn a ddywedwyd.

Ac yna, ar sail amgylchiadau personol yr ymgeisydd, dadleuodd y Cynghorydd Sam Jones, Bethel o blaid rhoi caniatad cynllunio ym Mhen Golwg, Deiniolen.

Yn yr un modd, gan ddefnyddio amgylchiadau

personol yr ymgeisydd, dadleuodd y Cynghorydd Pat Larsen, Penisarwaun o blaid codi tŷ annedd ger Pant Hywel, Penisarwaun. Dadleuodd hefyd mai 'datblygaid gwasgareddig yw un pentref Cymraeg'. Ond prif sail ei dadl oedd fod yr ymgeisydd yn cyfrannu'n helaeth i fywyd cymdeithasol y pentref, ac y dylid caniatáu'r cais.

Mewn pleidlais ar y ddau gais, penderfynodd y Pwyllgor Cynllunio i roi caniatad — a hynny'n groes i argymhellion eu swyddogion, yn groes i argymhellion yr Is-bwyllgor Rheoli Datblygu, ac yn groes i'w polisiau eu hunain.

Yr oedd yn amlwg fod y Prif Swyddog Cynllunio wedi ei gythruddo, ac yn unol a'i hawliau 'tynnodd i mewn' y ddau gais. mae hyn yn golygu nad yw'r Prif Swyddog yn derbyn

penderfyniad y Pwyllgor Cynllunio, a'i fod yn trosglwyddo'r ddau gais i'w hystyried gan holl aelodau'r Cyngor yng nghyfarfod llawn nesaf Cyngor Arfon fis Gorffennaf.

Erbyn hynny, mae'n debyg y bydd sylw wedi ei roi i adroddiad yr Ombwdsman am weithrediadau aelodau Pwyllgor Cynllunio Ynys Môn, sydd yr un mor euog o dorri polisiau. Ar y llaw arall, efallai mai mater syml o 'bwy sy'n 'nabod pwy pwy?' fydd yn setlo'r ddau gais yn hytrach na dadleuon cynllunio.

GALW CERDDORION

Cystadleuaeth Cyfansoddi Tŷn

Mae Henaduriaeth Arfon yn cynnal cystadleuaeth cyfansoddi tŷn ar gyfer emyn gan R. Gwilym Hughes.

Rhoddir digon o amser i gerddorion profiadol neu rai sy'n cynnig am y tro cyntaf, i lunio cerddoriaeth addas i'r geiriau isod.

Ewch ati yn ystod misoedd yr haf, oherwydd nid oes angen i'r cyfansoddiadau fod yn llaw'r ysgrifennydd hyd Fedi 14eg.

Yr emyn yw 'Ar Fin y Ffordd y Jerico', a chyhoeddir y geiriau isod. Os am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Mrs Megan Williams, 'Bron Eryri', Ffordd yr Orsaf, Llanrug.

AR FIN Y Ffordd I JERICO

Nid oes i ni ddihangfa,

O! Grist, rhag d'eiriau gynt
Am ŵr yng ngafael lladron
A'i clwyfodd ar ei hynt,
A rhai'n osgoi ei weled o
Ar fin y ffordd i Jerico.

Fe erys ar ein daear

Y lladron mewn eu llid,
A'r teithwyr sy'n mynd heibio
Yr ochor draw'n ddi-hid,
Heb weld y truan, trist y tro,
Ar fin y ffordd i Jerico.

O'th gofio, rho in weled

Y sawl sy dan ei friw,
A'i gludo ar ein hanifail
Ar frys i lety gwiw,
Fel y Samariad dwys un tro
Ar fin y ffordd i Jerico.

CYMANFA GERDD DANT GYNTAF CYMRU

Mae cynlluniau cyffrous ar y gweill i gynnal Cymanfa Gerdd Dant gyntaf Cymru fel rhan o weithgareddau Gŵyl Gyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Bro Delyn ym mis Gorffennaf.

Bwriedir cynnal y Gymanfa yng Nghapel Bethesda, Yr Wyddgrug.

Arweinydd y gymanfa fydd Aled Lloyd Davies, Cadeirydd Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfod, sy'n wyneb a llais cyfarwydd i ddilynwyr Cerdd Dant yng Nghymru. Bydd pedair telyn yn cyfeilio.

Eisoes mae Pwyllgor Cerdd Dant yr Eisteddfod wrthi'n brysur yn paratoi detholiad ar gyfer y Gymanfa, a fydd yn cynnwys gosodiadau unllais a deulais syml mewn hen-nodiant a sol-ffa.

Penderfynwyd dewis cerddi sy'n adnabyddus i bawb, er mwyn i'r gynulleidfa i fedru canolbwyntio ar y gerddoriaeth heb boeni'n ormodol am y geiriau.

Bwriedir cyhoeddi'r detholiad rai wythnosau cyn y Gymanfa, fel y gall y rhai sy'n dewis gael

cipolwg ar y gosodiadau o flaen llaw.

Procio cof am hen grefft

'Mwynhad ydy'r nôd', yn ôl Aled Lloyd Davies. 'Rydym yn feuriadol wedi dewis gosodiadau syml a geiriau cyfarwydd fel y gall pawb feynhau'r gymanfa hyd yn oed os nad ydyn nhw wedi canu cerdd dant erioed o'r blaen. Cred rhai fod canu cerdd dant yn grefft sydd ar gof a chadw'r Cymry fel cenedl, yn rhan o'n hetifeddiaeth ddiwylliannol — ac mai dim ond procio ychydig ar y cof hwnnw sydd angen.'

Cynhelir y Gymanfa Nos Fercher, 11 Gorffennaf 1990, yng Nghapel Bethesda, Yr Wyddgrug, am 7.30 o'r gloch yr hwyr.

Am ragor o wybodaeth cysyllter â Swyddfa'r Eisteddfod, Yr Wyddgrug, Ffôn (0352) 700344.

CRONFA GOFFA R. H. OWEN

Gwahoddir ceisiadau am grant o'r gronfa uchod.

Anfoner am y manylion a'r ffurflenni cais at: **Aled Owen**
13 Charlotte Street, Llanberis

DYDDIAD CAU: AWST 31AIN

Beth am
ddysgu
dreifio gydag
YSGOL YRRU
BETHEL

Cysylltwch â Dic ac Eirlys
42 Bro Rhos, Bethel
PORTDINORWIG 671009

TACSI CARIAN

- * Pell ac agos
- * Stesion, Maes Awyr, Porthladd
- * 24 awr y dydd

LLANBERIS

Gohebwy: Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn 870491

LLONGYFARCHIADAU: Dymuniadau gorau i Delyth, Rallt Goch, ar achlysur ei phenblwydd yn 18 oed ar Fehefin 7.

Llongyfarchiadau hefyd i Melanie Sellars am gael ei graddio yn 'is-gorporal'.

Hefyd i Owain Griffiths, Nant Peris, ar dy lwyddiant o ennill Medal Arian a Medal Efydd ym Mabolgampau Colegau Cymru yng Nghaerdydd.

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Meira Evans, merch Mrs H. Jones a'r diweddar O. E. Jones, 14 Stryd Turner, ar ennill y gadair yn Eisteddfod Bro Ogwr, Canol Morgannwg.

LLONGYFARCHIADAU i ti Darren Owen, 15 Dôl Elidir, Llanberis, sydd yn 7 oed, Mehefin 5, oddi wrth Mam, Nain, Taid, Andrew, Nerys, Peter, Llinos, Nain, Chris, Anne a'r plant, a dy ffrindiau i gyd.

XXXXX ac mwy o swsus mawr oddi wrth MAM. Penblwydd hapus, Darren.

DYMUNIADAU gorau a phob bendith i catrin, Plas Tirion ar ei phenblwydd yn 21 oed ar Fai 26 1990.

Balch oeddym o glywed am lwyddiant tîm Gymnasteg Ysgol Gynradd Mountain Lane, Bwcle, Clwyd. daeth y tîm, o dan hyfforddiant eu prifathro, Hefin Parry (Plas Tirion) yn drydydd y llynedd ym Mhencampwriaeth Prydain Fawr i ysgolion, ond eleni, hwy oedd ar y brig!

Llongyfarchiadau, a da iawn Hefin. Daliwch ati!

DIOLCH: Dymuna Pwyllgor Cangen yr Urdd, Llanberis, ddiolch yn gynnes iawn i garedigion yr ardal am eu rhoddion ariannol i'r gronfa, — trwy law Mr Gwynfor Roberts a Mrs Eunice Owen; i'r rhai â gyfrannodd tuag at y Bingo yn ddiweddar, ac hefyd i'r rhai sy'n barod i roi llety i blant Cymru sydd yma dros yr Wyl. Diolch yn fawr i bawb.

DIOLCH: Dymuna Mrs R. Lloyd Jones, Peris View, ddiolch i bawb, sef perthnasau, ffrindiau a chymdogion, am yr anrhegion a'r blodau a gafodd ar achlysur ei phenblwydd yn 75 oed.

DIOLCH: Dymuna Evan a Vivienne Thomas ddiolch am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Arian.

DIOLCH: Dymuna Mr William Roberts, Hyfrydle, Ffordd Capel Coch, Llanberis, ddiolch o galon i'w berthnasau, cymdogion a chyfeillion am eu caredigrwydd yn yr ysbyty. Diolch hefyd am yr anrhegion, cardiau a galwadau ffôn yn ystod ei waeledd. Diolch yn arbennig i'r meddygon teulu, y gwŷr Ambiwylans, staff gofal arbennig a Ward Glyder, Ysbyty Gwynedd. Diolch o galon i bawb.

DIOLCH: Dymuna Anwen a Maldwyn ddiolch o galon i bawb, sef ffrindiau, perthnasau a chymdogion, tra roedd Dion a Sonia yn Ysbyty Gwynedd.

DIOLCH: Dymuna Lowri Davies, Maes Derlwyn, ddiolch o galon i bawb am y cardiau, anrhegion, blodau a'r llu ffrindiau fu'n ymweld â hi tra yn Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Walton. Hefyd diolch i'r meddygon, gweinyddesau a'r teulu oll am eu caredigrwydd.

DIOLCH: Ar ran Parti Lleisiau Lliwedd, dymuna Mrs Mattie Hughes (Arweinydd) ddiolch o galon i drigolion Llanberis am eu caredigrwydd parthed yr ymdrech i godi arian tuag at Drychineb Tywyn. Casglwyd y swm anrhydeddus o £635.47c.

CLWB 100 YSGOL DOLBADARN: Enillwyr Clwb Cant mis Mai yw — £25: Geraint Jones (98); £15: Mairwen Bayliss (33); £10: William Foulkes (27).

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y ganolfan ar Ebrill 26 dan arweiniad Mrs Hannah Jones. Darllenwyd y cofnodion a'u harwyddo a darllenwyd y llythyr misol.

Rhoddwyd croeso yn ôl i Mrs Betty Humphreys a oedd wedi bod ar ei gwyliau yn Washington, U.D.A. Dymunwyd gwellhad buan i Mrs Dorothy Thomas ar ôl ei hymweliad â'r ysbyty.

Cafwyd trafodaeth ar y materion gerbron y Cyfarfod Blyneddol yn neuadd Albert, Llundain ym mis Mehefin, a phenderfynwyd ar sut roedd ein cynrychiolydd i bleidleisio ar ran y Sefydliad. Aelod o'r 'Link Institute', Brynrefail, fydd yn mynd i Lundain ar ein rhan.

Cafwyd arwerthiant Moes a Phryn gyda'r elw yn mynd i'r sefydliad. I ddiweddu'r noson cafwyd cwis wedi ei drefnu gan y

Llywydd. Y gwestwagedd oedd Mrs Hannah Jones a Mrs Arvon Evans. Diolchwyd iddynt gan Mrs Katie Williams a Mrs E. M. Jones. **YSGOL FEITHRIN:** Ar nos Wener, Mai 18, cynhaliwyd bingo yng

ngwesty Dolbadarn. gwnaed elw o £375. Carai Catherine a Jan ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd tuag at y noson. Diolch yn arbennig i Wil a Carys am drefnu'r noson.

CLWB FFERMWYR IFANC

Ar Ebrill 10, cynhaliwyd noson goffi yn Neuadd Bethel. Diolch yn fawr i'r bobl a ddaeth i'n cefnogi, er ein bod wedi cael ein siomi ar y nifer a ddaeth. Er hynny, mae'r clwb yn falch o gael dweud ein bod wedi casglu ychydig dros £60.

Yr wythnos ganlynol cafodd y clwb ei siomi unwaith eto. Roeddem i fod i gael mynd o amgylch Piggery Pottery yn Llanberis, ond roedd camddeallt-wriaeth wedi bod rhyngom. felly aeth y clwb yn ôl i Fethel a phenderfynwyd pwy oedd yn cymeryd rhan ym mha gystadleuaeth yn y Rali.

Ar y dydd Sadwrn canlynol, sef Ebrill 21, roedd Ffermwyr Ieuainc Prydain yn cael diwrnod o lanhau ardal, fel rhan o'r fenter 'Spring Clean 90'. Penderfynodd clwb Caernarfon dacluso o amgylch Neuadd y Pentref a pheintio y tu mewn iddi, fel mae darllenwyr cyson Eco'r Wyddfa yn gwybod yn barod. Bu'r diwrnod yn un llwyddiannus iawn.

Ar ddydd Mawrth, Ebrill 24, gwestai'r clwb oedd Glyn Roberts o adran Hybu Iechyd, Awdurdod Iechyd Gwynedd. Cawsom sgwrs ddiddorol ganddo ar bwnc difrifol iawn heddiw, sef diod feddwol.

Ar fai 2 bu pedwar o'r clwb yn



barnu gwartheg godro. Y pedwar oedd: Dan 26: Eurwyn Jones; dan 21: Helen Jane Jones; dan 18: Nia Lyn Jones; dan 16: Arwel Rhys Jones.

Daeth Nia yn ail yn ei hadran hi.

Y dydd Sadwrn canlynol, Mai 5, cynhaliwyd diwrnod chwaraeon i'r sir yng Nghaernarfon. Cymrodd y clwb ran yn y rhan fwyaf o'r gweithgareddau oedd wedi eu trefnu. Roedd rhain yn cynnwys pel-rwyd a hoci i'r genethod, rygbi a pheldroed i'r bechgyn a hefyd rownderi cymysg.

Ar Fai 9 bu Eurwyn Jones, Alwyn Jones, Aled Jones a Rhys Morgan yn cynrychioli'r clwb mewn cystadleuaeth barnu defaid. Roedd Alwyn ac Aled yn falch o gael dweud eu bod wedi cael ail. Llongyfarchiadau iddynt.

Nia Jones

SIOP
Nwyddau Gardd
Cynnyrch Cartref
Crefftwaith



CANOLFAN
GARDDIO
Blodau, Grug
Alpau, Perthi

ANTUR WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 721

Cynnal a Chadw Gerddi
Cynnal a Chadw
Plannu Coed

Meinciau Concridd a Phren
Planters Concridd a Phren
Corachod

FIDEO
FIDEO
FIDEO

Gwasanaeth Fideo
Proffesiynol

JOHN BLIGHT
LLANBERIS

872209

Priodasau a phob
achlysur arbennig arall
Hefyd Ffilmiau Hyfforddi
a Gwasanaeth newid
CINE I FIDEO

Gwaith Adeiladu? Gwaith Grant ac Insiwrans?
Dewch at

R. A. OWEN

9 TAI GLANDWR, CLWT Y BONT

DEINIOLEN

Ffôn 870693 (dydd) 870069 (min nos)

Trwsio Toi, Teilsio Waliau a Lloriau, Concritio Llwybrau,
Plastro, Gosod Llechi, Paentio ac Addurno, Waliau,
Byrddau Plaster, Trwsio Simneiau, Gwaith Plymio.

GLASLYN
ANTIQUES

STRYD FAWR, LLANBERIS

PRYNIR A
GWERTHIR

Hen Bethau, Darluniau
a Dodrefn y gorffennol

FFÔN:

LLANBERIS

870080

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt (Caernarfon 76733)

MARW: Fis Ebrill, Yn Ysbyty'r Bwth, Caernarfon, bu farw Mrs K. Roberts, gweddw Mr G. T. Roberts, Erw Gain, yn 97 oed.

Roedd Mrs Roberts yn un o ddarllenwyr cyson Eco'r Wyddfa. Cydymdeimlir â'i hunig ferch, Enid, a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

DIOLCH: Dymuna Gwilym Roberts, Heddy Mygydd, 2 Mountain View, ddiolch yn fawr i'w berthnasau, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod gartref.

Diolch hefyd i'r meddygon a'r nyrsus, Ward Ogwen, am eu gofal.

Teyrnged i Mrs Katie Roberts, Erw Gain: Colled fawr i fyd ac eglwys yn ardal Llanrug oedd marw y ddiweddar Mrs Katie Roberts, gan ei bod yn uchel iawn ei pharch gan bawb a gafodd y fraint o'i hadnabod, ar gyfrif ei chymeriad cadarn a'i chyfraniad cyfoethog i fywyd yr ardal am flynyddoedd lawer.

Gwraig dawel, siriol a charedig ydoedd. Wrth feddwl amdani cysylltw'n hi â thri chylch — yr Ysgol, y Capel, a'i chartref.

Fel llawer a fagwyd yn ardal y chwareli dewisodd alwedigaeth athrawes, yn alwedigaeth ei bywyd. Ymbriododd â Mr G. T. Roberts o'r un ardal. Dewisodd eu hunig ferch hithau alwedigaeth ei rhieni. Yr oedd Mrs Roberts yn athrawes wrth natur a bu'n gyfrwng i ddysgu cenhedlaethau o blant.

Bu'n ffyddlon i Gapel Mawr Llanrug tra yr oedd ei hiechyd yn caniatáu, yn ffyddlon i'r oedfaon ar y Sul ac i'r moddion ar ganol yr wythnos.

Ei chartref — yr oedd gan ei chartref le amlwg iawn yn ei bywyd. Yr oedd yn briod ffyddlon a mam dda a gofalus.

Bu ei merch Enid a'i phriod Evan yn ofalus iawn ohoni pan gollodd ei phriod. Gofalent amdani ar hyd y blynyddoedd gan alw i'w gweld yn Erw Gain yn ddyddiol a gofalu fod popeth yn gyfleus ac wrth law iddi.

Cydymdeimlir yn ddwys iawn â hwy yn eu hiraeth. Bydded i eiriau'r Emynydd fod yn gysur a nerth iddynt.

'Cariad Duw fydd eto'n arwain Cariad mwy na chariad Mam'

W.O.R.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen yn Ffestri Capel

Mawr ar Ebrill 10 o dan lywyddiaeth Mrs Ann Ifans.

Agorwyd y cyfarfod gyda thristwch o golli un o aelodau ffyddlonaf y gangen ym marwolaeth sydyn Mrs Katie Pritchard, Tai Tan Coed. Cydymdeimlwyd yn fawr â'i chwaer, Miss Megan Humphreys a'r teulu yn eu profedigaeth.

Y gŵr gwadd oedd Mr Twm Elias o Blas Tan y Bwlch a ddangosodd sleidiau ynghyd â rhoi sgwrs ddiddorol ac addysgiadol ar 'Lysiau lachusol'. Diolchwyd iddo gan Mrs Jennie Williams.

Paratowyd paned gan Mrs Margaret Jones a Mrs Olwen Huws a diolchwyd iddynt gan Miss Mary Roberts. Diolchodd y llywydd am gael defnyddio Ffestri'r Capel.

Enillydd y raffl oedd Mrs Alwena Williams.

Llongyfarchwyd plant y pentref ar eu llwyddaint yn Eisteddfodau'r Urdd yn ddiweddar.

EISTEDDFOD LLANRUG: Oherwydd yr ymateb siomedig i'r cystadleuthau llên dros y blynyddoedd diwethaf,

penderfynodd Pwyllgor yr Eisteddfod newid rhywfaint ar natur y cystadleuthau. Eleni, felly, gwahoddir pawb o Safon Un i Blwyddyn 5 a 6 sy'n awyddus i gymryd rhan yn y cystadleuthau rhyddiaith a barddoniaeth i'r Ysgol Gynradd ar un noson (heb ei phenodi eto) yn ystod wythnos 23-28 Medi, rhwng 5 a 9 o'r gloch i gael y testunau ac i aros yno i gyfansoddi. Byddwch angen papur a phin sgwennu. Wrth gwrs, arbraff yw hwn, ond gobeithiwn y bydd yn fodd i ddenu mwy o gystadleuwyr yn yr Adran Llên.

NOSON GOFFI: Cynhelir Noson Goffi yn Hafan Elan, nos Fercher, Mehefin 6 am 7 o'r gloch, yr elw tuag at Menter Fachwen.

PLAID CYMRU: Cynhaliwyd Ffair Wanwyn Plaid Cymru yn yr Ysgol Gynradd, Llanrug ar Ebrill 25 am 7 o'r gloch. Daeth nifer dda ynghyd a chafwyd noson bleserus a hwyliog.

Agorwyd y ffair gan Mrs Thomas, berwyn, a chyflwynwyd basged o flodau iddi gan Siân Green.

Enillwyr y raffl oedd: Hamper o ffrwythau — Dorothy, Nant y Glyn; Cyw lâr — Mrs Parry, 3 Bryn Coch; Siocledi — Kelly Roberts, Tan y

Coed; Potel o Win — Helen Lewis, Ffordd yr Orsaf.

Diolch i'r holl aelodau a chyfeillion a fu'n cynorthwyo i wneud y noson yn un llwyddiannus. Diolch arbennig hefyd i Ferched y Gegin (Ysgol Gynradd Llanrug) am eu cymorth parod bob amser.



Mandy Williams, Cwellyn, 14 Rhiwlas Road, Talysarn, a Neil Roberts, 2 Bryn Tirion, Llanrug, a briodwyd yng Nghapel Glanrhyd, Llanwnda, ar Ebrill 14. Byddant yn ymgartrefu yn Norwich ble mae Neil yn gwasanaethu gyda'r Llu Awyr.

Y CHWIORYDD: Cynhaliwyd cyfarfod y chwirydd p'nawn lau, Mai 17, yn Ffestri Pontrhythallt.

Dechreuwyd y gwasanaeth gan Mrs E. W. Thomas, Dolwar, a chafwyd sgwrs ddiddorol gan y Llywydd, Mrs J. Williams, Bod Fair. Diolchwyd iddi gan Mrs W. A. Jones, Dalar Deg. Rhoddwyd y te gan Mrs K. Griffith, Fron Hyfryd, a Mrs A. W. Smith, Llechwedd.

Bydd y cyfarfod nesaf Mehefin 21ain am 2 o'r gloch.

DIOLCH: Dymuna Mrs Eluned Jones, 13 Hafan Elan, Llanrug, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a'i chymdogion am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati yn ystod ei phrofedigaeth o golli ei hannwyl briod, Mr Robert Gruffydd Jones. PLAID CYMRU: Trefnwyd yr Helfa Drysor a gynhaliwyd ar Fai 16, gan Owenna Parry a Lis Roberts. Cafwyd noson arbennig o dda, gyda phryd o fwyd yn Nhy'n Llan, Llandwrog, ar y diwedd.

Yr enillwyr oedd: 1, Sheila, Eurwen, Vera a Cliff Williams; 2, Phyllis Ellis, Gwyn Jones, Ann a Dafydd Ifans. Rhoddwyd y wobwr gysur i Gwenda Roberts ac Aled, ac Ann Lloyd Griffith ac Iwan.

Enillwyd y Raffl gan: 1, Morfudd Roberts, Minffordd; 2, Phyllis Ellis.

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y gangen nos Fercher, Mehefin 13, am 7.30 o'r gloch yn yr Ysgol Gynradd. A wnewch ymdrech arbennig i ddod i'r cyfarfod yma os gwelwch yn dda.

CERDDOROL: Llongyfarchiadau i Ffion Orwig Thomas, Buarthau, ar ei llwyddiant ar Fai 8 mewn arholiad canu'r piano Gradd 6 gyda chlod. Cynhaliwyd yr Arholiad dan nawdd Coleg y Drindod, Llundain. YSGOL GYNRADD LLANRUG: Trist iawn yn gorfod cofnodi i ni golli un o ddisgyblion yr ysgol, Lowri Pritchard, yn ddiweddar wedi cyfnod maith a dewr o frwydro yn erbyn afiechyd blin. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyraf i'r teulu i gyd yn eu profedigaeth. Derbyniwyd rhodd anrhydeddus iawn i Gronfa'r Ysgol gan Derek a Delyth Pritchard er cof am Lowri, a diolchw'n yn ddiffuant iawn iddynt am eu haelioni.

Ymweliadau. Bu'r rhan gyntaf o'r tymor hwn yn eithriadol o brysur yma'n yr ysgol. Daeth y Br Cledwyn Williams atom i draethu am ei ddyddiau ysgol, yn gyntaf fel disgybl ac yna fel Prifathro. Bu'r Fns. Mary Lloyd Williams yma hefyd yn siarad am y dyddiau fu, pan oedd hi'n ferch ysgol. Cafodd y plant fudd mawr o wrando ar atgofion y ddau, ac ysgogodd yr ymweliadau lawer o ymchwil i 'ysgol ddoe'.

Diwrnod Mabolgampau Cymysg Heddlu Gogledd Cymru. Treuliodd chwech o ddisgyblion Safon 4 ddiwrnod yng Nghanolfan Hamdden Arfon yng nghwmni disgyblion o ysgolion eraill led-led Gwynedd ac aelodau'r Heddlu lleol. Roedd Neville Southall, golgeidwad Everton, yn bresennol a chyflwynodd dystysgrif i Llion Williams ar ddiwedd y ddydd. Enillodd Dawn Pritchard bêl i'r ysgol wedi ei harwyddo gan holl aelodau tîm Everton: caiff ei defnyddio i godi arian at achos da cyn hir.

Teithiau Addysgol. Bu plant y babanod yn y Sŵ Fôr ym Mrynsiencyn ac yna ym Mhenmon, lle y cyfarfu Gwenan Myfyr, Swyddog Arfordirol Môn, â nhw i'w tywys i fannau diddorol ar y traeth.

GLADRAGS LLANBERIS

PAM MYND I
GAERNARFON,
BANGOR AC
YMHELLACH
HEFO DILLAD I
BOB OED A
MAINT YMA'N
LLANBERIS AM
BRISIAU BAR-
GEN ?

Be ga i'n bresant?

Dewch yma am

* Dillad Merched

* Dillad Dynion

* Dillad Plant

* Dillad Gwlad

* Mohair ac Aran

* Dillad Lledr

* Dillad Isa

* 'Accessories' fel bagiau

* a llawer mwy

CYNNIG
ARBENNIG



Yn rhatach os
dangoswch yr
hysbyseb hon

GALWCH I BRYNU BARGEN!

CYFLENWYR PORTHIAN

IDRIS MORRIS

BWYDYDD ANIFEILIAD ANWES
GWERTHWYR NWY

Y Fachell
Llanddeiniolen

Ffôn:

Port Dinorwig 670439





Chwech o'r plant yng nghwmni Neville Southall.

Treuliodd y Dosbarth Derbyn fore ym Mharc Eryri yng Nghaernarfon un diwrnod braf bythefnos yn ôl. Erbyn hyn mae ganddynt barc eu hunain yn y dosbarth ac mae pob math o waith diddorol yn deillio o'r ymweliad i'w weld ymhobman!

Ymwelodd plant Safon 1 â Fferm Coleg Glynllifon fel rhan o weithgaredd y tymor: cawsant groeso bendigedig a sawl agoriad llygad.

Artistiaid Preswyl. Cafodd Safon 3 gwmni Leonel Gonzalez o Puerto Rica, sy'n breswyl ym Mhlas Bala Deulyn, Nantlle, ar hyn o bryd.

Mae'n arbenigo mewn gwneud lluniau mawr lliwgar a llachar, a bu'r plant allan yn yr awyr agored yn gweithio gydag o am fore.

Yn un diwrnod, daeth dwy artist-wraig at blant Safon 2. Buont yn paratoi 'Plu'r Gweunydd' o wahanol ddefnyddiau gyda'i gilydd, a bu rhai o'r plant yn cymryd rhan yn seremoni agor Parc Treftadaeth Glynllifon ddydd Gwener diwethaf, trwy blannu'r plu gweunydd yn y pridd ar y cyd â phlant o ysgolion eraill ym mro'r Eisteddfod.

Llwyddiant — Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Daeth Awen

Haf Humphreys yn ail drwy Gymru yn y gystadleuaeth Rhyddiaith 8-10 oed. Cafodd dystysgrif hardd a medal arian am ei gwaith. Llongyfarchiadau mawr iddi ar wneud mor dda.

Bu lolo Glyn, Michael Roberts, Sian Green ac Elen Davies yn fuddugol yng nghystadleuaeth gwneud model 3D trwy Gymru gan ennill medal aur.

Daeth Heledd Angharad, Guto Siôn, Ffion Meleri, Huw Aneurin a Liam Mathew yn drydydd yn yr un gystadleuaeth gan ennill medal efydd. Llongyfarchiadau calonog iddynt i gyd.

Llongyfarchion hefyd i bawb a fu'n cystadlu mor llwyddiannus yn y cystadleuthau gwaith llaw yn lleol, sirol a chenedlaethol.

Llongyfarchiadau i Mrs Heulwen Evans ar enedigaeth merch fach ar Fai 11. Croeso arbennig i Mari Deiniol.

Rasio. Cynrychiolwyd yr ysgol yn rasys traws gwlad Gŵyl Genedlaethol yr Urdd yn Aberystwyth, ddydd Sadwrn, Ebrill 7. Daeth Eifion Jones yn ail, a Steven Prys Williams yn drydydd, a llongyfarchwn y ddau'n galonnog ar eu llwyddiant.



... ac yng nghwmni Leonel Gonzalez, artist preswyl.

CAEATHRO

Gohebydd: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen. Cfon 3536.

LLONGYFARCHIADAU i Sara Wallace Edwards, Maes-y-Coed, ar ei dyweddïad â David Webster o Lerpwl.

CYNGOR CYMUNED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor ar Ebrill 19 yn y Waunfawr. Gofynnwyd i'r Heddwas lleol geisio cerdded strydoedd Caeathro o dro i dro.

Cyflwynwyd cynllun gan adran Syrffewr y Sir ar gyfer llinellau melyn dwbl wrth sgwâr y pentref er mwyn rhwystro parcio ceir sydd yn peryglu traffig yn troi wrth y groesffordd. Penderfyniad y Cyngor oedd cefnogi dim ond y lleiafswm o gyfyngu er mwyn diogelwch a pheidio cyfyngu'r traffig ar hyd ffordd Waunfawr.

Ceisir cael cyfarfod gyda Chyngor Bwrdeistref Arfon er mwyn clirio'r ysbwriel ger y sgwâr a mynedfa cefn Glan Gwna.

Er mwyn hybu pobl i gerdded llwybrau cyhoeddus y gymuned mae'r Cyngor wedi penderfynu gofyn i Syrffewr y Sir godi arwyddion lle mae pob llwybr yn gadael y briffordd.

Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Cyngor yn y Ffestri yng Nghaeathro ar Fai 29 a Mehefin 27 am 7 yr hwyr.

GWASANAETHAU'R CAPEL: Disgwylir y pregethwyr canlynol yng Nghapel y pentref dros y mis nesaf: Mehefin 3 (Sulgwyn): Parch Harri Parri (2 o'r gloch); Mehefin 10: Mr John Roberts, Groeslon (2 o'r gloch); Mehefin 17: Parch Eric Jones, Bangor (2 o'r gloch); Mehefin 24: Parch W. R. Williams (2 o'r gloch); Gorffennaf 1: Cyfarfod Gweddi (10 o'r gloch).

EISTEDDFOD YR URDD: Er mwyn sicrhau llwyddiant ariannol,

cystadleuol, a diwylliannol — Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Dyffryn Nantlle ac Arfon eleni, mae'r pentrefwyr wedi ymateb yn hael i ymdrechion y pwyllgor codi arian lleol.

Ers mis Medi 1987 mae'r digwyddiadau canlynol wedi eu cynnal: Bore Coffi'r plant iau — £116 o elw; Noson Caws a gwin 1987 — £154.06; Cinio Nadolig 1987 — £126.00; Stondin Gacennau 1988 — £85.52; Raffl mawr 1988 — £331.80; Mân werthu — £30.70; Plant Ysgol Gynradd Bontnewydd — £27.92; Noson Caws a Gwin 1989 — £261.45; Stondin Tombola yng Nglynllifon — £72.10.

Sy'n rhoi cyfanswm a gasglwyd i'r gronfa ganolog yn enw'r pentref yn £1206.05. Diolch yn fawr i bawb. Ar ben hynny mae'r Pwyllgor wedi rhoi eitemau ar gyfer nsoweithiau yng Nglan Gwna ac wedi gweithio yn galed yno yn ogystal. A fydd y pentref yn fodlon gweithio rwan tuag at weithgareddau amrywiol Pwyllgor

Cae Chwarae Caeathro? POB LWC i holl blant a phobl ifanc y pentref sy'n sefyll arholiadau ysgol a choleg yn ystod yr wythnosau nesaf.

Merched y Wawr Llanrug TAITH DDIRGEL A PHRYD O FWYD

nos Fawrth, Mehefin 12 cost £7

Bydd y bws yn cychwyn o Benisarwaun am 6.15 Sgwâr Llanrug 6.30 Croeso i hen aelodau ac aelodau newydd! Archeb ac arian i law cyn Mehefin 8 os gwelwch yn dda!

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

YSGOL YRRU OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D L

PRITCHARD

43 Glanffynnon LLANRUG

CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran Drafndiaeth

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



BYSIAU ARFON LLANRUG

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 5175 77858

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen Williams)

Ffôn: Caernarfon 2790

Sylwch ar ein horiau agor hwylus:

Sul 9 - 12.30
Llun - Gwener 7.30 am - 6 pm
Sadwrn 8 am - 8 pm

Nid oes unrhyw dâl am ddanfôn ordor i'ch cartref yn ardal Llanrug.

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

GENEDIGAETHAU: Llongyfarchiadau i Alison a Carl Warnop ar enedigaeth eu mab bychan, — wŷr i Gwyn a Myfi Jones, Weirglodd Las.

Cyfarchion i Gwen ac Wyn Griffiths, Waun, ar enedigaeth Sioned Mai, ac i lonni aelwyd Heulwen a Deiniol Evans Eglwys, daeth Mari Deiniol, chwaer i Urien Deiniol. Pob hapusrwydd i chwi oll.

18 OED: Fel y dywed Eifion Wyn: 'Gyda dydd fy ngeni innau Gwyn fy myd bob tro y dêl'

A dyna'n union a ddymunwn i Sioned Williams, Mark Porter a Darren Lamb ar achlysur eu penblwydd yn 18 oed y mis hwn. 'Gwyn eich byd' a phob dymuniad da.

Llongyfarchiadau: Balch ydym o longyfarch Hefina Jones ar ei llwyddiant gyda'r ffidil — cafodd anrhydedd yn ei arholiad yn ddiweddar. Dalier ati, Hefina.

Yr un modd llongyfarchwn Rhys Owain a Lois Dafydd ar eu llwyddiant gyda'r soddgrwth — maent yn ddisgyblion i Mrs Barnes, athrawes deithiol.

GWELLHAD: Deallwn fod Ifor Green yn brysor wella wedi triniaeth yn yr ysbyty a dymunwn yr un gwellhad i Mr Nathan Jones a Mr Mathews, Freshwinds, wedi'u triniaeth hwythau yn Ysbyty Gwynedd. Ein cofion anwylaf hefyd at Mrs Ch. Dickinson, Tai Ffynnon, hithau wedi derbyn triniaeth.

GAIR O DDIOLCH: Dymuna Carol Porter ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau a phob arwydd o garedigrwydd wedi ei thriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Dymuna trigolion y pentref ddiolch i Mr Alun W. Evans, Deiniolen, am ddsobarthu'r menyf i'r pensynwyr.

PROFEDIGAETH: Ein cydymdeimlad dwysaf â Ceren Jones, Bryn Eglwys, a'r teulu oll wedi marwolaeth ei thaid. Cydymdeimlir hefyd â Mrs K. Williams, Mrs Percy Williams, Mrs M. Jones, 4 Llys y Gwynt, Mrs N. Evans, teulu Perthi a Mr a Mrs T. W. Griffiths, oll wedi colli anwyliad.

YSGOL SUL BOSRA: Dymuna'r athrawon longyfarch a diolch i'r plant am eu gwaith canmoladwy

yn y ddwy gymanfa yn ddiweddar.

Fel gwobr, trefnir trip i Rhyl, **Sadwrn, Gorffennaf 7.** Oedolion — £3.00, a £1.50 i blant nad ydynt yn aelodau o'r Ysgol Sul. Bydd y bws yn cychwyn o **King am 9.30 am.** Enwau rhag blaen i Mrs Elizabeth Jones.

Bydd Ysgol Sul Santes Helen yn ymuno â ni, felly enwau i Mrs Ann Patterson, os gwelwch yn dda.

PWYLLGOR NEUADD: Treuliwyd noson ddiifyr a chymdeithasol iawn Nos wener, Ebrill 27 yng Ngwesty Fictoria, Llanberis. Daeth dros 60 ynghyd i fwynhau 'Pawb yn ei Dro' hefo Arwel Jones. Braf iawn oedd gweld y dysgwyr yn ymuno yn y rhialtwch ac yn amlwg yn mwynhau eu hunain. Dymunwn ddiolch i'r bobl ifanc hefyd am ymddwyn mor gwrtais ac am ymuno yn hwyl a dawnsio'r 60au!!

Diolchir i Michael Jones am logi'r bws, i Sioned, Andrea a Ruth am werthu'r raffl ac i Elizabeth Jones am helpu gyda'r trefnu.

Tynnwyd Clwb Cant Ebrill, a'r enillwyr oedd: 1, Delyth Roberts, Maes Padarn, Llanberis; 2, J. L. Jones, 21 Bryntirion; 3, C. Williams, 20 Bryntirion. Enillydd y raffl oedd Mrs Gwyneth Jones.

Tynnir Clwb Cant Mai, nos Wener, Mai 25 yn Llygad yr Haul.

Y **CARNIFAL** fydd y gweithgaredd nesaf — fe geir manylion pellach yn rhifyn Gorffennaf.

APÊL EISTEDDFOD YR URDD NANTLLE AC ARFON: Dymuna Amranwen Lynch ac Ann Ifans ddiolch i'r caredigion fu'n lletya plant dros yr Eisteddfod. Bu'r ymateb yn hynod o dda yma ym Mhenisarwaun, gyda 90 o blant yn derbyn croeso. Diolch yn fawr iawn. Dymunir pob llwyddiant i'r Eisteddfod a phawb sy'n cystadlu ac yn ymwneud â hi.

Dymuna Dafydd Evans, Cadeirydd y Pwyllgor ac aelodau'r Pwyllgor ddiolch i bawb yn y pentref am eu cefnogaeth i bob ymdrech i gasglu arian tuag at yr Eisteddfod, a sicrhau cyrraedd y nôd. Diolch yn fawr.

CLWB YR HEULWEN: Cafwyd Cyfarfod Blynnyddol ar Fai 15. Ail benodwyd y Swyddogion. Dymunwyd gwellhad buan i Mrs Dickinson, Mrs K. Williams, Mrs Annie Williams, Mr Abbot a Mr T. E. Davies. Cydymdeimlwyd ag



CREFFTWR FFYN BUGAIL: Un o brif ddiddordebau Len Porter yw gwneud ffyn Bugail a ffyn Cerdded. Dechreuodd y diddordeb hwn rhyw 5 i 6 mlynedd yn ôl. Gwnaeth ffon gerdded hardd gyda phen o gorn maharen i'w fam wedi iddi gael damwain. Tyfodd y diddordeb a bellach mae'n grefftwr ar y gwaith.

Y mae ei sied yn llawn o ffyn cyll a draenen ddu gan mai dyma'r coed gorau i wneud y ffyn, a'r adeg gorau i gasglu'r ffyn yw o gwmpas y Nadolig. Cynr maharen yw'r cynr wrth gwrs.

Mae'n werth gweld ei gasgliad o'r ffyn hyn, gyda'r cynr wedi'u cerfio'n gywrain i siâp pen ceffyl, llwynog, mochyn daear, bronwen,

aelodau sydd wedi colli anwyliad.

Rhoddwyd y te gan Mrs N. Roberts a Mrs R. Morris. Enillwyd y raffl gan Mrs P. Williams. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fehefin 19.

URDD BENTREF: Mabolgampau. Cynhelir Mabolgampau yr Urdd ar gae Mr Dafydd Morris yn Waun, ar nos Fawrth, Mehefin 5 am 5.30 pm, i ddewis y rhai fydd yn mynd ymlaen i gynrychioli yr Adran hon yn y Cylch. Bydd Cŵn Poeth, oren, creision a hufen iâ ar werth. Dewch i gefnogi'r plant. os bydd y tywydd yn anffafriol, fe'i cynhelir y noson ddilynol.

Penwythnos Glanllyn (Meh 15-17). Mae penwythnos yng Ngwersyll Glanllyn wedi'i threfnu ar gyfer plant dosbarth 3 a 4 ysgol gynradd a dosbarth 1 a 2 Ysgol Uwchradd, Mehefin 15-17. Cost y penwythnos fydd £23.00 — yn cynnwys costau teithio. Siciau yn daladwy i 'Wersyll yr Urdd, Glanllyn'.

daeargi, brithyll ac wrth gwrs ci defaid.'

Y mae wedi ennill nifer helaeth o wobrau mewn Eisteddfodau a Sioeau lleol. Ond ei uchafbwynt oedd ennill y wobr gyntaf gyda'r ffon hefo'r ci defaid arni yng nghystadleuaeth y British Stick-makers Guild yng Nghastell Bodelwyddan. Enillodd y wobr gyntaf, ail a thrydydd. Y mae wedi bod yn siarad a dangos ei waith mewn rhai cymdeithasau lleol.

Y mae yn bwriadu cystadlu eleni yn Sioe Llanellwedd a dymunir pob llwyddiant iddo.

YSGOL FEITHRIN: Mae dyfodol y pentref yn edrych yn addawol iawn gyda 12 o blant bach yn mynychu'r ysgol Feithrin rwan.

Rhowch wybod i'r Swyddogion erbyn Mai 24.

EISTEDDFOD BENTREF: Cynhaliwyd Ffair Wanwyn yn Neuadd yr Eglwys, nos Wener, Mai 18. Gwnaed elw o £174 tuag at Gronfa'r Eisteddfod. Diolch yn fawr iawn i bawb am y gefnogaeth.

Cynhelir cyfarfod i ymarfer a rhannu testunnau i'r plant yn Neuadd yr Eglwys, nos Lun, Mehefin 4 am 6.30 o'r gloch.

Cynhelir Eisteddfod y Pentref eleni yn **Neuadd Eglwys Santes Helen**, nos Wener, Mehefin 29, i ddechrau am 5.30 pm. Mae Rhestr Testunau ar gael yn awr gan aelodau'r Pwyllgor.

CROESO: Croeso cynnes i Mr a Mrs Dafydd Morris, sydd newydd symud i'w cartref newydd yng Ngroesfordd King. Cofiwch bydd croeso mawr ichwi ymuno yng ngweithgareddau'r pentref.

PLANT BACH YR YSGOL FEITHRIN



Mae dyfodol y pentref yn edrych yn addawol iawn gyda 12 o blant bach yn mynychu'r Ysgol Feithrin rwan.

Aled Jones


Peiriannydd
Gwres Canolog
a Plymio

4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871047

Am bob math o
WYDR wedi'i
DORRI, DDANFON
NEU EI OSOD.

cysylltwch â

Barrys GLASS



Camelot,
PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis 871144

CERDDWYR CYMORTH CRISTNOGOL



EGLWYS SANT HELEN: Ffestri'r Pasg. Yn y Ffestri flynyddol a gynhaliwyd yn Neuadd yr Eglwys nos lau, 19 Ebrill, etholwyd Mr Haydn Lewis yn warden am flwyddyn arall. Ymhen ychydig ddyddiau wedyn derbyniodd Mrs Roberta Griffiths swydd y warden arall i olynu Mr Bryngwyn Griffith. Diolch i Bryngwyn am ei wasanaeth ffyddlon fel Ysgrifennydd y Cyngor Plwyfol Eglwysig a Mrs Mary Davies yn Drysorydd.

Taith Gerdded. Nos Wener, Mai 18 aeth tua dwsin o ddisgyblion yr Ysgol Sul ar daith gerdded noddedig er budd Cymorth Cristnogol. Dymuna'r Parch Tegid Roberts, ddiolch i'r disgyblion am ymateb mor frwdfrydig ac i Mrs Ellen Lewis, Penpwllcoch, am ei chymorth ar noson y daith. Diolch hefyd i'r pentrefwyr am eu cyfraniadau hael.

Gŵyl Gorawl Eryri. Cynhelir Gŵyl Gorawl eryri eleni yn Eglwys St Mair, Y Felinheli, ar Sul y Drindod — 10 Mehefin 1990.

Dydd Gwedd a Rhodd Eglwys St Helen. Cynhelir Dydd Gwedd a Rhodd eleni ar ddydd Sul y 24 o Fehefin. Ceir un gwasanaeth o Gymun Bendigaid yn y bore am 10.30 a'r pregethwr gwadd fydd y Parchedig Mervyn Price-Roberts, ficer Tregarth a Llandygai.

YSGOL TAN-Y-COED: Derbyniwyd gwobr o Docyn Llyfr Cymraeg gwerth £3 (tair punt) gan y Prifardd Selwyn Griffith, i'w gyflwyno i'r plentyn sy'n gwneud y gwaith gorau yn y Gymraeg. Rydym yn ddiolchgar iawn iddo am ei garedigrwydd.

Wedi dyddiau o ymarfer, bydd

ffrwyth llafur y plant a'r hyfforddwyr yn wled i'r llygad a'r glust rwy'n siŵr. Nos lau a nos Wener, yn y Pasiant ym Mhafiliwn yr Eisteddfod. Bydd 18 o blant yr Ysgol ar y llwyfan y nosweithiau hyn. Pob dymuniad da iddynt ac i Tracey, Siân a Vanessa yn y Ddawns Flodau.

Bydd 4 o blant yr Ysgol yn cael actio mewn ffilm i blant o gwmpas y Nadolig hwn. Stori iasoer ydyw stori 'Llygaid Hacky Basham'. Addasiad Dyfan Roberts o stori Alison Prince. Mae'r digwyddiadau yn mynd yn ôl i'r 50au. Pob hwy i William, Daniel, Christopher a Tracey.

Dosbarth byw iawn yw Dosbarth y Babanod y tymor hwn, gyda'u cywaith **Tyfu**. Y mae hadau a thoriadau yn ffynnu yn ardderchog yng ngofal y garddwyr bach.

Dymuna Safon 1 a 2 ddiolch i Mr John Grisdale, Prifathro Ysgol Brynrefail am adael iddynt dreulio prynhawn i'w gofio yng ngofal Dafydd Evans yn ei labordy cyfrifiadureg. Roeddent wedi mwynhau eu hunain gyda'r Logo a'r gemau a bu'n brofiad i'w gofio iddynt. Diolch i'r rhai fu mor barod i'w cludo.

CAPEL GLASGOED: Dydd Sul, Mai 27, pregethir gan y Parchedig Tegid Roberts; Mehefin 3 pregethir gan y Parch Stanley Williams, gweinyddir y Cymun Sanctaidd. Yna Mehefin 24 cynhelir gwasanaeth arbennig i ddirwyn yr achos i ben. Gwasanaeth am 2 pm. Bydd hwn yn wasanaeth fydd yn dwyn atgofion melys i nifer o drigolion y pentref fel y darllenwn yng ngherdd Mr O. Idris Owen, Minffordd, Penisarwaun.

CAU CAPEL Y GLASGOED

Hen gapel fy mhlentynod,
Mor chwith dy weld yn awr
Hen gapel lle y credwn,
Oedd trigfa'r Brenin Mawr.
Mae meddwl plentyn lawer tro,
Yn nes i'r gwir na'i ddirnad o.

Hen gapel fy medyddio,
A'm dysgu sut i fyw
Mae adlais dy hyfforddiant
Hyd heddiw ar fy nghlyw.
Roedd lampau golau ambell Sul,
Yn help i rodio'r llwybyr cul.

Bu Hoelion Wyth yr enwad,
'N ei bulpud lawer gwaith,
Taranu am bechodau
Ac erchyllerau'r daith.
A phobol o bob cwr o'r plwy,
Yn dod i wrando arnynt hwy.

Bu'n gyrchfan Eisteddfodau,
Rhai grymus iawn yn wir,
Yn denu cystadleuwyr,
O bedwar ban y Sir.
A beirniaid gorau Cymru Wen,
Yn rhoi eu barn ar pwy oedd ben.

Fe geid cyngherddau weithiau
Artistiaid goreu'r wlad.
Yn dod i'r llecyn tawel,
I roddi in fwynhad.
A hyfryd gweld pob sedd yn llawn,
A mwy na'u llond yn aml iawn.

Ond adlais o'r gorffennol,
Yw'r pethau hyn i gyd.
Does neb yn ceisio heddiw,
Lloches dy furiau clyd.
A'r ysbryd tanbaid gerddai gynt
A chwalwyd oll i'r pedwar gwynt.

Ond nawr rhen Gapel annwyl,
Nid wyt ond cragen wan.
Dim emyn a dim canu,
Na phregeth ddwys i'th ran.
A thithau'n y distawrwydd mawr,
Yn torri rhaff rhwng nef a llawr.

O. Idris Owen



AYRES ROCK

Yn sydyn
ymddangosodd
yn grwbau o graig
ar y gorwel.

Ynys oren
yng ngharchar llychlyd yr anialwch,
ogofâu cyntefig
yn swatio yn ei chrombil
a'u lluniau'n ddelweddau o ddoe.

Anodd coelio
iddi orwedd unwaith
yn grwbau môr o graig
yn nyfnderoedd y cefnfor.

Gwyliais banorama'r machlud
a phelydrau diwedd dydd
yn llyfu'r llyfnder
â enfys o liwiau
cyn suddo'n swil
i lwch coch yr anialdir.

Ond, yno y bydd hi
yfori eto,
yn grwbau o graig,
a'r miloedd yn pererindota
i glician eu camerâu
ac i sylu'n fud ar ei rhyfeddod
hyd dragwyddoldeb.

Selwyn Griffith

TAN-Y-COED

Gohebydd: Bethan Parry, Ael y Bryn. Ffôn 872 276.

ANRHYDEDD: Yn ddiweddar anrhydeddwyd Miss Megan Humphreys, Cadnant, gyda Thystysgrif Thomas Gee yng nghapel Siloh, Llandudno, am ei gwaith da yn Ysgol Sul Tan-y-Coed ar hyd y blynyddoedd.

CYFARCHION PENBLWYDD: Llongyfarchiadau i Mrs Ceridwen Owen, Gwynant, ar gyrraedd ei phenblwydd yn 80 oed, Mai 4.

Hefyd, Mrs Ceinwen Roberts, Ael y Bryn, ar gyrraedd ei phenblwydd hithau yn 80 oed, Mai 8. **LLONGYFARCHIADAU** i Annwen Parry, Ael y Bryn, ar ddod yn drydydd drwy Gymru yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y gystadleuaeth Tecstilau o dan 18 oed.

DAMWAIN: Drwg gennym glywed fod Mrs Jeannie Hughes, Oerddwr, yn yr Ysbyty ar ôl damwain tu allan i'w thŷ yn ddiweddar. Brysiwch wella.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Megan Thomas, Llys Meredydd, ar farwolaeth ei mam, Mrs J. M. Griffith, ar Fai 6.

**WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR**

E. PUGH

**WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG**

Ffôn: Caernarfon 5394

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (93) 714043
neu

Caernarfon 4520
edau, nodwyddau
ac ati mewn stoc



Rhai o blant Ysgol Gynradd Llanrug a fu wrthi'n cynllunio a chreu plu'r gweunydd gyda chymorth artistiaid teithiol. Cafodd rhai o blant cynradd dalgylch yr Eisteddfod gyfle i wneud hyn ac anfon cynrychiolwyr i blannu'r plu mewn seremoni arbennig ym Mharc Glynllifon i gofio Syr O. M. Edwards.

Yn ystod wythnos yr Eisteddfod rhoddwyd cyfle i blant gweddill Cymru ddilyn esiampl plant Dyffryn Nantlle ac Arfon drwy baratoi, gyda help artistiaid, ac yna plannu eu plu eu hunain mewn gweithdy yn y Paf iliwn Crefft a Dylunio.



Huw Llywelyn Jones o Fethel a gymeradwywyd am waith creadigol yn yr adran Grefft a Dylunio.



Ieuenctid dosbarthiadau un, dau a thri ysgolion uwchradd y cylch yn perfformio'r Sioe Gerdd 'TRI, DAU, UN' yn Theatr Gwynedd.

Yn sicr, dyma berfformiad mwyaf proffesiynol a chaboledig yr holl wyl, ac un y bydd sôn a chôf amdano am amser maith. (Llun: drwy gareidgrwydd Dylan Rowlands).



Rhai o blant Ysgol Waunfawr sy'n cyfeilio yn ystod un o'r prif seremonïau yn yr Eisteddfod.

Isod: Pedair o enethod o Ysgol Gynradd Llanrug oedd yn cyfarch Enillydd Medal y Dysgwyr.



Dyma Osian Elfryn o'r Waunfawr a gymeradwywyd am waith yn yr Adran Crefft a Dylunio dan 8 oed.

GŴYL Y GLYN




Uchod: Llongyfarchiadau i Anwen Parry, Tanycoed, ar ddod yn drydydd yn yr adran tecstilau, oedran blwyddyn 6. Llongyfarchiadau hefyd i Heledd, Ffion, Liam, Guto a Huw (isod) o Ysgol Gynradd Llanrug. daethant yn drydydd mewn Cystadleuaeth Cywaith Modelu a Gwaith 3D dan 8 oed.



O Basiant y Plant: Y gweithwyr trydan a'r gwymoniaid o Ysgolion Llanberis a Phensiarwaun.



Uchod: Daeth Osian Gwynedd, Waunfawr yn drydydd ar gyfansoddi Cerddoriaeth, oedran blwyddyn 4, 5 a 6. Chwith: Plant ac athrawon amynedgar tu ôl i'r llenni yn ystod ymarferion ar gyfer y Pasiant. Isod: Plant Llanrug fel peldroedwyr yn y Pasiant.



Da iawn Awen Haf Humphreys o Ysgol Gynradd Llanrug ar ennill yr ail wobwr am ryddiaith o 8-10 oed - 'Fferm Ryfedd'.



Uchod: Y Gwymoniaid drwg o Ysgol Cwm-y-Glo a (De) plismyn Waunfawr yn barod i gadw trefn ar bawb yn y Pasiant.



ECO'R IFANC

LLIWIWCH Y LLUN

- 1 - COCH
- 2 - GLAS GOLAU
- 3 - OREN
- 4 - BROWN
- 5 - GWYRDD TYWYLL
- 6 - PINC
- 7 - GWYRDD GOLAU
- 8 - MELYN
- 9 - GLAS



CORNEL JÔCS

Beth gewch chi wrth groesi ci a jiraff?
Anifail sy'n cyfarth ar awyrennau!!

Beth sy'n goch a phips ynddo?
Teliffon!!

Beth wyt ti'n wneud Sam?
Chwilio am bryfaid, mam.
Sawl gwaith sy'n rhaid dweud wrthyt ti am beidio a chwarae hefo dy fwyd!!

Ha ha! Ha ha!

Cnoc, cnoc
Pwy sy' na
Dani Harri
Dani Harri pwy?
Dan i hari hól hi!

Pa mor hir ddylai coesau eliffant fod?
Digon hir i gyrraedd y llawr.


Pam fod gan eliffant drwnc mawr?
Am ei fod yn rhatach na dau ges bach.

Pa fath o eli sy'n rhy fawr i fynd i mewn i botel?
Eli - ffant!

Beth sydd a phedair coes ond yn methu cerdded?
Eliffant wedi marw.

Ha ha! Ha ha!

EWCH O DDOT I DDOT



Beth ydych chi'n galw briw ar groen cybydd?
Casgliad!!!

Beth gewch chi wrth groesi ceffyl â sgync?
Wini ddy Pwwwwwww!!

Beth sydd â phedair coes, sy'n frown ac mae ganddo drwnc?
Llygoden — yn dod yn ôl o'i wyliau!!

Be' sy'n frown, blewog a sydd ddim yn mynd allan yn aml?
Cocynyt swil!!!

Beth ydy hoff fwyd draenog?
Nionod pricl!!!

Beth sy'n wyrdd ac sy'n sefyll yn y gornel?
Llyffant drwg!!!

Beth amdanat ti? Fedri di liwio'n dda? Wel beth am roi cynnig arni y mis yma. Cofiwch mae'n rhaid i'r lluniau gyrraedd y 'Gornel' erbyn Mehefin 19.
POB LWC I CHI!!!

S.O.S!!! OES GANDDOCH CHI JÔCS? OES GANDDOCH CHI JÔCS!

Enillydd cystadleuaeth mis Mai yw Bethan Fôn Jones, Bro Dawel, Bethel. Mae Bethan yn 9 oed ac yn arlunydd o fri mae'n amlwg. **LLONGYFARCHIADAU MAWR ITI BETHAN!!**

Llongyfarchiadau gwresog hefyd i Ffion Meleri Jones, Rhos y Grug, Ceunant (6 oed); Gareth Jones, Tyddyn Oer, Bethel (9); Erica Lyn Jones, 7 Ael y Bryn, Waunfawr (5); Esyllt Mair Jones,

11 Tŷ Draw, Pentre Eglwys, Pontypridd (10); Rhiannon Birch, Tai Bryngwyn, Llanrug (7); Lowri Huws, Argoed, Waunfawr, (10).


CYSTADLEUAETH MIS MEHEFIN

ENW

CYFEIRIAD

.....

OED



LLIWIWCH Y LLUN

BETH AM EU HANFON I'R ECO ERBYN Y MIS NESA!!!!!!

DINORWIG

Gohebydd Mr D. J. Thomas, 8 Maes Eilian

Fe'n dysgwyl yn gynnar iawn yn yr Ysgol Sul i sylweddoli grym ymdaith y tymhorau, ac roedd hyn yn rhan anheggor o werslyfrau'r Ysgol Sul, gyda'r canlyniad i hynny ddod yn rhan o'n natur ninnau.

Roedd i bob tymor ei nodweddion arbennig ei hun. Ond er dweud hyn rhaid cyfeirio at rywbeth oedd yn ddieithr, a bron yn annaturiol yn nhymor y gwanwyn eleni, pryd y cawsom dywydd oedd yn ymylu ar fod yn hafaidd ar ddechrau'r tymor, ond eto fe ddilynwyd hyn gan dywydd gryn dipyn yn oerach, ac a ymddanghosai'n groes i'n disgwyliadau ni.

Prin bod gennym y gallu i egluro y paham a'r pa fodd y digwydd hyn. O leiaf fe allwn ychwanegu na welsom dywydd hafal i hwn erioed o'r blaen — fe ddaeth a rhyw elfen newydd i mewn i'n profiad. Dichon na welais gymaint o flodau ar ddrain erioed ag a welir eleni — mae'r brigau'n pwyso i lawr gan mor llwythog o flodau ydynt.

SARDIS: Yr ail Sul ym mis Mai, roeddem ni sy'n ffyddlon i gapel sardis yn ôl yn ein haddoldy, ar ôl bod am rai wythnosau mewn lleoedd eraill. Fe dreuliasom rai Suliau yn Libanus, Clwt-y-bont — y cyntaf o'r Suliau hynny yn gwrandao ar weinidog o Dde Cymru yn rhoi anogaeth i ni wrando'r Efengyl, Ar y Sul dilynol roeddem yn yr un lle yn ymarfer rhai o donau taflen ein Cymanfa ganu, ac ar y Sul cyntaf ym mis Mai, roeddem yn ymgynnull yng Nghaersalem, Caernarfon, yn y Gymanfa Ganu ei hun. Erbyn i ni ddod yn ôl i Sardis, roedd yr addoldy wedi ei adgyweirio a'i harddu. Y tu allan y bu'r adgyweiriadau, ond y tu mewn y bu'r peintio, ac fe allem ninnau werthfawrogi glendid y gwaith a harddwch y capel ar ei newydd wedd.

CYMANFA: Eleni yn Nant Peris y cynhaliwyd Cymanfa ganu Cylch Dinorwig a Llanberis perthynol i'r Methodistiaid Calфинаidd neu Bresbyteriaidd.

COFIO: Mae ein cyfeillion yng Ngahpel Dinorwig (M.C.) yn dymuno i ni ddatgan eu bod yn cofio am nifer sydd mewn cartrefi henoed lle cânt driniaeth feddygol — triniaeth y byddai yn anodd iddynt ei gael yn eu cartrefi eu hunain.

Mae dymuniad taer bod Mr O. R. Williams, Tai Rhydfadog yn derbyn gwellhad. Yn Ysbyty Eryri, Caernarfon y mae ef ar hyn o bryd. Ef yw pen blaenor Capel Dinorwig

(M.C.) ac fe gofiwn ninnau mai ef ar un adeg a ofalai am golofn newyddion Dinorwig yn 'Eco'r Wyddfa', ac nid gorchwyl hawdd bob amser yw gofalu bod popeth yn cael ei wneud yn ddiram-gwydd, a chael digon o ddefnyddiau i lenwi'r golofn.

ORGANYDD: Fe ddaeth problem sy'n peri pryder i ran Sardis. Ar hyn o bryd rydym yn amddifad o organydd, a chyda'r wyl bregethu'n agoshau, fe fyddai gwasanaeth organydd yn dderbyniol. Fe lwydda'r brawd John Thomas i daro'r nodyn yn bur llwyddiannus, ac fe geir pedwar llais i ffurfio y cordiau, ond fe fyddai arweiniad yr organ ynn gaffaeliad mawr. A ninnau'n perthyn i gylchdaith o gapeli, fe ddichon y gellid sicrhau gwasanaeth un organydd, o leiaf, yn achlysurol. Er mwyn y to o blant sy'n codi, tybed a allai rhywun ateb yr alewad.

CLOC: O ganlyniad i golli cwmni y diweddar Hugh Thomas, Bro Elidir, fe gafwyd cyfarfod yn y ganolfan i osod cloc yno er cof am yr ymadawedig. Fe ddichon y buasai mwy yn y cyfarfod hwn pe nas trefnasid ar noson gŵyl y Banc, gan bod nifer o bosibl wedi trefnu ymlaen llaw sut i dreulio'r wyl. Eto i gyd mae cloc mewn adeilad cyhoeddus fel hyn yn rhodd werthfawr a defnyddiol.

DIFROD: Chwith gennym yw gorfod cyfeirio at ddifrod i gar oedd ar ochr y ffordd o flaen tai Maes Eilian. Fe aeth rhywun i'r drafferth i falu 'windscreen' y car a'r ffenestr ar ochr y car — roeddent yn chwilfrw. Gresyn fod cymaint diffyg parch i eiddo y dyddiau hyn. **MARW:** Ar ôl i ni anfon adroddiad y mis diwethaf i mewn, fe glywsom am farwolaeth Mr David Richard Jones, Bron Myfyr. Wedi treulio blynyddoedd ar lannau'r Ferswy, fe ddaeth i ymgartrefu a threulio gweddill ei oes yma yn Ninorwig. Ni fynnai lawer o amlygrwydd, ond fe'i perchid gan ei gymdogion a'i gyfeillion.

DIOLCH: Dymuna Lizzie Jones a theulu y diweddar D. R. Jones, Bron Myfyr, ddiolch o galon i bawb am bob gair o gydymdeimlad, yr holl gardiau a'r rhoddion a dderbyniwyd tuag at Glinic Deiniolen. Llawer o ddiolch i'r meddygon teulu, nyrs y dosbarth, holl staff Ward Conwy, Ysbyty Gwynedd, Bangor a hefyd y Parch John Pritchard am ei wasanaeth, a Myrddin Pritchard am y

trefniadau. **DADORCHUDDIO COFEB:** Nos Lun, Mai 7, cafwyd cyfarfod yn y Ganolfan dan lywyddiaeth Mr Derek Williams i ddadorchuddio cofeb i goffau y diweddar Hugh Thomas, 1 Bro Elidir.

Roedd yn noson o dristwch a llawenydd, tristwch o golli un a roddodd ei orau dros y pethau oedd yn cyfrif yn y fro, a llawenydd ein bod fel ardalwyr yn gallu rhoi teyrnged iddo yng nghwmni ei weddw a'i balnt.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Llywydd. Yna cafwyd gair gan y Prifardd Selwyn Griffith, yntau yn talu gwrogaeth i Hugh Thomas fel cyn-aelod o Gyngor Cymuned Llanddeiniolen am sawl blwyddyn, ac fel ffrind a chymwynaswr.

cawsom wrando cân gan Olwen, Marina ac Ifan Bryn Tŷ'r Ysgol, cyn galw ar y Prifardd Ieuan Wyn i ddadorchuddio y gofeb, sef cloc hardd at wasanaeth y ganolfan, ynghyd ag englyn addas o waith y Prifardd, wedi ei phrintio yn gywrair a'i fframio gan Eurwyn Morris (Minffordd gynt) a'r cyfan wedi eu gosod mewn ffrâm hardd o waith Alfred Dearne, Frondeg.

Cafwyd gair ymhellach gan y Prifardd Ieuan Wyn, yntau yn adnabod Hugh Thomas fel un a chariad tuag at ei fro, ei Eglwys a Chymru. darllenwyd yr englyn ganddo a chyflwyno y neges oedd ynddi.

Diolchwyd gan Mr Rennell Williams i bawb a fu'n gymorth i wneud y seremoni hon yn bosib. Ategwyd y diolch ar ran teulu Hugh Thomas gan ei feibion, y Parch Idris Thomas a Glyn Tomos, a gwerthfawrogwyd popeth a wnaed er cof am eu tad. Cafwyd paned o de cyn ymadael wedi ei pharatoi gan bwyllgor y Ganolfan.

I gofio Hugh Thomas (1915-1990)

A'i fraich am ei fro o hyd — yn annwyl,
Bu'n cynnal drwy'i fywyd
Y pethau gorau i gyd
Yn ddi-ddiwedd o ddiwyd.

Ieuan Wyn

EGLWYS ST MAIR: Yr Wyl Bregethu. Cynhelir yr wyl eleni ar ddydd Sul, Mehefin 17 am 3.45. Y pregethwr gwadd fydd y Parch Peter Pritchard, Rheithor Plwyfi Llanberis a Llanrug. Croeso i bawb o bob enwad ymuno ag aelodau St Mair yn y gasanaeth hwn.

Trip yr Ysgol Sul. Bydd y trip eleni yn mynd i Rhyll a hynny ar ddydd Sadwrn, Mehefin 30. Y cyfeillion o Eglwys Crist, Llanddinorwig sydd yng ngofal y trefniadau ac y mae croeso i aelodau St Mair fynd ar y

trip. Fely os ydych am fynd yna y mae angen i chi roi eich enw i'r swyddogion.

Yr Wyl Gorawl. Cynhelir yr Wyl eleni yn Eglwys St Mair, Llanfairisgaer, a hynny ar ddydd Sul, Mehefin 10. Ar gyfer Gŵyl y Plant yn y prynhawn bydd bws yn gadael Allt Ddu am 1.00 er mwyn cludo pawb ar y ffordd. hefyd ar gyfer y Gymanfa Ganu am 6.30 bydd bws yn gadael Allt Ddu am 5.30.

HWYL HAF: Eleni cynhelir gweithgareddau Hwyl Haf, yn yr Allt Ddu ar brynawn Sadwrn, Mehefin 23 o 1.30 ymlaen.

Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf rydym wedi bod yn hynod o lwcus gyda'r tywydd ac o safbwynt cefnogaeth frwd, nid yn unig o Ddinorwig ond hefyd gan y pentrefi cyfagos. Rydym yn hyderus y cawn yr un gefnogaeth eto eleni. Fel yn y gorffennol bydd y pwyslais ar gael pnawn llawn o hwyl a sbri. Bydd digon o stondinau, gemau ar gyfer pawb o bob oed, cystadleuaeth gwisg ffansi a digon o ddiolch ysgafn a bwyd. Felly, cofiwch ddod. Croeso i bawb ymuno yn yr hwl. O safbwynt y gystadleuaeth gwisg ffansi gofynnir i bawb o bob oed ddod draw ym mha wisg ffansi bynnag yr hoffent ac fe gaiff pob un ei feirniadu yn ôl oedran yr ymgeisgwyr. Felly pawb i fynd ati yn ddiymdroi i feddwl am wisgoedd ffansi gwreiddiol. Bydd gwobrau ar gael i'r enillwyr.

Y GANOLFAN GYMDEITHASOL: Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y ganolfan, nos Lun, Mai 7. Ail etholwyd Mr Glyn Tomos fel Llywydd; Mr Derek Williams (Islywydd); Mrs Hannah Roberts (Ysgrifennydd); Mrs Rita Wood (Ysgrifennydd Cofnodion); Miss Marian Jones (Trysorydd). hefyd i gynorthwyo'r swyddogion yn eu gwaith sicrhawyd criw da i weithredu ar y pwyllgor. Diolchodd y Llywydd i bawb am eu gwaith yn ystod y flwyddyn a da oedd adrodd bod y Ganolfan yn cael ei defnyddio yn aml gan y gymuned leol. Paratowyd adroddiad ariannol gan y trysorydd ac fe'i cadarnhawyd fel un cywir.

Adroddodd Mr Rennell Williams am lwyddiant y Clwb Snwcer ac fe gadarnhawyd mantolen ariannol y Clwb fel un cywir. Hefyd trafodwyd materion eraill.

Penderfynwyd pwyso unwaith un rhagor ar i'r Cyngor Sir ddymchwel yr hen dioledau yn yr iard gan eu bod mewn cyflwr drwg ac yn berygl i iechyd y cyhoedd. hefyd angen atgyweirio rhai o'r ffenestri. Mynegwyd pryder am y cynnydd diweddar yn y gor-yrnu sydd trwy'r pentref a nodwyd bod arwydd tri deg milltir yn awr yn gyfyngedig i Gallt y Foel yn unig. Teimlwyd y dylid cyfyngu cyflymder drwy'r pentref hefyd i dri deg milltir yr awr.

Cyfeiriwyd at sefyllfa y cae chwarae a gofynnwyd a oedd modd gwella rhywfaint ar y cyfleusterau chwarae presennol sydd yno ynghyd a chyflwr y cae ei hun. Awgrymwyd rhoi gwahoddiad i Swyddog o Gyngor Dosbarth Arfon i drafod hyn gyda'r pwyllgor.

Bydd y pwyllgor nesaf cyn cyfarfod nos Lun, Mehefin 11 am 7.00.

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

PRIF GYNRYCHIOLWYR



YNG

NGWYNEDD

Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

CYNGOR CYMUNED LLANDDEIN-IOLEN: Yn eu cyfarfod ar Fai 1 trafodwyd sawl mater yn ymwneud â'r pentref. Soniwyd a chytnwyd i atgyweirio cyflwr simsan y sedd sydd wrth ymyl y ganolfan. Gyda llaw, clywir gan rai bod angen sedd wrth gyfeiriad Allt Ddu, ond eto nid oes neb wedi awgrymu lleoliad addas ar gyfer sedd o'r fath. Byddai Mr Glyn Tomos, y Cynghorydd Cymuned lleol yn falch o dderbyn eich awgrymiadau.

Yn anffodus, nid yw Dinorwig, fel sawl pentref arall, yn rhydd o broblemau fandaliaeth ychwaith. Adroddwyd bod y ciosg wrth Minffordd wedi ei fandaleiddio ond mae Telecom Prydeinig wedi addo rhoi ciosg arall yn ei le. Eisoes maent wedi rhoi ciosg newydd yn Fachwen. Trueni nad yw eiddo yn cael eu parchu y dyddiau hyn.

Hefyd o fewn y mis neu ddau nesaf mae trefniadau ar droed i dorri tyfiant ar hyd y llwybrau cyhoeddus. Wrth gwrs dim ond un waith y flwyddyn y gwneir gwaith o'r fath felly mae'n bwysig peidio a thorri tyfiant yn rhy fuan, neu fe fydd y gwair wedi tyfu eto cyn y gaeaf. Hefyd yn sgîl y cynnydd mewn fandaliaeth gofynnwyd i'r heddlu lleol gadw golwg mwy manwl ar y sefyllfa.

ALLT DDU: Mewn cyfarfod diweddar o Grŵp Cyswllt Parc Padarn/ Cyngor Sir Gwynedd cytunwyd i gais y Cynghorydd Glyn Tomos ar y Cyngor Arfon baratoi adroddiad llawn ynglŷn â'r sefyllfa sydd yn bodoli yn yr Allt Ddu.

Bellach fe welir cynnydd sylweddol yn nifer y traffig sydd yn mynd trwy'r pentref ac yn nifer y ceir sydd yn parcio yn Allt Ddu, yn arbennig felly ar benwythnosau. Yn ychwanegol at hyn mae'r dringwyr yn amlwg eu presenoldeb ar wyneb y creigiau wrth y domen fawr, a thua pythefnos yn ôl fe ddigwyddodd damwain yno.

Bwriad sicrhau adroddiad o'r fath fydd rhoi gwybod i ni y bobl leol beth yn union sydd yn digwydd mewn perthynas â'r tir o gwmpas Allt Ddu yn sgîl y diddordeb cynyddol sydd yn cael ei ddangos yn y lle gan ymwelwyr.

TANGNEFEDD

Y Gwalch

Yn ninas Worcester, lle bu un o frwydrau rhyfel Cromwell, mae 'na barc bychan wedi ei gysegru i goffhau brwydr Geluvelt, yn yr hon y cymerodd catrawd Caerwrangon ran amlwg ac anffortunus yn ystod y Rhyfel Mawr.

Tu allan i'r ddinas mae gwlad ffrwythlon a diddorol, yn llawn perllannau a phalasdai Elisabethaidd du a gwyn, yn cynnwys Huddington Court, yn yr hwn y deorwyd y cynllwyn hwnnw i chwythu Tŷ'r Cyffredin.

Yn yr ardal honno hefyd, y deuthum i adnabod Ben a Mary Beddoes. Roeddent yn trigo mewn bwthyn diarffordd yn ardal y Lenches. Diblant oeddent, ac yr oedd Ben wedi treulio ei oes gyfan yn gweithio ar y tir. Ond ei bleser oedd garddio, a mynd a'i wraig am dro yn y seidcar at lan y gamlas i bysgota. Byddai Mary yn gwau tra'r eisteddai Ben ar y lan yn chwipio'r dŵr ac yn taflu rhan helaeth o'i ddalfa yn ôl i'r gamlas. Bum gyda hwy unwaith neu ddwy, a chefais gyfle eithaf i ddysgu trin y wialen, ond doedd gen i ddim i'r tueddiad na'r dyfalbarhâd.

Heblaw gofalu am y tŷ, roedd Mary yn gwnio menyg fel y rhan fwyaf o ferched y fro. Byddai trafeliwr Dents yn dod yn wythnosol gyda phentwr o gledrau a chefnau, a byddai hithau yn eu rhoi wrth ei gilydd a gwnio'r gysets gyda pheiriant pwrpasol a oedd ganddi at yr orchwyl.

Roeddwn yn edmygu ei diwydrwydd a'i thŷ a oedd yn llawn o ddodrefn hen, addurniadau pres a lluniau. Ei phleser oedd egluro i mi pwy oedd yr holl bobl rheiny, er nad

oeddent yn naturiol yn golygu fawr i mi.

Roedd yna un darlun mawr pen a sgwyddau fodd bynnag, yn crogi yn y gegin ffrynt, nad oedd hi'n chwanog i helaethu fawr amdano. Milwr ifanc golygus ydoedd, a'r cwbl a ddywedai hi oedd: 'Fy mrawd ydy hwnna. Mae o yn yr Abbey wyddost ti.'

Cynnyddodd fy chwilfrydedd o gwmpas y llanc, ond nid oedd y rheolau cymdeithasol yn caniatáu i mi holi yn uniongyrchol yn ei gylch. Ond daeth i mi eglurhad, a hynny'n annisgwyl, ym Mharc Geluvelt un prynhawn tég o Fehefin.

Roeddwn wedi mynd i'r ddinas hefo Ben ar y moto beic i gyrchu rhyw neges. Ar ôl ei chwblhau aethom i eistedd ar fainc yn y parc am ennyd, a dechreuasom sôn am frwydrau a rhyfeloedd yn gyffredinol; ac am arwyddocad y fangre honno'n arbennig.

'Ym mrwydr Geluvelt y collwyd brawd yr hen Fusus wyddost ti,' meddai Ben yn sydyn.

'O,' meddwn. 'Nid hwnna sydd a'i lun ..?'

'Yn y ffrynt. Dyna chdi. Bert oedd ei enw fo. Roedd o yn yr ysgol hefo fi. Doedd raid iddo fo ddim mynd i ryfal wyddost ti, mwy na finna. Roeddent ni'n dau ar y tir — ond mynnu wnaeth o.'

'Roedd colli brawd fel yna yn dipyn o ergyd iddi,' meddwn wedyn, o ddiffyg dim callach i'w ddweud.

'Gwaeth iddi hi wyddost ti. Gefeiliaid oeddent nhw wyt ti'n gweld; yn meddwl y byd o'u gilydd. A fynnai hi ddim ei fod o wedi cael ei ladd.'

'Oedd 'na sicrwydd?'
'Wel oedd a nacoedd. Ar goll yr oedd o, beth a elwid yn swyddogol yn 'missing believed killed'. Y tebygrwydd oedd wrth gwrs ei fod o wedi ei chwythu yn sgyrion fel cannoedd eraill.'

'Ddaru hi ddim derbyn hynny debyg?'

'Naddo. Fyddai hi byth yn cloi y drws nos na dydd wyddost ti ar ôl i ni briodi gynta. Roedd hi'n ei ddisgwyl o yn ei ôl wyt ti'n gweld — adra.'

Wnes i ddim holi rhagor gan fy mod yn meddwl mai hynny oedd diwedd yr achos. Eto yr oeddwn yn dal i gofio fel y soniodd hi am yr 'Abbey'.

Bu Ben yn dawel am ysbaid. Yna meddai: 'Hynny ydy tan 1920 pan ddaethon nhw â'r Milwr Dienw i Abaty Westminster o Flanders.'

Aeth Ben yn ei flaen wedyn i ddweud fel yr aeth llaweroedd o bob cwr o'r wlad i Lundain i wylio'r seremoni o gladdu'r Milwr Dienw, ac yn eu plith, yr oedd yna rai a oedd yn argyhoeddedig mai eu perthynas coll hwy oedd o — tad neu gariad, gŵr neu frawd — ac yn eu plith yr oedd Mary Beddoes.

Roedd hi wedi celcio ei phres gwnio er mwyn cael bod yno, a serch ei bod yn gwybod fod y rhai a oedd o'i chwmpas yn sicr mai eu dyn hwy oedd y Milwr, a'u bod yn wybodol o'i sicrwydd hithau o'r un ffaith; eto, yr oeddent i gyd yn sicrach o beth pwysicach — fod y naill a'r llall yn camgymeryd.

Ac yn y sicrwydd hwnnw yr aethant oll i'w cartrefi eu hunain meddai Ben, ac y cawsant dangnefedd. Ac ar ôl hynny, cloiodd Mary y drws.

Roedd ei ddull o adrodd yr hanes yn debyg i un yn darllen adnodau o'r Beibl.

DRAENOG

Tra'n clirio o gwmpas tŷ a brynwyd ganddo yn Llanberis, dringodd tafarnwr adnabyddus i ben coeden — a llifio'r brigyn yr oedd yn eistedd arno — rhyngddo fo a'r bôn!



GWASG CARREG GWALCH

Capel Garmon, Llanrwst, Gwynedd
☎ 06902 261

Dwy gyfrol gan Dewi Tomos
STRAEON GWYDION
Chwedlau gwerin o Ddyffryn Nantlle a'r cych; lluniau gwych gan Angharad Tomos — £2.50

CRWYDRO BRO LLEU
16 taith gerdded yn y fro — £2.90
GAWN NI STORI? — 3

Chwe stori werin o Gymru wedi'u hail-ddweud gan John Owen Huws — £2.20
MAE'R BYD YN TROI
Llyfr natur gan Twm Elias gyda'r lluniau'n cychdroi. Ysblennvdd! — £4.95

Straeon Gwerin y Gwledyda
Lluniau lliw ar bob tudalen — £3.25 yr un.
Y Crwban a'r Goeden Ryfeddol
Ticatu, yr Esgimo Bach Dewr
Y Gwningen yn Cipio'r Tân
GALW YN ÔL

Mwy o atgofion Nel Bach Lôn Glai.
Llawer o hen luniau o gylch Llanrug — £2.50.
CALON GRON A THRAED CATHOD

Y saer gwlad o Ysbyty Ifan — Huw Selwyn
— yn rhannu cyfrinon ei grefft. Llyfr
Llafar Gwlad — £1.75
DYCHWELIAD Y DERYN MAWR
Ysgrifau gwreiddiol iawn
John E. Williams — £2.90
Hefyd... **Llafar Gwlad Rhif 28**

HWYL HAF '90

Pnawn Sadwrn,
Mehefin 23 o 1.30
ymlaen
Allt Ddu, Dinorwig
Stondinau, gemau, gwisg
ffansi, hufen ia
Mynediad: 40c (Oedolion)
20c (Plant)
Pnawn llawn hwyl
Cofiwch ddod!



YSTORFA MINFFORDD STORES
GAETHRO
GAERNARFON
YR HEN BOST 1887-1987
AR TYRPEG 1817-1886

Nwyddau Groser
Prynwyr a Gwerthwyr Hen Bethau

Castell Cidwm



Dewch i gael bwyd ym Mwyty'r Pysgotwyr, GWESTY CASTELL CIDWM ar lan Llyn Cwellyn. Cognition Prydeinig, yn gynnil o wahanol. Gwinnoedd diddorol. Tân Coed. Clustogau Cyfforddus. Golygfeydd Hardd. Lle rhagorol i ymlacio.

Betws Garmon, Ffôn: Waunfawr 243

DEINIOLEN

GOHEBYDD: W. O. Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

CYNGOR EGLWYSI: Cynhaliwyd cyfarfod arbennig yn Eglwys Llanddinorwig, nos Lun, 14 Mai, i lansio Wythnos Cymorth Cristnogol, 1990. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parch John Pritchard, a chymerwyd rhan gael aelodau gwahanol Eglwysi'r Cyngor.

Trafodwyd neges gan y Parch Dewi Ll. Lewis (Ysgrifennydd Gogledd Cymru, Cymorth Cristnogol), ar thema'r Wythnos am eleni, sef 'Y Byd yw ein Cymuned'.

Dymuna'r Cyngor ddiolch i'r pentrefwyr am eu croeso i'r casglyddion a fu'n curo wrth eu drysau yn ystod yr wythnos. Ni wyddys gyfanswm y casgliad ar hyn o bryd, ond hyderir y bydd yn cymharu'n ffafriol â chasgliadau'r gorffennol.

Neilltuwyd amser ar derfyn y cyfarfod uchod i dalu diolch diffuant i'r Parch Erfyl Blainey, am ei wasanaeth a'i gefnogaeth difflino i'r Cyngor dros gyfnod maith o flynyddoedd. Y Parch John Pritchard fu'n lleisio gwerthfawrogiad i Mr Blainey am ei gydweithrediad parod a hapus yng ngwaith y Cyngor.

Wrth gyflwyno rhodd fechan i Mr Blainey ar ran y Cyngor, dymunwyd iddo flwyddi lawer o iechyd a hapusrwydd yng nghwmni ei briod a'i deulu.

Wrth gydanbod y dymuniadau da a'r rhodd fechan, addawodd Mr Blainey na fyddai'n cadw yn ddieithr o gyfarfodydd y Cyngor pan fyddai amgylchiadau yn caniatáu iddo ymweld â ni.

TYSTEB MR EAMES: Fel mae'n hysbys i lawer bellach, mae Mr W. J. Eames wedi ymddeol o'i swydd fel Prifathro ysgol Gwaun gynfi ar ddiwedd mis Ebrill eleni ar ôl 22 mlynedd o wasanaeth trylwyr a didwyll iawn.

Mae tysteb ar agor ar hyn o bryd gyda'r bwriad o anrhegu Mr Eames ar ddyddiad i'w benodi'n ddiweddarach.

Mae gwir goeso i bawb hoffa gyfrannu at y dysteb i wneud hynny drwy gysylltu â Mrs Einir Wyn Williams neu Mrs Beryl Griffith yn yr ysgol erbyn dydd Gwener, Mehefin 15, fan bellaf.

DEINIOLEN F.C. CLWB 200: Tynnwyd yn y Wellington, Gwener 11 Mai. Yr enillwyd oedd — £80:

Debbie (Rhif 51); £40: Glo, Llanberis (Rhif 124).

Diolch i bawb am eu cefnogaeth. **CLWB PELDROED HŶN:** Cynhelir noson wobrwyo'r Clwb nos Fercher, Mehefin 6, am saith o'r gloch yn Neuadd Ysgol Gwaun Gynfi. Buasai'r Pwyllgor yn hoffi estyn gwahoddiad i bawb a fu'n cefnogi'r Clwb ar hyd y flwyddyn, a hefyd y rhai sydd wedi cyfrannu mor hael i gronfa'r Clwb.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Fai 1, dan arweiniad Mrs J. Eirlys Williams, y llywydd. Darllenwyd y llythyr misol a chroesawyd y wraig wadd, Mrs Enid Crocombe y V.C.O., fu'n trafod y penderfyniadau sydd i'w trafod yn yr AGM yn Llundain ym mis Mehefin. Diolchwyd i Mrs Crocombe gan Mrs J. Eirlys Williams.

Rhodddwyd y te gan Mrs Alwen Jones a Mrs Eileen Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs Eirlys Lloyd Jones.

Bydd y cyfarfod nesaf ar fehefin 4, pryd y bydd Moes a Phryn, sef 'Bring and Buy'.

CLWB ELIDIR: Cafwyd cyfarfod ar Ebrill 24, pryd y treuliodd y prynhawn yn trafod gwahanol faterion. Gwesteion y te oedd Mrs Mair Lewis, Mrs Betty W. Davies a Miss Lizzie Thomas. Rhodddwyd y raffl gan Mrs Mair Lewis ac fe'i enillwyd gan Mrs Jane C. Hughes. Rhodddwyd raffl arbennig i godi arian tuag at y Clwb gan Mrs Mary Morris, a'r enillydd oedd Mrs Mair Lewis.

Anfonwyd dymuniadau'r Clwb am wellhad buan i Mrs Idwen Thomas, ac yr oedd yn ddrwg iawn gennym glywed am ddamwain Mrs Mary Thomas yn y Cartref ym Mhenisarwaun a hithau i fod i ddod yn ôl gartref.

Dymunwyd penblwydd hapus i Mrs Mary Morris a chydymdeimlwyd â Mrs Pat Evans ar golli brawd a chwaer yng nghyfraith o fewn pythefnos i'w gilydd. Estynnwyd croeso i Mrs Katie Williams i'n plith.

Cafwyd cyfarfod arall o'r Clwb ar Fai 7 pan ddiwyrrwyd ni gan Mrs Pat Evans a Mrs Edna Coles. Gwesteion y te oedd Mrs Annie M. Morris, a Mrs Idwen Thomas. Rhodddwyd y raffl gan Mrs Annie

M. Morris, ac fe'i enillwyd gan Mrs Megan P. Morris.

Cydymdeimlwyd â Mrs Jennie Williams ar golli ei brawd a Mrs Hannah J. Thomas ar golli brawd yng nghyfraith. Yr oedd yn ddrwg iawn gennym glywed am y ddamwain a ddigwyddodd i Mrs Ellen Williams. Gwellhad buan i chwi Mrs Williams. Rhodddwyd croeso i Mrs Margaret Matthews atom.

MERCHED Y WAWR: Yng nghyfarfod mis Ebrill daeth Angharad Huws, Bethesda, i siarad am fwydydd iach. Yna, gwnaeth amrywiaeth o wahanol fwydydd. mwynhawyd y noson a chafodd yr aelodau brofi'r bwydydd ar y diwedd. Diolchwyd i Angharad gan Mrs Buddug Jones.

Enillydd y raffl oedd Iona Richards. Rhodddwyd y te gan Mrs J. C. Hughes a Mrs Gwladys Jones.

Cafwyd noson ddifyr yn ein cyfarfod ym mis Mai yng nghwmni Mr Hywel Evans, gweinyddwr Antur Waunfawr. Dangosodd Mr Evans sleidiau o'r gwaith a wneir yn yr Antur a rhoi dipyn o'i hanes. Diolchwyd iddo gan Mrs Eirlys Williams. Hefyd yn bresennol yn y cyfarfod roedd Mrs Meira Roberts, trefnydd Gwynedd o Ferched y Wawr. Mae Mrs Roberts yn ymweld â phob cangen yn ei thro.

Rhodddwyd y te gan Mrs Eirwen Roberts a Mrs Jane Thorman Jones. Enillydd y raffl oedd Mrs Peri Evans.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Fehefin

18. **DIOLCH:** Dymuna brawd a chwiorydd y diweddar Mr William Rowlands (Wil Gorlan) ddatgan eu diolch cywiraf i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth.

Diolch am ofal meddygon Deiniolen a hefyd i Charge Nyrs Tom Jones am ei gefnogaeth ddiffuant.

Derbyniwyd rhoddion er cof, o £285, sydd wedi eu trosgwlyddo i Glinig Deiniolen. Diolch o galon i bawb.

MENTER NEWYDD: O fis Medi 1990, bydd Ysgolion Sul Cefn y Waun, Disgwylfa ac Ebeneser yn uno dan yr enw Ysgol Sul Unedig Deiniolen.

Cynhelir yr Ysgol Sul yn festri Ebeneser, gan gychwyn ar ddydd Sul, Medi 9, am 2 o'r gloch.

Bydd dosbarthiadau ar gyfer pob oed, o'r plant lleiaf sy'n mynychu'r Ysgol Feithrin, hyd at y pentrefwyr hynaf. Pwysleiswn fod y gwahoddiad i ymuno i bawb, nid i aelodau'r Ysgolion Sul a'r capeli yn unig.

Cychwyn y fenter oedd pryder am fod y niferoedd sydd yn mynychu Ysgolion Sul y pentref yn mynd yn llai bob blwyddyn. Ond ni cheir llwyddiant heb fentro, ac estynnwn wahoddiad cynnes i chwi bentrefwyr, yn blant, oedolion ifanc a hŷn, i ymuno yn y fenter: Dowch i'r Ysgol Sul yn yr hydref.

GWRAIG TŶ YN TRIO CYNILO

Mae Mrs Thatcher yn dweud wrthym am gynilo, a byw yn debyg i'r Oes Fictoraidd, ond ni ddywed wrthym sut y gallwn efo prisiau popeth yn codi.

Mae'n wir nad ydym mor ddarbodus ag oedd ein mamau a'n neiniau, ond mae yna bethau bach allem wneud yn y gegin. Er enghraifft, y diwrnod o'r blaen, dywedodd rhywun wrthyf am dorri 'Brillo Pad' yn ei hanner. Cadw un darn hyd y tro nesaf. Mae'n gweithio'n dda, gan eu bod yn difetha yn fuan ar ôl eu defnyddio.

Cyngor arall a gefais oedd: Peidiwch â bod yn rhy falch i fynd i Ffair Sborion. Mae bargeinion i'w cael, yn enwedig mewn dillad. Pobol wedi mynd yn rhy dew i wisgo ffrog a gafodd ddwyb flynedd yn ôl, fel newydd, ac wrth gwrs dillad plant, sy'n

tyfu allan ohonynt yn fuan iawn

Beth am arbed dipyn bach o bres, nid trwy eu cadw mewn hen ornament neu jwg, neu hyd yn oed bot jam. Mae hyn yn annog pobol i dorri i mewn. Gwell o lawer eu rhoi yn y Banc neu Gymdeithas Adeiladu i ennill Llog.

Beth am arbed dipyn yn yr ardd! Mae llinyn i ddal blodau yn ddrud iawn i'w brynu. Os oes gennych hen sannau (tights), — eu torri yn ddarnau rhyw fodfedd o led, yna byddant yn gryf i ddal planhigion i fyny, a ddim y rhy galed.

Efallai y bydd gan rywun arall syniadau i gynilo dipyn. Hwyl!

**Wavell
Roberts**

CIGYDD

**LONDON HOUSE
LLANRUG**

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist

**MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!**

**CARPEDI
GLÂN!**

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf
modern, diweddaraf, sydd
ar gael. Am fanylion
cysylltwch â

TEGID

PRITCHARD

**CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291**

Hefyd ail-osod carpedi

**GWILYM H.
WILLIAMS**

**BRYN DAIRY
2 BRYNHYFRYD**

BETHEL

Ffôn

Port Dinorwig 670786



Llefrith
Llaeth Porfa
Llaeth heb Hufen
Wyau, Tatws
Diodydd
Ffrwythau

**OSMOND SHAW
DEINIOLEN**

GWERTHU

- TRWSIO

★ Teledu

★ Fideo

★ Offer Trydan

Gwasanaeth

Ffôn 24 awr

LLANBERIS 870545

BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580



Rhai o blant Ysgol Sul Brynrefail M.C. a dderbyniodd wobrau yng Nghymanfa Dosbarth Padarn.

EGLWYS M.C. BRYNREFAIL: Nos Sul, Ebrill 23 cafwyd oedfa fendithiol dan arweiniad rhai o chwirydd yr Eglwys. Cymerwyd rhan gan Mrs Gillian Morris, Mrs Jennie A. Roberts, Miss Annie M. Williams a Mrs Ifanwy Jones. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mr Richard W. Evans, a'r organydd oedd Miss Lowri P. Roberts.

Yn ddiweddar datganodd nifer o chwirydd yr Eglwys eu dymuniad i ail-sefydlu eu Cymdeithas a chynnal cyfarfodydd yn fisol. Llawenydd felly ar nos lau, Mai 10 oedd cael y cyfarfyddiad cyntaf pryd y daeth nifer helaeth at ei gilydd. Agorwyd y cyfarfod dan arweiniad Mrs Gillian Morris a threuliwyd y gweddill o'r noson yn trefnu ar gyfer y dyfodol.

Penderfynwyd y bydd y gymdeithas yn cyfarfod ar y nos lau cyntaf o bob mis o hyn i'r Hydref, ac eithrio mis Awst. Trefnwyd chwirydd i fod yn gyfrifol am y defosiwn ynghyd â siaradwyr gwadd.

Hyfrydwch oedd gweld Miss B. E. Owen yn bresennol wedi cryfhau yn ddigon da ar ôl y ddamwain a gafodd yn ddiweddar, ac unwaith eto yn dilyn y moddion ar y Sul.

Swyddogion y Gymdeithas am y tymor fydd — Llywydd: Mrs Gillian Morris; Ysgrifennydd: Mrs Ifanwy Jones; Trysorydd: Mrs Verna Jones.

Paratowyd lluniaeth gan Mrs Ifanwy Jones a Miss Lowri P. Roberts. Gwnaed casgliad dan nawdd y Gymdeithas tuag at y Genhadaeth yn ystod mis Mai a chasglwyd y swm anrhydeddus o

£70.25 a drosglwyddwyd i Drysorydd Cyfeisteddfod Chwirydd Arfon. Diolch yn fawr i holl aelodau'r Eglwys am eu cyfraniadau.

CYMANFA DOSBARTH PADARN: Llongyfarchiadau i blant Ysgolion Sul Brynrefail M.C. ar eu llwyddiant yng Nghymanfa'r Dosbarth a gynhaliwyd yn Rehoboth, Nant Peris, ar Fai 6. Derbyniodd Amy Lambert, Rhian Davies, Rhian Owen, Iestyn Williams, Rhys Morris a Llŷr Morris wobrau am eu gwaith ym maes yr Arholiad Llafar.

CRONFA APÊL EISTEDDFOD YR URDD: Yn dilyn y Daith Gerdded Noddedig a gynhaliwyd nos Lun, Ebrill 2, gwnaed elw o £275. Bu hyn yn fodd i chwyddo'r gronfa i'r cyfanswm terfynol o £585.38. Mae'r Pwyllgor yn wir ddiolchgar i bawb fu ynglyn â threfnu a chefnogi y gweithgareddau lleol dros y misoedd diwethaf.

TRIP BLYNYDDOL: Bydd y Trip Dirgel Blynyddol dan nawdd Eglwys M.C. Brynrefail yn cael ei gynnal nos Wener, Gorffennaf 6. Cychwynir o'r Bont am 6 o'r gloch. Enwau rhag blaen os gwelwch yn dda i Mrs Jennie Roberts, Glandŵr. **PENODIAD:** Llongyfarchiadau i Mr Gwyn Mowll, Bryn Llwyd, prifathro presennol Ysgol Gynradd Nantlle, ar ei benodiad yn ddiweddar yn Brifathro Ysgol Gynradd Rhosgadfan.

HELFA DRYSOR: Cofiwch am yr Helfa Drysor flynyddol dan nawdd Cyndeithas Weithgareddau'r Pentref. Bydd y trefniadau eleni yng ngofal Mrs Anita Long a Mrs Carol Houston. Os na fuoch y llynedd, beth am ddod eleni? Bydd

yr Helfa yn cychwyn o'r Bont am 6 o'r gloch, nos Sadwrn, Mehefin 23.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Yn ystod mis Ebrill cyfarfu'r gangen dan lywyddiaeth Mrs Pat Jones, wythnos yn ddiweddarach nag arfer oherwydd gwyliau'r Pasg, ar Ebrill 23.

Treuliwyd y noson yng nghwmni Mrs Anita Long, Tan yr Onnen. Cafwyd noson ddiddorol dan ei chyfarwyddyd yn paratoi pedair reset yn defnyddio cynhwysion ffres yn ogystal â defnyddiau hwylus sydd yn arferol ar gael yn y pantri neu'r rhewgell — cawl tomato ac oren, pysgodyn gwyn veronique, mousse mefus a fflan ffrwythau. Cyflwynwyd y fflan fel gwobr ar y terfyn ac fe'i henillwyd gan Mrs Mair Jones.

Croesawodd y Llywydd bedair aelod newydd, sef Gwenllian Edwards, Gwenda Thomas a Glenda Morris o Lanrug a Gwawr Morris, Griolen, Stad Erw Nant.

Paratowyd lluniaeth gan Carol Houston a Jennie Roberts. Enillydd gwobr y mis, rhoddedig gan Mair Jones oedd Audrey Hasson. Talwyd gair o ddiolch gan Jennie Hughes.

Nos Fercher, Mai 16, bu nifer o'r aelodau mewn noson gymdeithasol yng ngwesty'r Royal, Caernarfon yn dathlu achlysur sefydlu Sefydliad y Merched.

Cynhaliwyd cyfarfod mis Mai o'r gangen nos Lun y 21ain, pryd y trafodwyd argymhellion ar gyfer Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol Sefydliad y Merched yn Llundain dan arweiniad y llywydd, Mrs Pat Jones. Cynrychiolir y gangen yn y Cyfarfod Blynyddol ar Fehefin 7 gan Mrs Audrey Hasson a disgwylir adroddiad ganddi o'i hymwelid nos Lun, Mehefin 11.

Darparwyd y te gan Mrs Jean Davies a Mrs Mair Jones. Diolchwyd iddynt gan Mrs Eirlys Williams. Enillydd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Hasson oedd Mrs Gwenllian Edwards. Cafwyd gair o ddiolch cyffredinol ar y terfyn gan Mrs Jennie Hughes.

Nos Lun, Mehefin 18 bydd y gangen yn ymweld ag Antur Waunfawr a threfnir lluniaeth ar derfyn yr ymweliad.

Fel ymdrech i godi arian i'r gangen lleol, bydd yr aelodau yn cynnal Barbeciw nos Lun, Gorffennaf 16. Bydd tocynnau ar werth maes o law. Croeso cynnes i bawb o'r pentrefwyr i'r noson arbennig hon.

CYMANFA YSGOLION SUL DOSBARTH PADARN

Cynhaliwyd y gymanfa yn Capel Rehoboth, Nant Peris pwna a nos Sul, Mai 6. Arweinydd y gan oedd Mrs Glenys Griffiths, Bethel, a'r organydd oedd Mr Hugh Peris Pritchard, Capel Coch. Llywyddwyd cyfarfod y prynhawn gan y Parch D. J. Pritchard, Llanberis a Deiniolen a chyfarfod yr hwyr gan Mrs D. J. Pritchard.

Roedd gwasanaeth dechreuol y prynhawn yng ngofal plant Ysgol Sul capel Coch ac yn ystod cymanfa'r hwyr cafwyd eitemau gan Clychau'r Grug.

Dyma ganlyniadau'r Arholiad Llafar: **dan 4 oed:** 1, Lois Wyn Hughes a Ffion Williams, Cysegr; Iwan Jones a Mathew Lloyd Roberts, Capel Coch. **Dan 5 oed:** 1, Rhian Owen a Amy Lynne Roberts, Brynrefail; Sioned Haf Williams, Capel Coch; Gwen Rowlands ac Iwan Morris, Cysegr. **Dan 6 oed:** 1, Aled Vaughan Roberts, Owain Siôn Williams, dafydd Emrys, Sara Morgan, Arwyn Owen a gwenan Jones, Cysegr; 2, Iestyn Williams, Brynrefail. **Dan 7 oed:** 1, Ifan Rowlands, Cysegr; 2, Llŷr Griffith Morris, Brynrefail.

Dan 8 oed: 1, Mari Wyn Williams, Capel Coch; Sioned Catrin Davies a Robin Gwyn Owen, Cysegr; 2, Lara Davies, Cysegr. **Dan 9 oed:** 1, Gwynfor Jones, Delyth Wyn Morris, Catrin Roberts, Bethan Williams, Laura Millican, Llinos Mair Williams, Rebecca Hall, Kelly Williams, Annest Williams, Meilyr Emrys, Gerallt Hughes, Dewi Griffiths a Bethan Fôn Jones, Cysegr; 2, Rhys Griffith Morris, Brynrefail.

Cyd-adrodd dan 9 oed: 1, Parti Bethan a Parti Rebecca, Cysegr. **dan 10 oed:** 1, Lowri Williams, Catrin Angharad Roberts, Richard Charles Parry, Dafydd Thomas Jones a Dyfan Elis, Cysegr; 2, Rhian Wyn Davies, Brynrefail; 3, Bethan Ffowcs Williams, Disgwylfa. **Dan 11 oed:** 1, Carwyn John Morris a Rhodri Roberts, Cysegr; Sara Pepper, Capel Coch; 2, Gethin John Davies, Cysegr; Elinor Gray Williams, Capel Coch; 3, Richard Davies, Cysegr.

Dan 12 oed: 1, Catrin A. Hughes, Gwenan Elis a Llinos Wyn Morris, Cysegr. **dan 13 oed:** 1, Llinos Angharad Morris, Cysegr; 2, Nia Elin Davies, Cysegr. **Dan 14 oed:** 1, Menna Dauncey Williams, Cysegr.

Dan 15 oed: 1, Sioned Meleri Owen a Ruth Wyn Parry, Cysegr. **Dan 50 oed:** 1, Mrs Nora Parry a Myfanwy Wyn Jones, Cysegr.

Cydadrodd dan 11 oed: 1, Parti Dyfan, Cysegr. **Cydadrodd dan 18 oed:** 1, Parti Sobin a'r Smaellid, Cysegr.

Carai'r pwyllgor ddiolch yn fawr i Gapel Rheoboth am dderbyn y Gymanfa ac i'r merched am ddarparu te ardderchog. Diolch yn fawr i Mr Hugh Peris Pritchard am ei waith fel organydd ac i Mrs Glenys Griffiths am arwain y gân a dod â Côr Clychau'r Grug gyda hi i ddiddanu'r gynulleidfa. Yn olaf, diolch i bawb a ddaeth i Gapel Rehoboth i'n cefnogi ac i gymryd rhan yn enwedig plant Ysgol Sul Capel Coch.

Am wasanaeth fframio cyflawn — LLUNIAU TYSTYSGRIFAU, TAPESTRI:-

ELWYN PRITCHARD
Fframwr Lluniau/
Telynu Gwynedd
Parc Padarn
LLANBERIS

870922 neu Bangor 351427
cesglir a danfonir i'ch
cartref os dymunwch :-

**CRIB
COCH**

**Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon
76772**

TRIN GWALLT I
BAWB O'R TEULU
GAN JEN

Ffoniwch neu galwch
i drefnu amser

Emyr Jones

**PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI**

**Cynnal Boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau**

**44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 3513**



CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, 'Glanrafon' (872275)

CYMANFA'R ANNIBYNWYR: Cynhaliwyd Cymanfa'r Annibynwyr, Dosbarth Cwm y Glo yng Nghapel Ebeneser, Deiniolen, dydd Sul, Ebrill 22.

Yn y prynhawn yng nghyfarfod y plant dan lywyddiaeth Miss Jean Parc Jones, cymerwyd rhan gan blant eglwysi Nant Padarn, Bosra, Ebeneser, a pharti Merched eglwys Jerusalem. Yr organyddes oedd Mrs Nest Evans a thraddodwyd y fendith gan y Parch John Pritchard.

Yng nghyfarfod yr hwyr dan arweiniad Mr John Jones a Miss Jean Parc Jones wrth yr organ, cafwyd deuawd gan Mrs Lola Evans a Mr Bob Lloyd ac anerchiad gan y Llywydd, Mrs Valmai Pritchard.

Diolchwyd i bawb am waith canmoladwy i lwyddiant y Gymanfa gan Mrs Pritchard a thraddodwyd y fendith gan y Parch John Pritchard.

PRIODAS ARIAN: Llongyfarchiadau calonnog i Wyn ac Iris Rowlands, Glanrafon, ar achlysur eu priodas arian ar Fai 8.

DIOLCH: Dymuna Megan a Jack Jones, 21 Dôl Afon ddiolch o galon i'w teulu a'u ffrindiau am y llu cardiau, blodau, arian ac anrhegion gwerthfawr ar achlysur eu Priodas Sapphire (45 mlynedd). Diolch hefyd i Cledwyn a Susan am y cinio annisgwyladwy yn y Bedol, lle roedd y teulu i gyd wedi ymgynnull.

LLONGYFARCHIADAU: i Mr John Charles Jones ar ddathlu ei ben blwydd yn 70.

DIOLCH: Dymuna Mr John Charles Jones, 21 Dol Afon, ddiolch i'w deulu a'i ffrindiau am y llu cardiau (bron gymaint a'i oed), arian ac anrhegion ar achlysur ei ben blwydd yn 70. Diolch yn arbennig i'r plant am y parti annisgwyl yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis, lle roedd dros ddeg ar hugain o'i deulu a ffrindiau agosaf wedi dod ynghyd. Diolch yn fawr i bawb.

ADREF O'R YSBYTY: Dymunwn wellhad buan i Mrs Eluned Hughes, Hyfrydle, ar ôl ei thriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

YN YR YSBYTY: Anfonwn ein cofion gan ddyddio gwellhad buan i Carys Williams, Bryn, Mrs Jean Henness, Groeslon, a Mrs Joan Ware, Swyddfa'r Post, sydd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

DIOLCH: Dymuna Hugh a Glenys Pritchard, Bryn Gwynedd, ddiolch o galon i'w teulu a ffrindiau am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu priodas aur.

Dymuna Wyn ac Iris Rowlands, Glanrafon ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas arian.

CERDDOROL: Llongyfarchiadau i Catrin Gwyn, Min y Nant, ar ei llwyddiant ar Fai 8 mewn arholiad canu'r piano Gradd 7, gyda chlod. Cynhaliwyd yr Arholiad dan nawdd Coleg y Drindod, Llundain.

DIOLCH: Dymuna Mrs Eluned Hughes, Hyfrydle, ddiolch i bawb am y caredigrwydd a'r dymuniadau da a ddangoswyd iddi yn ystod ei arhosiad yn Ysbyty Gwynedd.

BINGO: Cynhaliwyd noson lwyddiannus iawn o Bingo yn y ganolfan ar nos Fercher, mai 16, yr elw a wnaed oedd £248 tuag at y Gateway Club. Diolch i bawb a gymerodd ran mewn unrhyw ffordd i wneud y noson mor llwyddiannus.

Enillwyr y rafflau — Toiletries: Eirianfa, Cwm-y-Glo; 'Brush set': Siân, 2 Dolafon; Potel Win: Lucy, 5 Bryn Crwn; Potel Sieri: 30 Maes Padarn, Llanberis; Potel Wisgi: H. Morris, Tanygraig; Potel Win: Carl, 7 Dôl Afon; Potel Sieri: Lloyd Owen, 3 Maes Gerddi; Potel Sieri: Marjorie Roberts, Bod Gwilym; Hamper: Allan Jones, Mona; 'Babycham': Mrs E. Morris, Hafan; Lluniau: Marjorie Roberts, Bod Gwilym; Powlen Siwgwr: Mrs Watkins, Dolwen; 'Bathroom Collection': Iwan, Brynhyfryd; Talc: Mrs Roberts, Llanberis; Persawr: Linda Parry, Glandŵr; Talc: Bethan Hughes, 17 Dolafon; Gwydrau: Meira Williams, Goleufryn; Brut 33 a Desgl Wydr: Delyth Ann Roberts, Glasfryn; Bag 'Make-up': Linda Parry, Glandŵr; 'Sardine Set': Marjorie Roberts, Bod Gwilym; Canhwylbren: Mrs Dilys Jones, Brynhyfryd; 'Matchmakers': Mrs Mair Williams, Elidir View; Pink Panther: Mr Idwal Williams, Elidir View; Tegan Meddal: Mrs E. Morris, Hafan; Eliffant: Mrs Roberts, 16 Glanmoelyn; 'Tray': Ann Jones, Llanberis; 'Sachet o herbs': Sandra Jones, Dolafon; Sannau: Veronica Williams, Glanbogelyn; Sebon: Mrs

E. Morris, Hafan; Cloc: Lloyd Owen, 3 Maes Gerddi; Cant o Lo: Mrs Watkins, Dolwen; Cylllell electric: Lloyd Owen, 3 Maes Gerddi.

CLWB POBL Y CWM: Gyda Mrs Enid Price yn galw, cafwyd pawns o Bingo ar Ebrill 19. Rhoddwyd y baned a'r Raffl gan Mrs K. Watkins a Mrs G. Chick.

Enillydd y raffl oedd Mrs Price, a'i troes yn ôl i elw'r clwb.

Ar Fai 3, drwg oedd gan yr aelodau ddeall am waeledd Mrs Eluned Hughes, a'i bod yn yr ysbyty. Dymuna pawb wellhad buan iddi, gan anfon eu cofion cynnes ati. Oherwydd gwaeledd ei briod, methodd Mr Llew Hughes, y Llywydd, a bod yn bresennol.

Miss Amelia Jones a'i chwaer Miss M. L. Jones o Gaernarfon ddaeth i gadw cwmni i ni, a difyr oedd clywed Miss Ameila Jones yn sôn am lawer o'r gwledydd y treuliodd ei gwyliau ynddynt, gan ddwyn i gof sawl tro trwstan.

Diolchodd Mr R. H. Parry i Miss Jones am sgwrs ddifyr, ac am ei rhodd i'r Clwb. Y gwestwagedd oedd Miss E. Hughes a Mrs M. Parry. Enillwyd y raffl gan Miss M. L. Jones.

Ar Fai 14, da oedd gweld ein Llywydd yn ôl a deall fod Mrs Hughes gartref ac yn gwella.

Buom yn gwrandao ar ddarlith a drafodwyd i Gymdeithas Lenyddol yn Niwbwrch gan y diweddar Mr Charles Williams, Bodffordd, ar y testun 'perlau'r Pulpu'. Rhwng dawn dweud Mr Williams a rhai o wir berlau y Pwlpud gynt, roedd y ddarlith yn werth ei gwrandao, a theimlem i gyd chwithdod o golli Mr Williams.

Roedd y baned a'r raffl yng ngofal Mrs K. Watkins a Miss E. Hughes. Enillwyr y raffl oedd Mr Russell Rowlands a Mrs Glenys Pritchard.

YSGOL GYMUNED CWM Y GLO: Y Disgo Nos sadwrn, mai 12, roedd yna ddisgo yn neuadd Ysgol Cwm y Glo. Digwyddodd llawer o bethau, er enghraifft, lliwio gwallt, 'lucky dip', dawnsio a chanu, raffl a dyfalu faint o bys mewn potel. Casglwyd £66.69 i gyd a rhannwyd y cyfanswm rhwng Apêl Cancr a'r ysgol. Trefnwyd y disgo gan Bryn E., Martin P., Tony R., David W. Diolch i Mrs V. Williams (mam Donna), Mrs E. Hughes (mam Bethan), Mrs L. Parry (mam Martin), Mrs D. Evans (mam Bryn), Mrs C. Wager (mam David), Mrs A. Roberts (mam Tony) a Mr J. R. Williams, prifathro yr ysgol a taid

David (Mr C. Wager).

Diolch i bawb am ddod a rhoi pres i achos da. Gobeithio bod pawb wedi mwynhau eu hunain. **Ras Noddedig.** Rheddodd Paul Pointer, Robert Shaw a Glyn Price o Bwlch (tŷ Robert) dros Clegir i Lanberis, ac yn ôl i Frynrefail (tŷ Paul) i hen arian at Ward y Plant Bach, Ysbyty Gwynedd, Bangor. Ar Ebrill 10 (dydd Mawrth) y bu'r rhedeg a chasglwyd £50.

Ar Fai 15, aethant i Ysbyty Gwynedd lle gwelsant fabi yn cael llefrith o botel. Gwelsant eraill mewn ystafelloedd eraill yn y gwely. gwelsant yr ystafell chwarae hefyd (lle cafodd llun un ohonynt ei dynnu). Yr oedd yna luniau o blant oedd wedi bod yn aros yno ar y wal.

Diolch i bawb am ein helpu ac i Mr a Mrs Shaw am fynd a ni yno yn y car.

NODYN: Mae'r Gohebydd Lleol yn sefyll uwch fy mhen yn disgwyl, a'i llaw ar agor, am yr adroddiad misol. Ond och ac ow! mi rydw i wedi anghofio a does 'na ddim amser i sgwennu un a phwyllgor pwysig ar fin cychwyn.

Daliwch eich gwynt ac fe gewch y sgandals i gyd mis nesa! **PWYLLGOR APÊL YR URDD — CRONFA CWM Y GLO:** Diolch i bawb a gyfrannodd tuag at Gronfa Eisteddfod yr Urdd, Dyffryn Nantlle ac Arfon 1990. Mae'r pentref wedi cyrraedd dros y nod drwy gasglu £925 dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae Swyddogion Pwyllgor Apêl yr Eisteddfod yn dymuno diolch i'r pentref am eu hymdrech. mae mantolen o'r gwahanol gasgliadau ar gael yn yr ysgol.



Sefydlwyd Arianrhod i fuddsoddi mewn eiddo yng Ngwynedd ac i hybu pobl leol i sefydlu ac ehangu busnesion. Bwriad y cwmni yw prynu mwy o eiddo yn y dyfodol agos a'i osod ar rent teg i alluogi pobl leol i gynnal busnes yng Ngwynedd.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Bethan Wyn Jones, Arianrhod Cyf., Cae Chwarel, Talwrn, Llangefni, Gwynedd LL77 7TF. Ffôn (0248) 723510.

TAC SIS BETH EL

UNRHYW AMSER - UNRHYW BELLTER

Ffôn: (93) 670555

Bistro

43-45 STRYD

FAWR

LLANBERIS

Ffôn: 871278



CURIAD CALON CYMRU

hefyd yn ystod y dydd

Bistro Bach

Y MAES

CAERNARFON

Ffôn: 673075



CURIAD CALON CYMRU

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr.

CROESO ADREF o Blas Pengwaith, Llanberis, i Miss Kate Humphreys, Bro Waun.

YN YR YSBYTY: Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs M. Slaven, Stad Tref Eilian, sydd yn yr ysbty ym Mangor.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn â Mr Ellis Lloyd, Bryn Awelon, yn ei brofedigaeth o golli ei chwaer.

CROESO ADREF I'R WAUN: Roedd dathlu mawr yng nghartrefi Mrs Catherine Williams, Miss J. A. Owen, Stad Tŷ Hen, Mrs Laura Pierce, Tyn Twll, a Mr Richard Owen, Stad Bro Waun, pan ddaeth eu brawd Mr Robert Owen adref o Canada, ar ei wyliau y mis yma. Gadawodd Mr Owen Castle View am Ganada, ac y mae 35 mlynedd ers pan fu adref yn y Waun o'r blaen. Tybed faint o'i wyrion a'i wyresau sydd yn ei gofio?

DAMWAIN: Cyfarfu Mrs Williams, Dwyfor, â damwain yn ei chartref yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion cynhesaf atoch Mrs Williams.

LLWYDDIANT YN EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD: Llongyfarchiadau i Lowri Glyn, Plas Bodhyfryd, ar ddod yn gyntaf yn y gystadleuaeth gwneud pyped dan 8 oed, ac i Osian Elfryn, Coed Gwydryn, ar gael arddangos ei waith yn yr un gystadleuaeth; hefyd i Osian Gwynedd, Nant, ar ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth cyfansoddi cerddoriaeth dan 18 oed, ac i Elliw Haf Iwan, Penberth, ar ddod yn gyntaf mewn cystadleuaeth lenyddol dan 25 oed.

YMARFER: Mae amryw o aelodau'r Urdd sydd yn cynrychioli'r Waun ym Mabolgampau Cylch yr Urdd yn brysur yn ymarfer ar gyfer y cystadleuthau sydd i'w cynnal ar gae Ysgol Syr Hugh Owen, nos Lun, Mehefin 11 am 5 o'r gloch. Byddwn yn falch iawn o gefnogaeth y rhieni ar y noson os gallwch ddod, a hwyl fawr i'r plant.

PENCAMPWRIAETH PENTREFI: Ar ddydd Llun, Mai 7, cynhaliwyd Pencampwriaeth Pentrefi am y drydedd flwyddyn. Pum pentref oedd yn cymeryd rhan, sef Waunfawr, Llanllyfni, Bethel, Tregarth a Rhiwlas. Roedd 39 o gystaddeuwr o bob pentref yn cymryd rhan mewn Nofio, bowlio,

golf, rhedeg, prawf ffitrwydd, Pel droed hogiau 5 bob ochr, Peldroed merched, a rownderi.

Cafodd Waun gynta yn y 5 bob ochr hogiau a chydadd gyntaf hefo'r nofio, nid cystal gyda'r treialon eraill ond roedd pawb wedei cael hwyl.

Y flwyddyn ddiwethaf Waun enillodd y darian, ond y flwyddyn yma, ail safle oeddym gyda Tregarth yn ennill.

Bydd yn rhaid i'r tîm tynnu rhaff fwyta digon o uwd erbyn y flwyddyn nesaf er mwyn magu tipyn mwy o nerth. Cafwyd digon o hwyl a gobeithio y gallwn ennill y darian yn ôl y flwyddyn nesaf.

CLWB IEUENCTID: Ar ddiwedd tymor y Clwb fe ffarwelwyd â'r rheolwr, sef Mr Gwilym Williams, Fferm Bodhyfryd. Roedd Mr Williams wedi bod hefo'r clwb ers rhai blynyddoedd.

Fe roddwyd anrheg iddo gan yr aelodau am ei waith trwy'r blynyddoedd ac fe ddymunwyd yn dda iddo.

Fe fydd y clwb yn ail ddechrau fis Medi.

CRONFA'R GANOLFAN: Dyma restr o ennillwyr y Clwb 300 am fis Mai — £40: Mrs Rhian Ellis, Tyn Llidiart; £25: E. W. Roberts, 10 Aelybryn; £10: J. Cotton, 12 Tŷ Hen.

MERCHED Y WAWR: Nos Iau, Ebrill 26 gyda Irene Roberts yn y gadair cafwyd noson ddifyr yn edrych ar ffilm am natur sydd yn tyfu o gwmpas ein corsydd a'r mynyddoedd gan Wil Ifor Jones, Croesor. Diolchwyd iddo gan Heulwen Huws. Croesawodd y Llywydd Heulwen yn ôl wedi iddi fod yn yr ysbty, a dymunodd i'r gangen gofio at Mrs K. Hughes, Llys Meredydd, oedd wedi disgyn y diwrnod cynt.

Bydd rhai o'r aelodau yn cystadlu yn chwareon Merched y Wawr yng Nghaernarfon fis Mai. Pob hwyl iddynt.

Rhoddyd y te a'r raffl gan Llinos Cadwaladr ac fe'i enillwyd gan Mrs Annie Roberts. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fai 28.

Nos Iau, Mehefin 28 bydd trip yn mynd i Nant Gwrtheyrn. Os oes rhywun gyda diddordeb i ymuno â ni, cysylltwch ag Irene Roberts, Pant Teg (Ffôn 545). Byddwn yn

cael pryd o fwyd yno.

TRIP Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Bydd trip fin nos y Gymdeithas Lenyddol nos Fawrth, Mehefin 12, i gychwyn o'r Llythyrdy am 6 o'r gloch. Bwriedir ymweld â'r rhannau o Eifionydd y methwyd mynd iddynt y llynedd. Bydd Dyfed Evans yn ein tywys eto, y tro hwn i ymweld â'r Lôn Goed, Capel y Beirdd, a Llanystumdwy. Wedi'r daith, bydd pryd o fwyd ar gael yn un o westai'r ardal.

Dylai y rhai sy'n bwriadu dod ar y trip roi eu henwau ar unwaith naill ai i Stanley Williams, y Trysorydd, neu i Rol Williams, yr Ysgrifennydd. Gan mai un bws sydd wedi ei logi, 'y cyntaf i'r felin gaiff falu'.

Ceir rhagor o fanylion ynglyn â'r gost ar bosteri yn y siopau yn y man. Blaendal o £3 wrth roi yr enw.

LLONGYFARCHIADAU i blant yr Ysgolion Sul a gafodd wobwr yn y Gymanfa ar y Sul cyntaf o Fai.

Llongyfarchiadau hefyd i Llion Dafydd, Glanfa, ar gael canmoliaeth i'w waith yn Eco'r Ifanc y mis diwethaf.

LLONGYFARCHIADAU: i Tina Parry, 7 Bryn Golau, ar gyraedd ei phenblwydd yn 18 oed. Pob dymuniad da i ti i'r dyfodol, Tina; i Mr Griffi Williams, Monfa, ar ei benblwydd yn 80 oed; i Mrs Mai Roberts, Bodafon, ar fod yn nain. ganwyd mab bach, Owain Rhun, i'w merch Catrin a'i gŵr Eurwyn, brawd bach i Pryderi; i Mrs M. oen, Stad Tref Eilian, ar ddod yn hennain. Ganwyd mab bychan i'w hwyres a'i gŵr yng Nghaernarfon. DYMUNIADAU gorau i Mr R. Johnston, Tŷ Gwyn, ar ei ymddeoliad o'i waith gyda Butterfly Bricks yng Nghaernarfon.

ADREF O'R YSBYTY: Mae Mr Arthur Pierce, Bro Waun, a Miss Owilda Williams, Fron Llwyd, wedi gwella ac wedi cael dod adref o'r ysbty.

DIOLCH: Dymuna Miss Williams, Fron Llwyd, ddiolch i bawb a fu mor garedig yn ymweld â hi, yn ffonio ac anfon cardiau tra bu yn yr ysbty.

NANT PERIS

Gohebydd: Ann Fleming, 'Dolwen', 8 Nant Ffynnon (871457)

LLONGYFARCHIADAU i Eilian a Gwen ar enedigaeth eu merch fach, Heledd, ac i Arthur a Jenny, Pennant, ar fod yn Daid a Nain.

Hefyd i Iwan ac Einir ar enedig-aeth eu merch fach, Elin Wyn, ac i Melfyn a Prydwen am fod yn Daid a Nain.

Llongyfarchiadau hefyd i John a Caron ar enedigaeth eu merch fach, Gwenno, ac i Meirion a Rhian, Tŷ Isaf, ar fod yn Daid a Nain.

DIOLCH: Dymuna Iwan ac Einir ddiolch yn fawr i bawb am yr anrhegion a chardiau a dderbyn-iwyd ar enedigaeth eu merch, Elin Wyn.

GWELLHAD BUAN: Dymunwn wellhad buan i Mrs Marian Pritchard, Bronallt, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

GERAINT OWEN

Gosodwr carpedi a phob math o lorïau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR

Ffôn:
Waunfawr 552

GARTH MAELOG PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota

Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

CHIROPODIST
Gwasanaeth yn
eich Cartref
E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.
57 Glanffynnon
LLANRUG

Ffôn:
Caernarfon
5754

E.W.Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Arwel Roberts
3 Erw Wen,
CAEATHRO
673014

 **GLANHAWR
SIMNE**

Os yw'r llwch yn y simne
Yn drwch uwch y tân
Down atoch â phleser
l'w sgubo yn lân

Agor Ffiniau'r Gorffennol

Hanes un o Deulu Glynllifon

PEDR FARDD 1775-1845

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Cefais bleser yn ddiweddar yn chwilota hanes Pedr Fardd, neu Peter Jones, Lerpwl, fel y ceir ei enw yn y Llyfr Emytau. Ond Peter Williams oedd ei hoff enw ef ei hun.

O'r holl feirdd enwog a anwyd yn Garn Dolbenmaen, y mwyaf enwog yn fy marn i oedd Pedr Fardd. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1775 mewn bwthyn o'r enw 'Tan yr Ogof'.

Dyma enwau ei rieni, LAWRI Wyn Williams a William Jessus. Ond yng Nghofrestrydd Eglwys Garn Dolbenmaen ymddengys y canlynol: 'Jesus Jones Taylor and Lawri Wyn Williams were married' etc.

Fe ddywedir fod Robert ap Gwilym Ddu a Nicander ac Eben Fardd wedi bod yn chwilio ar ran Margaret, merch Pedr Fardd i brofi fod Lawri, mam Pedr Fardd yn un o deulu Glynllifon.

Nicander sy'n dweud y gwnaed yr ymchwiliad i brofi 'fod Margaret fy nghyfnither yn credu fod perthynas rhwng Pedr Fardd a theulu Glynllifon'.

Tybed a oes rhywun yn gwybod beth oedd y berthynas? Fe brofwyd yr hyn a gredai Margaret yn berffaith wir. Dyma dystiolaeth Pedr Fardd:

'Fe'm ganwyd o fam gynnil O fewn hon, 'rwyf un o hil'. Yn ôl yr arferiad pan oedd Pedr Fardd yn blentyn, dewisai'r plant eu cyfenwau, naill aai cyfenw eu tad neu eu mam. Dewisodd ef gyfenw ei fam a rhoddi yr enw Peter Williams o dan ei weithiau barddonol.

Yr oedd tad Pedr Fardd yn ddyn o allu uwch na'r cyffredin o safon ei oes ac anfanteision y cyfnod, ond yr oedd ei frwd-frydedd dros addysg a chrefydd yn wybyddus drwy ardaloedd cyfagos a phell.

Cadwai ysgol yn ei dŷ. Teiliwr crwydrol oedd wrth ei alwedigaeth. Yr oedd sefyllfa gymdeithasol teiliwr crwydrol yn uwch ei



PEDR FARDD

safon na'r gweithwyr cyffredin gan yr edrychid arnynt yn athrawon i addysgu plant yn ogystal a thrwsio eu dillad a chaent gymysgu gyda'r teuluoedd.

Dywedir fod tad Pedr Fardd yn un o'r blaenoriaid cyntaf yn achos y Methodistiaid yn y Garn, yn Athro Ysgol Sul yn y Capel, yn ogystal ag mewn anedd-dai lle cynhelid Ysgolion Sul. Yr oedd hefyd yn fardd galluog.

Pan yn ieuanc cyfansoddodd Pedr Fardd englyn i'w chwaer, sef mam Nicander am iddi ei orfodi i fynd i'r siop i nôl neges ar fore oer:

Fy chwaer sydd ferch daer a dig — un stormus

*Rhyw styrmant aniddig:
Er bwrw ia a barrug
Myn hon gael menyf neu gig*

Pedr Fardd

Un tro gofynnwyd i Dafydd Ddu Eryri roi arholiad ar Pedr Fardd er mwyn cael gwybod i sicrwydd mai ef ei hun oedd yn cyfansoddi ei farddoniaeth, ac nid ei dad. Gofynnodd Dafydd Ddu Eryri iddo gyfansoddi englyn megis yn fyrfyr. Y testun a gafodd oedd 'Ionawr'. Dyma ei englyn:

*Och Ionawr aml ochenaid — o'th achos,
A thuchan wna'r gweiniaid.
Cwyno herwydd ia cannaid,
Oer hin, a rhew blin o'i blaid.*

Pedr Fardd

A Oes Heddwch?

Clywais fod Pedr Fardd wedi ymgeisio am y Gadair Eisteddfodol, Porthmadog, pan oedd yn ieuanc iawn, ac iddo ennill yn ôl y beirniaid. Ond pan oedd y seremoni gadeiriol yn cael ei chynnal, yn ateb i'r waedd 'A Oes Heddwch?' dyma rywun o'r gynulleidfa yn gweiddi 'Nac Oes' am yr anheuai ddilysrwydd y bardd, ac mae hyn yn rheolaidd i unrhyw un ei wneud! Yn ôl y rheol, caniatwyd deng munud i'r bardd buddugol brofi ei fod yn deilwng o'r gadair trwy gyfansoddi englyn ar destun a roddid ar y pryd, a rhoddwyd 'Y Fynwent' yn destun iddo. Ond nid oes gennyf gopi o'r englyn hwnnw.

Cyfansoddodd lawer o emytau heb roddi ei enw wrthynt, neu efallai rhoi yr enw Pedr Williams.

Pan oedd yn ddwy ar hugain oed ymadawodd i fyw yn Lerpwl. Dilynodd ei grefft o deiliwr am gyfnod. Gweithiodd mewn masnachdy a chadw busnes iddo ei hun, ac yn athro ysgol hefyd.

Yn y flwyddyn 1800 ymbriododd â gwraig weddw ddiblant o'r enw Mrs Rachel Hughes. Ganwyd tair merch iddynt, Sara yn 1802, Margaret, 1804 ac Eunice, 1806.

Agorodd y Methodistiaid calfinaidd ddwy ysgol yn Lerpwl, sef un yn Bedford Street ac un yn Pal Mel, ar yr olaf yr oedd Pedr yn athro.

Ond nid oedd ganddo feddwl mawr ohono ei hun fel bardd. Dyma ei brofiad:

*Rhyw anghelfydd brydydd brau
O Eifionydd wyf finnau*

*Ni fu'r ddawn o farddoni — o un lles
Na llaesiad i'm cyni.
Dwy geiniog i'm digoni
O les hon ni welais i.*

Pedr Fardd

Yr Emytau

Cyfansoddodd lawer o emytau. Yr oedd yn cydoesi ag emynwyr mawr fel Ann Griffiths, David Charles, Thomas Jones o Ddinbych, Hugh Jones Maesglasau, ac Edward Jones, Maes y Plwm. Y Mae'r emyn canlynol o'i waith yn wych:

*Cyn llunio'r byd, cyn lledu'r nefoedd
wen,
Cyn gosod haul na lloer na sêr
uwchben,
Fe drefnwyd ffordd yng nghyngor tri
yn un
I achub gwael golledig euog ddyn.*

Pedr Fardd

Y mae'r emyn:

*Yn rawnwin ar y Groes
Fe droes y drain,
Caed balm o archoll ddofn
Y bicell fain.*

yn un o'i emytau mwyaf heb os.

Bu farw Pedr Fardd yn nhŷ ei ferch Sarah yn Lerpwl. Claddwyd ef ym mynwent Eglwys Sant Paul. Cafwyd caniatad yr Esgob i gynnal Gwasanaeth Angladdol Pedr Fardd yn Gymraeg. Yr oedd hyn yn rhyfeddod yn yr oes honno.


**CEFNOGWCH EIN
HYSBYSEBWYR**

**IEUAN
WILLIAMS**

**Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484**

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

FFENESTRI UPVC DRYSAU MEWN GWYN NEU MAHOGANI



Esiampl o bris a gosod

Crefftwyr profiadol yn eu gosod
Ffoniwch am bris i

**J R PRITCHARD, 14 Glanrafon,
Bontnewydd**

**Ffôn: Caernarfon 3507 (dydd neu gyda'r nos)
Croesawn ymholiadau gan fasnachwyr**

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

**CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR**

**AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.**



**DEWIS EANG O
WELYAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT
5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
MEWN STOC — ALLWCH CHI
FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?**

**Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291**

LLYFRAU LLEOL


Ar drothwy'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nglynllifon, cyhoeddir nifer o lyfrau gyda pwyslais ar y 'lleol'. Maent i gyd yn ymwneud â bro'r Eisteddfod, a'r awduron i gyd wedi eu geni a'u magu o fewn y fro honno, ac yn parhau i fyw ynddi.

DYCHWELIAD Y DERYN MAWR

I'r rhai hynny ohonoch sydd yn gyfarwydd â chynnwys 'Hen Atgofion', W. J. Gruffydd, fe gofiwch heb os am y cyfeiriadau ynddo at Gruffydd Jones y Deryn Mawr. Gŵr ydoedd hwn a arferai draethu 'storiâu celwydd golau'. Clamp o storiâu anhygoel ond hollol ddiniwed a difalais oedd rhain gydag ef ei hun yn ganolbwynt bob saga. Yn ôl yr Athro 'daeth yn rhan o adloniant naturiol a chyfreithlon ei bentref. Daeth y storiâu yn eu tro yn destunnau digrifwch mewn cabannau, tafarndai, cymdeithasau llenyddol a sgysiau conglau strydoedd. daethant i'n sylw ninnau dros y degawdau ar dafod leferydd gan 'nad oedd manteision dysg wrth ddrws Gruffydd Jones.' Ni feddodd erioed y ddawn i'w croniclo. Dawn dweud oedd prif nodwedd 'Y Deryn Mawr'. Dawn brin, dawn i'w thrysori.

Ond choelia i fyth mai dawn brinnach yw dawn y llenor sy'n gallu creu a chroniclo storiâu o'r fath.

I ddarllenwyr cyson a thrwyadl Eco'r Wyddfa, nid yw straeon o'r fath yn ddiethr, gan i'r 'Gwalch' fynnu ei ofod misol i 'balu celwydd'! Cafodd sawl un flas ar eu darllen gan edrych ymlaen yn fisol i gael pwl bach o chwerthin iach yn nhrymder gaeaf.



Casglwyd y storiâu byrion at ei gilydd gan y llenor John E. Williams ac fe osododd Gwasg Carreg Gwalch hwy yn daclus rhwng cloriau.


Mae John E. Williams wedi profi eisoes ei fod yn berffaith hapus yn y maes arbennig hwn. Profodd hynny yn ei gyfrol Storiâu'r Cyfar Main. Dyma fo eto yn bwrw iddi i oglais a thynnu coes drwy 'yr hen fachgen hwnnw sydd wedi cymryd lle y Deryn Mawr'.

Fel ag yn Storiâu Cyfar Main, mae'r un arddull yma, y ddawn i ddarlunio'r doniol, y dros ben llestri, y ddeialog naturiol ogleisiol, y portreadu lliwgar llawn hiwmor a'r cyfan yn gyforiog o idiomau a dywediadau ardal Llanddeiniolen.

Mae iaith gyfoethog John E. Williams yn plethu'r pytia gan greu cyfanwaith bleserus o'r digrif a'r dwys. Llyfr codi'r galon, llyfr chwalu'r felan, llyfr i'w drysori unwaith eto gan lenor lleol toreithiog.

Dychweliad y Deryn Mawr, Gwasg Carreg Gwalch. Pris £2.90.

A. J.



Mae ail Gyfrol Dewi Tomos ('Crwydro Bro Lleu') yn ein tywys ar hyd un ar bymtheg o deithiau cerdded yn Nyffryn Nantlle a'r cylch. Mae'r awdur yn hen law ar grwydro ac am gofnodi'r teithiau hynny. Mae cyfle yma i ddilyn ei gyfarwyddiadau a mentro allan yn ystod misoedd yr haf. Ond mae'r un mor bleserus crwydro'r llwybrau yn niogelwch cadair esmwyth a gadael i'r awdur ddisgrifio'r golygfeydd a'r rhamant sy'n perthyn i'r fro.

GALW YN ÔL

Merch o fro'r 'Eco', a hanesion am gymeriadau'r fro honno sydd yn nhrydedd cyfrol Nel Bach Lôn Glai. Y tro hwn mae'n 'GALW YN ÔL' atgofion am ei phlentyndod cynnar yn ardal Pontrug.

Cawn stôr o storiâu ganddi am hen dyddynwyr a chwarelwyr yr ardal — y rheiny oedd y dyddiau da pan oedd gwragedd yn corddi menyn cartref a'r gwŷr yn yfed te o soser. Mae yma gasgliad o gymeriadau gwreiddiol yn ogystal â hanesion am ymweliadau'r sipsiwn a John Preis, y crwydryn.

Ond yn bennaf, stori deuluol sydd yma. Stori am ferch a gollodd ei mam yn 8 oed, stori ei hymdrech i gychwyn byw gan rannu eu haelwyd yn y diwedd gyda naw o blant.

Pontrug, Llanrug, Cwm-y-Glo, bethel, Waunfawr a Chaernarfon yw ei hardal ac yn y gyfrol hon down i gyfarfod â llawer o'r ardalwyr gan rannu ar yr un pryd y doniolwch a'r dagrau a brofodd teulu Lôn Glai.

Ond yn ogystal a'r hanesion difyr a dwys, mae yma stor werthfawr o luniau hefyd — hen



adeiladau a chofebau; ond yn bwysicach fyth, pobl: cymeriadau ddoe yn eu cartrefi, gyda'u teuluoedd a'u cyfoedion. Yn y lluniau mae cofnod gwerthfawr o fywyd ein hardal. Dyma lyfr hanfodol i bawb sydd a diddordeb yn hanes eu bro. Diolch am y gymwynas.

DWY GYFROL DEWI

Dewi Tomos, awdur toreithiog o Rostryfan yw awdur dau o'r llyfrau rheini. Mae 'STRAEON GWYDION' wedi eu lleoli yn bennaf yn Nyffryn Nantlle, ond rhoir sylw hefyd i chwedlau am Farged Uch Ifan, Castell Cidwm a Nant y Betws o fewn ein hardal ni.

Mae straeon da yn cael eu hadrodd a'u hailadrodd. yng

Nghymru, mae gennym rai straeon sydd ymhell dros fil o flynyddoedd oed, ond maent gystal straeon nes bod un genhedlaeth wedi eu hadrodd wrth y nesaf ar hyd y canrifoedd. Y rhain yw ein straeon gwerin.

Prin fod ardal yng Nghymru sy'n gyfoethocach yn ei thraddodiad o adrodd straeon na Dyffryn Nantlle a'r cylch. Mae rhai o anturiaethau'r Mabinogi wedi'u lleoli yno, mae stôr o straeon tylwyth teg a hud a lledrith yn perthyn i'r ardal ac mae yno straeon serch a rhyfel yn ogystal. Casgliad o straeon gweerin y fro ryfeddol honno a geir yn y gyfrol hon, y cyfan wedi'u hailadrodd o'r newydd gan frodor o'r cylch.

Mae'r deuddeg stori yn y gyfrol wedi eu darlunio'n wych gan Angharad Tomos. Llyfr i blant yn bennaf, ond fe ddylai apelio i'r to hyn hefyd sydd am ail-gofio hen chwedlau'r fro.

SIMNEIAU GWael? CRACIAU MWG A HOGLA' TARO PERYGLUS

Cysylltwch â David Wood

'INSULAFLUE'

Yr Arbenigwyr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG

Ffôn: Llanberis 871376

CABS LLANRUG



Prisiau cystadleuol
Gwaith contract
pell ac agos
C'fon 5951

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Felinheli 670 726)

CYMDEITHAS RHIENI AC ATHRAWON YSGOL BETHEL: Nos Fawrth, Ebrill 24 cafwyd noson ddiddorol ac addysgiadol iawn yng nghwmni Mrs M. Golud, Athrawes Ymgynghorol Gwyddoniaeth.

Soniodd Mrs Gould am le gwyddoniaeth yn y Cwricwlwm Cenedlaethol ac yn ystod y noson cafodd y rhieni a'r athrawon gyfle i wneud rhai arbrofion eu hunain.

LLONGYFARCHIADAU: i Carys Owen, Berwyn, ar ddathlu ei phenblwydd yn 18 oed ddydd Sadwrn, Mai 12.

MEWNFUDWYR: Gyda'r holl sôn am fewnfudwyr i'r ardal stori wahanol iawn glywais i yr wythnos diwethaf. Erbyn hyn mae'r 7 tŷ newydd yn Bron Gwynedd wedi eu gwerthu a'r cwbl i Gymry Cymraeg ieuanc. Croeso mawr iddynt i gyd i'r ardal a gobeithio y byddant yn cartrefu yn hapus yn ein plith ac yn dod yn rhan o'r gymdeithas.

LLONGYFARCHIADAU: i Angharad Price ar ennill diploma ALCM am chwarae'r piano. Mae Angharad yn ddisgybl i Mrs Heulwen Williams.

CYDYMDEIMLO: yn frawychus o sydyn bu farw Mrs M. Parry, Tyddyn Hen gynt. Estynnir ein cydymdeimlad â Mr a Mrs W. Parry a'r teulu, 11 Tan y Buarth yn eu profedigaeth a hynny mor fuan ar ôl colli Mr Parry.

Ar ôl gwaeledd hir, ar Fai 8, bu farw Mr Glyn Owen, 2 Bro Eglwys, gynt o Dafarn Grisiau, Y felinheli. Estynnir pob cydymdeimlad â Mrs Owen, Mr a Mrs John Owen a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

EISTEDDFOD YR URDD, DYFFRYN NANTLLE AC ARFON: Cynhaliwyd y gweithgaredd olaf yn ddiweddar, sef DISGO, yn y Neuadd. Mwynhaodd pawb y dawnsio a braf oedd cael ambell i seibiant, i brofi'r cŵn poeth godidog.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am eu cymorth yn ystod y noson, ond yn arbennig i lorwerth Williams am roi ei amser i fod yng ngofal y disgo.


Da yw deall gan Swyddogion y Pwyllgorau Gwaith a Chyllid fod cronfa'r ardaloedd wedi cyrraedd ei nod, a ni yma ym Methel wedi pasio y target a osodwyd, sef £2,700.

MERCHED Y WAWR: Eluned Bebb Jones oedd y wraig wadd yn y

cyfarfod a gynhaliwyd ar Fai 3. Rhoddodd sgwrs a sleidiau ar fywyd gwylt a mannau o ddiddordeb o gwmpas glannau'r Fenai. Diolchwyd iddi gan Mrs Annie Elizabeth Williams. Y gwestwraedd oedd Margaret Owen, Annie Elizabeth Williams a Mary Grace Williams. Enillwyd y raffl gan Mair Jones.

Bydd gwibdaith y gangen ar Fehefin 13; enwau cyn gynted ag y bo modd i'r ysgrifenyddes. Gofynnir i'r aelodau ddychwelyd y rafflau i'r ysgrifenyddes neu'r llywydd cyn gynted â phosibl.

YR URDD: Llongyfarchiadau i dri aelod o'r gangen leol ar ôl llwyddaint yn Aberystwyth yn ddiweddar, mewn cystadleuaeth Judo. Fe enillodd Nia Salisbury fedal arian o dan 33kg., a'i chwaer, Anwen, fedal efydd hefyd o dan 33kg.



Nia ac Anwen Salisbury

Mewn cystadleuaeth o dan 45 kg., fe enillodd Kelvin Owen fedal arian.



Llongyfarchiadau hefyd i Llinos Mair Williams, a ddaeth yn ail yn y Sir mewn cystadleuaeth Gymnasteg. fe fydd yn cynrych-

ioli'r gangen yng Nghanolfan Hamdden Arfon, yn ystod wythnos yr eisteddfod. Pob llwyddiant iddi.

PÊLDROED YR IEUENCTID




Nos Wener, Ebrill 24 yng Nghlwb Criced Llandegai, cynhaliwyd noson wobrwyo tîm pêl-droed Ieuencid Bethel. Cyflwynwyd tîws i holl aelodau'r tîm gan y Parchedig W. R. Williams. Tîm Irfon enillodd y gwpan am dîm gorau'r tymor, y gwpan yn rhoddedig gan Garej Minffordd.

CRYSAU NEWYDD I DÎM YR YSGOL



Mrs Sheila Foulkes yn cyflwyno crysau newydd (glas a gwyn — lliwiau Ysgol Gynradd Bethel) i dîm pêl-droed yr ysgol. Rhodd i'r ysgol gan Mr a Mrs Foulkes.

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques
Ivy Cottage
BETHEL

Ffôn:
Y FELINHELI 670556



PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

GWASANAETHAU ARIANNOL

ERYRI

FINANCIAL SERVICES



41B STRYD FAWR
LLANBERIS

Ffôn: 872003



Guardian
Royal
Exchange

Logo of another financial institution.

Clalifornia! — a 'FFULMSDÂR'



Carwyn John Morris, Perth, yn gwerthu un o gŵn defaid ei dad i Miss Nicola Linsdale, Carmel Valley, California, U.D.A.



Eilir Birkett o Fethel sydd wedi ei ddewis i gymryd rhan yn y ddrama 'Llygad Hacky Basham' sy'n cael ei ffilmio ar hyn o bryd ar gyfer S4C.

Dyddiadur y Mis

1. **Gwener:** DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Band 8.00.
4. **Llun:** PENISARWAUN: Ymarfer at yr Eisteddfod — Neuadd yr Eglwys 6.30; LLANBERIS: Sefydliad y Merched.
5. **Mawrth:** DEINIOLEN: Undeb y Mamau 7.00; PENISARWAUN: Mabolgampau'r Urdd 5.30.
6. **Mercher:** DEINIOLEN: Clwb Peldroed, Noson Wobrwyo 7.00; LLANRUG: Hafan Elan, Noson Goffi 7.00.
7. **Iau:** LLANRUG: Cyfarfod Cyhoeddus i drafod sefydlu Menter Wledig, yn yr Ysgol Gynradd 7.00.
8. **Gwener:** DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Band 8.00; LLANBERIS: Te yr Henoed.
10. **SUL:** Gŵyl Gorawl Eryri — yn Eglwys y Santes Fair, Y Felinheli.
11. **Llun:** DINORWIG: Pwyllgor y Ganolfan 7.00; BRYNREFAIL: Sefydliad y Merched; YR ARDAL: Mabolgampau Cylch yr Urdd ar gae Ysgol Syr Hugh Owen, 5.00.
12. **Mawrth:** LLANRUG: Merched y Wawr — Taith Ddirgel. WAUNFAWR: Trip y Gymdeithas Lenyddol, cychwyn am 6.00.
13. **Mercher:** LLANRUG: Plaid Cymru, Cyfarfod Blynnyddol yn yr Ysgol Gynradd 7.30.
15. **Gwener:** DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Band 8.00. PENISARWAUN: Pont — Twmpath Dawns 7.30 yn y British, Bangor.
17. **Sul:** DINORWIG: Eglwys Santes Fair — Gŵyl Bregethu 3.45.
18. **Llun:** BRYNREFAIL: Sefydliad y Merched — Ymweliad ag Antur Waunfawr; DEINIOLEN: Merched y Wawr.
19. **Mawrth:** PENISARWAUN: Clwb yr Heulwen.
21. **Iau:** LLANRUG: Cyfarfod Chwiorydd Ponrhythallt 2.00.
22. **Gwener:** LLANBERIS: Te yr Henoed; DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Band 8.00.
23. **Sadwrn:** DINORWIG: Hwyl Haf 1.30; BRYNREFAIL: Helfa Drysor 6.00.
24. **Sul:** PENISARWAUN: Eglwys Santes Helen — Dydd Gweddi a Rhodd. Cymun 10.30 y bore.
28. **Iau:** WAUNFAWR: Merched y Wawr — trip i Nant Gwrtheyrn.
29. **Gwener:** DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Band 8.00; PENISARWAUN: Eisteddfod y Pentref 5.30.
30. **Sadwrn:** DINORWIG: Trip yr Ysgol Sul.

YMWELYDD O'R 'MERICA



Connie Amor yng nghwmni plant Bethel.

Pan yn ddisgybl yn Ysgol y Berwyn, Bala, yn 1975, ymunodd Iona Williams o Fethel â'r 'International Youth Service' a chysylltu fel 'pen pal' â merch o Michigan yn yr Unol Daleithiau, sef Connie Amor, gan ffeirio llythyrau, lluniau a thapiau. Parhaodd hyn tra yn ddisgybl yn Ysgol Brynrefail, Llanrug. Yn 1985, treuliodd Iona a'i ffrind Collette Roberts (gynt o Wersyll Brynteg, Llanrug) dair wythnos fythgofiadwy yn California, lle yr oedd Connie erbyn hyn wedi symud i fyw.

Ymwelodd Connie â Bethel am y bythefnos cyntaf o Fis Mai eleni, gan brofi ein dull o fyw. Gwelodd Orsaf Drydan Dinorwig, ond siomedigaeth gafodd o ddarganfod nad oedd tren bach y Wyddfa yn esgyn i'r copa hyd ganol y mis. Clywodd y gwew am y tro cyntaf erioed, a'i hudo gan lesni'r borfa.

Trwy garedigrwydd Mr Islwyn Jones, Prifathro Ysgol Gynradd

Bethel, treuliodd Connie ran o'i diwrnod olaf yng nghwmni plant ac athrawon yr ysgol, gan adrodd ychydig o'i hanes ac ateb cwestiynau y plant. Diwedd glo campus a adawodd argraff ffafriol yn ei chof.

Mae Iona a'i theulu yn bwriadu croesi Môr yr Iwerydd eto ym Mis Awst i weld Connie.

GALW'R CERDDWYR

Taith y Derwyddon — taith gerdded noddedig Eisteddfod Genedlaethol Bro Delyn 1991

Bydd taith gerdded arbennig a gynhelir i godi arian at Eisteddfod Genedlaethol Bro Delyn 1991 yn dilyn ôl 'Llwybr y Beirdd' gan gynnwys dwy dref eisteddfodol — Caerwys a'r Wyddgrug.

Cynhelir 'Taith y Derwyddon' ar ddydd Sul, Gorffennaf 1, 1990, bydd yn cychwyn o sgwâr Croes Caerwys am 8.00 y bore ac yn gorffen ger Cylch yr Orsedd ym Mryn y Beili, Yr Wyddgrug, am 5 o'r gloch y prynhawn.

I'r rhai sy'n llai egniol cynhelir taith fer o bum milltir sy'n cysylltu Parc Gwledig Moel Famau a Loggerheads. Bydd y daith honno yn cychwyn o feysydd parcio Moel famau rhwng 12 a 2 o'r gloch y prynhawn.

Cyflwynir tystysgrif ar ffurf sgrôl neu femrwn i bob un sy'n llwyddo i gwblhau'r daith, a luniwyd yn arbennig i'r Eisteddfod gan gerddwyr 'Rainbow Ramblers', Gwern-y-mynydd. Bydd yr Eisteddfod yn

cyhoeddi llyfryn arbennig i gydfynd â'r daith, a werthir er budd Eisteddfod Genedlaethol Bro Delyn 1991.

Mae Trefnydd yr Eisteddfod, Elfed Roberts, yn ffyddiog y bydd Taith y Derwyddon yn denu'r cerddwyr profiadol a'r rhai di-brofiad. 'Bydd yn sicr yn ddiwrnod i'w gofio i bawb', meddai.

Am ragor o fanylion, cysyllter ag Elfed Roberts, Swyddfa'r Eisteddfod, 24 Stryd Fawr, Yr Wyddgrug, Ffôn (0352) 700344.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

+

**J.M.
JONES
A'I FEIBION**

**GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

Y SGWÂR, LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol,
Cerrig o bob
math ar gael.

Ffôn:
Caernarfon 2898
(dydd)
Caernarfon 76285
(nos)

W. H. JONES

TRYDANWR

Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: Llanberis
871470

Cottractau Weirio Tai
Cawodydd Trydan
ac ati

Stondin Gacennau
Pwyllgor Merched
Arfon

Plaid Cymru

ar y Maes, Caernarfon
Bore Gwener, Mehefin 8
o 9.30 ymlaen
Gwerthfawrogir
cyfraniadau o gacennau
a bwydydd cartref

Dewch i helpu

Dewch i brynu

Am ychwaneg o fanylion
Ffoniwch:

Caernarfon 4878

Llanberis 870273

Waunfawr 200 neu 321

Caernarfon 5359

RAS Y BABELL BINC LLACHAR

Torri Record — ond i ddim pwrpas

Bydd gan Paul Wheeler o Glwb Rhedeg Mynyddwyr De Cymru resymau da i gofio ac anghofio am nawfed Ras Moel Eilio a gynhaliwyd eleni ar bnawn y Cyp Ffeinal. Torrodd record y cwrs o dros bedwar munud — dim ond i sylweddoli ei fod wedi dilyn y llwybr anghywir, a hynny oherwydd i'w lygad ddigwydd taro ar babelll binc, llachar ar lethrau'r Aelgerth.

Eleni roedd y Ras yn ymgorffori Pencampwriaeth Rhedeg Mynydd Clwb Rhedwyr Eryri a Gwynedd, a daeth 88 o redwyr i ymgiprys am y gwobrau yn y gwahanol gategorïau.

Ar yr allt serth heibio i Ddinas Tŷ Du ac am Fwlch y Groes, roedd tua hanner dwsin o redwyr profiadol eisoes wedi torri'n rhydd oddi wrth weddill y pac. Yn eu plith roedd Hefin Griffith

o Glwb Hebog, Emlyn Roberts a Gwynfor Owen (Llanrug) o Glwb Eryri, a Paul Wheeler o Glwb Mynyddwyr De Cymru.

Ar lethrau Moel Eilio, rhedai Paul Wheeler yn gryf, gan adael y gweddill a chyrraedd y copa mewn 22 munud — dros funud ar y blaen i'r lleill. Rhedai'n gyfforddus, ac ar hyd y grib uwchben Cwm Dwythwch, dangosodd bar clir o sodlau i'w



ddilynwyd, gan ddringo copaon Y Foel Gron a'r Foel Goch yn rhwydd. Ond yna, ar gopa'r Foel Goch, sylwodd ar babelll binc llachar islaw iddo ar y chwith, ar lethrau'r Aelgerth. Tybiodd mai pabell stiwardiaid y ras ydoedd, ac anelodd amdani, gan ddisgyn i Gwm Dwythwch a chyrraedd diwedd y ras ymhell ar y blaen i bawb arall — ond yn ofer. Doedd a wnelo'r babelll binc ddim a'r ras.

Erbyn hyn, roedd Emlyn Roberts, Hefin Griffith a Gwynfor Owen yn croesi Bwlch Maesgwm ac yn dringo'r copa olaf — Moel Cynghorion. Roedd yn agos iawn rhyngddynt yn cyrraedd y copa, ond wrth ddisgyn i lawr y llethrau serth yn ôl i Fwlch Maesgwm, Emlyn Roberts brofodd gryfaf o'r tri, gan orffen y ras yn bencampwr Clwb Eryri a phencampwr Gwynedd, mewn amser o 62 munud a 10 eiliad. Hefin Griffith (Hebog) ddaeth yn ail a Gwynfor Owen (Eryri) yn drydydd.



Wedi brwydr galed yr holl ffordd, Del Davies o Hebog enillodd y ras i ddynion dros 40 oed oddi wrth Huw Parry (Eryri). Daeth Stel Farrar (Eryri), dysgwraig y flwyddyn, yn gyntaf cyfforddus yn y ras i ferched.

Ond bydd Paul Wheeler druan yn cael hunllefau am nosweithiau i ddod am bebyll pinc llachar ...

o fenter i fusnes

Y BEIBL BUSNES CYMRAEG!

Pecyn o ganllawiau trylwyr ar gyfer rhai sydd yn ystyried mynd i fusnes, a rhai sydd mewn busnes eisoes.

O ddefnyddio 'o fenter i fusnes' bydd gennych:

- gynllun cychwyn busnes a chodi arian,
- gwybodaeth sylfaenol o ffurf a threfn busnes,
- awgrymiadau ymarferol,
- fwy o hyder i werthu,
- system syml o gadw cyfrifon.

Am wybodaeth bellach? cysylltwch â:

Menter a Busnes, Parc Gwyddoniaeth Aberystwyth, Aberystwyth, Dyfed, SY23 3AH
ffôn: 0970 625561 neu holwch yn eich siop lyfrau lleol.

Menter a Busnes

Yn Hybu Menter Siaradwyr Cymraeg

ASiantaeth
HYFFORDDI



Sefydlwyd gyda chymorth Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Datblygu Cymru Wledig

ADOLYGIAD O'R TYMOR PELDROED

LLWYDDIANT LLANBERIS

'Enillwyr' oedd prif bennawd y dudalen ôl i fod y mis yma, a lluniau'r holl dimau o'r ardal oedd wedi ennill tlws yn ei ddilyn. Yn anffodus, tymor 'bron iawn' fu hi, ac eithrio i ail dim Llanberis, a'u llun hwy yn unig a welwch, o'r herwydd.

daeth tîm cynta'r pentre yn 6ed allan o'r 18 fu'n cystadlu yn y 'Warwick International Welsh Alliance League', ac fel y dywed eu rheolwr, Iwan Williams, mae hynny cystal ag y disgwyliai neb iddynt fod yn eu tymor cyntaf. Fe'u curwyd gan Yr Wyddgrug yn rownd go-gynderfynol y cwpoan Barritt. Mae'r Locos wedi sefydlu eu hunain yn y lefel yma o beldored bellach, ac os bydd i rai o dimau gorau'r gynghrair eu dyrchafu i'r gynghrair genedlaethol y tymor nesaf, rwy'n siŵr y byddant yn cystadlu'n nes at gopa'r tabl.

Ail dim Llanberis yw pencampwyr Cynghrair Sain, Caernarfon a'r cylch, ac mewn tymor hynod o lwyddiannus, hwy hefyd a gipiodd gwpan Wil Evans a chyrraedd rowndiau cyn-derfynol y Cwpan Iau.

Gwilym Williams a Kelvin Jones yw rheolwyr y tîm, ac aelodau eraill y garfan yw Huw Jones, John Ifor Jones, Alan Williams, David Evans, Andrew Owen, David Jones (Capt.), Keith Jones, Alwyn Williams, Andrew Griffiths, Jason Roberts, Ian Owen a Sel Allsupp. Stan Griffiths yw'r 'Doctor Dŵr'.

Tymor 'go-lew' oedd disgrifiad Emlyn Huws o'i dim dan 12 oed:

Ch	E	Cyf	Colli	OB	YE	Pt.
26	13	2	11	92	90	28

Mae'n debyg mai siomedig fyddai disgrifiad Mr Twm Roberts o'i dim dan 14 oed, yntau:

Ch	E	Cyf	Colli	Pt.
12	4	0	8	8

Mr Geraint Jones sy'n rhedeg y tîm dan 16 oed, ac fe brofwyd tymor eithaf llywyddiannus — y gorau ers blynyddoedd mae'n debyg. Fe lwyddwyd i fod yn drydydd yn y gynghrair:

Ch	E	Cyf	Colli	Pt.
12	8	2	2	18

a cholli o 2 gôl i 0 ar yr Oval yng Nghaernarfon fu eu hanes yn erbyn Caernarfon Utd. yng nghwpan Jimmy James.

Fe ddaethant cyn belled â'r rownd gyn-derfynol yng nghwpan Goffa Rice hefyd, gan golli o 2 gôl i 0 oddi cartref ym Mhenygroes.

DEINIOLEN

Mae'n braf cael nodi fod gemau peldroed wedi eu trefnu ar gyfer pob oed yn Neiniolen hefyd, a hynny er gwaetha'r ffaith eu bod yn gorfod chwarae'r mwyafrif o'u gemau ar gaeau Ysgol Brynrefail. 'Rwy'n deall fod cynlluniau ar y gweill i wella eu cae eu hunain yn y pentref.

Tymor digon siomedig ddaeth i ran y bechgyn dan 12 oed, gan golli 22 gêm allan o'u 27. Colli fu eu hanes yn ail rownd y cwpan hefyd, a hynny o bump gôl i bedair ar ôl amser ychwanegol yn erbyn Llanystumdwy.

Roedd y tîm dan 14 oed yn fwy llywyddiannus, gan golli ond tair o'u 12 gêm gynghrair. fe lwyddwyd hefyd i gyrraedd ffeinal cwpan y gynghrair, ond collwyd ynddi o 2 gôl i 1, yn erbyn Caernarfon.

Siomedig iawn fu tymor yr hogia dan 16 oed, gan ennill dwy a cholli 10 o'u 12 gêm gynghrair.

Yng nghynghrair Sain, Caernarfon a'r Cylch y mae tîm mawr y pentre'n cystadlu, a rhyw dymor canol tabl fu hi:

Ch	E	Cyf	Colli	Pt.
28	10	2	16	32

LLANRUG

Daeth y tîm dan 12 oed, yn 3ydd yn eu cynghrair:

Ch	E	Cyf	Colli	OB	YB	Pt.
31	23	3	5	201	47	49

ac fe ddaeth cyfran helaeth o'r goliau hynny oddiwrth Andrew Davies o'r Waunfawr, sef 78!

Fe ddaeth y tîm dan 14 oed un safle'n well, sef yn ail:

Ch	E	Cyf	Colli	Pt.
12	9	1	2	19

Colli fu eu hanes yn rowndgyn-derfynol y cwpan.

Yn anffodus, ni lwyddwyd i gwblhau tymor y tîm dan 16 oed, a thair o'u saith gêm ddaeth a llywyddiant iddynt.

Roedd ail dim y pentref yn 6ed yng nghynghrair Sain, Caernarfon a'r Cylch.

Ch	E	Cyf	Colli	OB	YE	Pt.
28	15	7	6	66	43	37

ac fe brofodd yn dymor pur llywyddiannus i'r tîm cyntaf yng Nghynghrair Gwynedd. Llangefni aeth â'r holl dlysau, a hynny am yr ail dymor yn olynol, ond daeth Llanrug yn drydydd iddynt yn y tabl gan ennill 14 o'r 24 a dod yn gyfartal mewn 4. Fe'u trechwyd gan Llangefni hefyd yn ffeinal cwpan y Gynghrair, a hynny o 7 gôl i 6 ar benaltis ar ôl amser ychwanegol.

Fe gyrhaeddwyd ¼ ffeinal y Cwpan Barritt, gan golli ynddi o 5 gôl i 0 yn erbyn Porthmadog.

ATHLETWYR YSGOL BRYNREFAIL



Bu tîm athletau'r Ysgol yn cystadlu ym mhencampwriaethau Ysgolion Arfon ym Mangor ar y 10fed o'r mis, ac fe gafwyd canlyniadau boddhaol iawn ar y cyfan.

Dacth 11 disgybl yn gyntaf, 18 yn ail ac 11 arall yn drydydd yn eu gwahanol gystadleuthau. Bydd pawb a ddaeth yn gyntaf neu yn ail (ac eithrio disgyblion y flwyddyn gyntaf) yn cystadlu ym mhencampwriaethau Ysgolion Gwynedd ym Mae Colwyn ar Fehefin 23, ac yna'r enillwyr o'r cyfarfod hwnnw ym mhencampwriaethau Ysgolion Cymru, eto ym Mae Colwyn ym mis Gorffennaf.

Dyma'r canlyniadau: **Colin Jones:** 1, 1500m, 1, 800m dan 17 oed; **Carolyn Jones:** 1, 800m; 2, 1500m dan 15 oed; **Jonathan Williams:** 1, Pwysau, 2, Disgen dan 17 oed; **Arfon Roberts:** 1, Pwysau, 1, Disgen dan 15 oed; **Andrew Jones:** 1, 200m, 2, 100m; **Arwel Jones:** 1, Picell dan 13 oed; **Cenwyn Jones:** 1, 1500m dan 13 oed; **Iwan Owen:** 1, Clwydi dan 13 oed, 3, Naid Uchel; **Gareth Parry:** 1, Disgen, 2, Pwysau dan 13 oed; **Rhian Roberts** 2, Disgen dan 17 oed; **Nicola Houston:** 2, Naid Uchel dan 15 oed; **Raphael Ginsberg:** 2, Picell dan 15 oed; **Michael Jones:** 2, Naid Driphlyg dan 15 oed; **Sion Hughes:** 2, 400m, 2, 800m dan 15 oed; **Caitlin Wroe:** 2, Naid Hir, 2, Naid Uchel, 2, 800m dan 13 oed; **Sandra Nisbett:** 2, Naid Hir dan 15 oed; **Manon Williams:** 2, Clwydi, 3, 100m, dan 13 oed; **Wayne Kift:** 2, Clwydi dan 15 oed; **Paul Jones:** 2, Naid Driphlyg, 3, 800m; **Genethod dan 13:** 2, Ras Gyfnewid; **Bechgyn dan 15:** 3, Ras Gyfnewid; **Alwyn Thomas:** 3, 1500m dan 15 oed; **Ryan Kift:** 3, 200m, dan 13 oed; **Jonathan Davies:** 3, Naid Hir dan 15 oed; **Eryl Roberts:** Pwysau dan 15 oed; **Aled Griffiths:** 3, 200m dan 17 oed; **Lindsey Thornton:** 3, Pwysau dan 17 oed; **Helen Hughes:** 3, 400m dan 17 oed.

CARTREF NYRSIO PENISARWAUN

- ★28 Stafell Wely Sengl gyda thy bach a lle ymolchi
- ★2 Stafell Wely Ddwbl gyda "en suite" (delfrydol i barau priod)
- ★Gwres canolog llawn
- ★Sustem ddiogelu rhag tân
- ★Eisteddfa fawr gyfforddus efo teledu lliw
- ★Sustem alw nyrs
- ★Yn Cwrdd â phob angen personol
- ★Lle bwyta mawr
- ★Aros cyfnod hir/byr
- ★Gofal 24 awr y dydd gan staff proffesiynol
- ★Croesawir rhai gyda cymorth D.H.S.S.
- ★Ymwelwyr yn cael galw unrhyw adeg
- ★Coginio cartefol
- ★Metron a staff sy'n siarad Cymraeg
- ★Ar lwybrau bws o Fangor a Chaernarfon

Am fanylion pellach cysylltwch â'r
Metron Cheryl Williams, Ffôn 872038.

CHWARAEON

GWNEUD EI FARC YM MYD Y BÊL-DROED

Bu'r tymor pêl-droed eleni yn un llwyddiannus dros ben i Marc Lloyd Williams o Lanberis. Yn fachgen 17 mlwydd oed, y mae lle i obeithio fod o leiaf un droed ganddo ar reng yr ysgol fydd yn galluogi iddo wireddu ei uchelgais o fod yn chwaraewr proffesiynol.

Mae'n chwarae ar hyn o bryd i dîm Llanfairpwll, yng nghynghrair Warwick International Alliance Cymru, ac mae pawb yn gyfarwydd, rwy'n siŵr, â'r stori amdano'n dod ar y cae fel eilydd rhyw ddau fis yn ôl, a helpu i guro'r tîm y mae ei dad yn rheolwr arno, sef Llanberis. Yn ystod y flwyddyn hefyd, fe'i dewiswyd i gynrychioli tîm Gogledd Cymru dan 18 oed. Bu am dreialon yng Nghaer, Tranmere Rovers ac yn Henffordd.



iddo yn yr U.D.A. pan fydd yn 18 oed, ac os bydd y canlyniadau o'i gwrs academig yng Ngholeg Technegol Bangor yn dderbyniol.

Mae Ian Bowyer, rheolwr Henffordd, hefyd yn awyddus iawn i'w gael yn ôl i ymarfer gyda hwy cyn dechrau'r tymor nesaf ym mis Gorffennaf.

Fe hoffai Marc ddiolch o galon i'r holl bobl leol sydd wedi ei gefnogi a'i noddi i fynd i'r Swistir. Mae'n gwerthfawrogi ei haelioni yn fawr iawn. Mae am ddiolch yn arbennig i Mr Aneurin Jones, Gwesty Dolbadarn, am ei noddi pan yn chwarae dros Gymru yng nghystadleuaeth 5 bob ochr Prydain yn Leeds ym mis Ebrill.

Yn ystod ei gyfnod ar dreial yn Henffordd fe sgoriodd mewn gêm yn erbyn tîm dan 18 oed Ysgolion Cymru, ac o ganlyniad, fe'i dewiswyd i gael ei gap cyntaf dros Gymru, gyda'r tîm yr oedd newydd chwarae yn eu herbyn! Bydd yn hedfan gyda hwy i'r Swistir i chwarae dwy gêm yno rhwng Mai 25 a Mehefin 1.

Fel canlyniad i'r gêm honno yn Henffordd hefyd, daeth hyfforddwr tîm pêl-droed Prifysgol Florida ato gan gynnig 4 blynedd o ysgoloriaeth

CWIS CHWARAEON MIS MEHEFIN

Diolch i Ken (Peintar) am godi'r ffôn yn ystod y mis, nid yn unig i ofyn am atebion y cwestiynau oedd yn benbleth iddo, ond hefyd i'm hysbysu fod camgymeriad yn y nawfed cwestiwn yng nghwis y mis diwethaf. **Bill Slater** yw'r dyn fu'n chwarae yn ffeinal cwpan yr FA fel amatur dros **Blachpool** yn 1951, ond yn 1960 ac nid 1961 y chwaraeodd ynddi yn broffesiynol dros **Wolves**.

Llundain fu'n cynrychioli Prydain pan chwaraewyd am yr European Intercity Fairs Cup gyntaf yn 1955-58. Cwmni **Philips** sydd berchen PSV Eindhoven; ni churwyd **Rocky Marciano** drwy gydol ei yrfa broffesiynol fel bocsiwr, ac rwy'n dal i fynnu mai **Coventry City** (er gwaethaf yr hyn a ddywed rhai pobl) yw'r unig glwb sydd wedi chwarae yn 6 adran y Gynghrair. mae'n rhaid i geffyl fod yn 6 oed cyn y caiff redeg yn y 'Grand National'; **Halifax Town** sy'n chwarae ar 'The Shay'; **Pel Fasgen** a elwid yn Pok-ta-Pok yn wreiddiol, a **Gavin a Scott Hastings** yw'r brodyr fu'n chwarae i'r Barbariaid. Yn olaf, 159 yw'r rhif cyntaf ar ôl 100 na ellir gorffen arno â dwbl.

Reit, beth am rhain 'ta:

1. Pa liw yw'r siaced a wisgir gan y milgi sy'n rasio agosaf i'r canol (h.y. yr inside lane)?
2. Pa sbort sy'n cael ei gynnal mewn velodrome?
3. Moto-beics — beth yw hyd y cwrs TT ar Ynys Manaw?
4. Pa dîm Peldroed Americanaidd sy'n chwarae ar Soldiers Field?
5. Pwy ddaeth yn reolwr Watford FC ar ôl Dave Bassett yn 1988?
6. Pwy oedd y peldroediwr cyntaf i gynrychioli Lloegr ar bob lefel (ysgol, ieuencid, amatur, dan 23 a'r tîm hŷn)?
7. Pwy oedd perchennog y cwch rasio Morning Cloud?
8. Beth sy'n cael ei gynnal ar Longchamp bob blwyddyn?
9. Ar pa gae criced rhyngwladol y mae Lloegr hefyd wedi chwarae Rygbi a pheldroed rhyngwladol arno?
10. Tîm pa wlad a fowliwyd allan mewn gêm brawf gan Lloegr yn 1955 am 26 rhediad?

PENCAMPWYR CYNGHRAIR SAIN



Ail dîm Llanberis — tîm mwyaf llwyddiannus y fro — gweler tudalen 27.

PENCAMPWYR Y DYFODOL!

Hogia Llanrug ar rês yn Aberystwyth

Tra roedd y dynion yn dathlu cychwyn y tymor rasmus mynydd ar ddechrau Ebrill, roedd yr Urdd yn dathlu diwedd y tymor rhedeg traws-gwlad. Cynhaliwyd diwrnod chwaraeon yr Urdd yn Aberystwyth, a daeth dau o fechgyn Ysgol Gynradd Llanrug â medalau yn ôl gyda hwy.

Daeth Eifion Pritchard Jones yn ail yn y ras i fechgyn ysgolion cynradd Cymru, a Steven Williams yn drydydd yn yr un ras. camp go arbennig gweld dau fachgen o'r un ardal yn cyrraedd y brig mewn ras genedlaethol,

ond mae pedigri rhedeg go dda yn y fro yn barod, gyda Paul Grant, Colin Jones a Gwynfor Owen eisoes wedi cynrychioli ei gwlad.

PYSGOTA

Yr un fu'r cwestiwn a'r un fu'r ateb ers wythnosau bellach, 'wyt ti wedi bod yn 'sgota?' 'Na, does 'na ddim dŵr, mae'r afon yn rhy isel'.

Prin fod dŵr o gwbl yn y Seiont a'r Llyfni, ac mae'r Gwryfai mor isel nes fod rhai o'r ffermwyr yn gorfod cario dŵr i'w stoc.

Er hynny, mae'r llynnoedd yn sgota'n hynod o dda, ac yn enwedig felly Padarn a Cwellyn gyda'r bluen. Fe enillodd Oscar Evans o Fethel gystadleuaeth 'sgota o gwch ar Fai 10, ac ar Fai 6, mewn cystadleuaeth ar Lyn y Dywarchen, daeth oddeutu hanner cant o frithyll yr enfys i'r rhwyd. Norman Davies o Gaernarfon oedd yn fuddugol yn adran yr oedolion, a John Jones o Lanrug yn ennill tîws yr ieuencid.

Mae'r gwaith o adeiladu deorfa'r gymdeithas wedi ei ddechrau, gyda




Dewi Jones o Fethel gyda'r eog 10 pwys a gododd o'r Seiont y llynedd.

thalcen yr hen Felin yng Nghrawia wedi ei ddymchwel.


Daeth nifer o gwynion i sylw'r pwyllgor gwaith ynglŷn â ymddygiad rhai ymwelwyr o gyffiniau Lerpwl ar Lyn Padarn. Deallir eu bod yn defnyddio dulliau i bysgota sydd ddim yn weddus i gadwraeth naturiol y pysgodfeydd. Bwriedir dod a chamau pendant i rym erbyn y tymor nesaf i roi diwedd ar hyn.

Daeth cylchgrawn Cymraeg newydd sbon i'm sylw yn ystod y mis, sef 'Y Pysgotwr'. Gobeithir ei gyhoeddi bob tri mis i ddechrau ac yna'n fisol yn y dyfodol. Mae wedi ei anelu at bysgotwyr o bob oedran sydd â diddordeb mewn 'sgota ar afonydd a llynnoedd Cymru am eog, brithyll a sewin; ac y mae pysgotwyr profiadol fel Moc Morgan, Norman Closs Parry, a 'sgotwr yr 'Eco', sef H. P. Hughes, yn cyfrannu erthyglau iddo. Mae ar gael mewn siopau llyfrau a phapurau newydd led-led Cymru am bris o £1.



Eifion Pritchard Jones

Er fod y ddau fachgen yn ifanc iawn i roi eu bryd ar unrhyw gamp arbennig, mae ffitrwydd corfforol yn bwysig iddynt. Bydd Eifion yn ymarfer nofio ym Mhwll Bangor yn rheolaidd bob wythnos, ac y mae Steven yn cael ymarfer rhedeg gyda'i fodryb o gaernarfon, sydd eisoes wedi rhedeg Marathon Llundain nifer o weithiau.



Steven Williams

Pwy ŵyr na chawn longyfarch Eifion a Steven ar ennill Ras yr Wyddfa neu Farathon Llundain rhyw ddydd.